

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru
(Cymhwysedd Deddfwriaethol)
(Yr Iaith Gymraeg) 2009

Adroddiad Pwyllgor
Mehefin 2009



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

I gael rhagor o gopiâu caled o'r ddogfen hon cysylltwch â:
Y Swyddfa Ddeddfwriaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8154
Ffacs: 029 2089 8021
Ebost: swyddfadeddfwriaeth@cymru.gsi.gov.uk

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru
(Cymhwysedd Deddfwriaethol)
(Yr Iaith Gymraeg) 2009

Adroddiad Pwyllgor
Mehefin 2009



Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

Aelodau'r Pwyllgor

Mark Isherwood (Cadeirydd)	Plaid Geidwadol Cymru	Gogledd Cymru
Mick Bates	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	Sir Drefaldwyn
Alun Davies	Llafur	Canolbarth a Gorllewin Cymru
Lesley Griffiths	Llafur	Wrecsam
Darren Millar	Plaid Geidwadol Cymru	Gorllewin Clwyd
Leanne Wood	Plaid Cymru	Canol De Cymru

	Tudalen
Crynodeb	3
1. Cyflwyniad	6
2. Egwyddor gyffredinol y Gorchymyn arfaethedig	8
3. Cwmpas Mater 20.1	13
<ul style="list-style-type: none"> - A yw Mater 20.1 yn rhy eang neu'n rhy gyfyng? - Cymhariaeth â deddfwriaeth iaith mewn gwledydd a rhanbarthau eraill 	
4. Ystyried telerau Mater 20.1	34
<ul style="list-style-type: none"> - "Trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg ar sail cydraddoldeb" - "Gwasanaethau i'r cyhoedd" 	
5. Mater 20.1 – ystyried y categorïau o bersonau sy'n dod o fewn ei gwmpas	39
<ul style="list-style-type: none"> - Paragraff (a): "awdurdodau cyhoeddus" - Paragraff (b): gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd "o dan gytundeb, neu'n unol â threfniadau, a wnaed gydag awdurdod cyhoeddus" - Paragraff (c): "personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac a gafodd eu sefydlu drwy ddeddfiad neu offeryn uchelfreiniol" - Paragraff (d): swyddogaethau o ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd a roddwyd neu a osodwyd drwy ddeddfiad - Paragraff (e): "personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd sy'n derbyn cyfanswm o £200,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol" - Paragraff (f): "personau sy'n goruchwyllo rheoleiddiad proffesiwn, diwydiant neu gylch cyffelyb arall o weithgaredd" - Paragraff (g): "landlordiaid cymdeithasol" - Paragraff (h): personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac unrhyw wasanaethau eraill sy'n gysylltiedig <ul style="list-style-type: none"> (h) (i): gwasanaethau nwy, dŵr neu drydan; (h) (ii): gwasanaethau carthffosiaeth; (h) (iii): "gwasanaethau post a swyddfeydd post"; (h) (iv): "gwasanaethau telathrebu"; (h) (vi): "gwasanaethau rheilffyrdd" ac eithrio gwasanaethau trafndiaeth eraill; (h) (v) a (vii): addysg, hyfforddiant neu gyfarwyddyd gyrfaedd a gwasanaethau cymwysterau - Sefydliadau ariannol - Darlledu 	

6. Cwmpas Mater 20.2	66
- “Rhyddid” neu “hawl” i ddefnyddio’r Gymraeg	
- Cyfyngiadau ar y rhyddid i ddefnyddio’r Gymraeg	
7. Diwygiadau i Ddeddf Llywodraeth Cymru (Erthygl 4 o’r Gorchymyn arfaethedig)	73
8. Gweinidogion y Goron (Erthygl 5 o’r Gorchymyn arfaethedig)	75
9. Ymatebion gan aelodau’r cyhoedd	77
10. Sylwadau i gloi	80
Atodiadau	
Atodiad 1 Gorchymyn Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Yr Iaith Gymraeg) 2009 a’r Memorandwm Esboniadol	81
Atodiad 2 Llythyr ymgynghori	99
Atodiad 3 Rhestr o’r dystiolaeth ysgrifenedig	106
Atodiad 4 Amserlen o’r dystiolaeth lafar	114
Atodiad 5 Llythyrau gan Alun Ffred Jones AC, y Gweinidog dros Dreftadaeth at Mark Isherwood AC, Cadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 ar 3 Mawrth 2009 a 7 Mai 2009	115
Atodiad 6 Crynodeb o’r fframweithiau deddfwriaethol ar gyfer yr ieithoedd llai eu defnydd mewn gwledydd a rhanbarthau eraill	121

Crynodeb

Dyma grynodeb o'n hargymhellion o ran y newidiadau y dylid eu gwneud i Orchymyn Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Yr Iaith Gymraeg) 2009.

Cytunwn, mewn egwyddor, y dylid rhoi cymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â'r iaith Gymraeg i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cytunwn â barn yr unigolion a'r sefydliadau niferus sy'n cefnogi trosglwyddo cymhwysedd deddfwriaethol, fod yr iaith Gymraeg yn fater sydd â chysylltiad unigryw â'r genedl Gymreig, ac felly bod gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru hawl foesol i ddeddfu yn y maes hwn. O'r holl faterion y gellir eu datganoli i'r Cynulliad o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006), mae'r iaith Gymraeg yn fater sy'n arbennig o benodol i Gymru. Felly, credwn fod modd cyfiawnhau trosglwyddo cwmpas eang o bŵer deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar yr achlysur hwn.

Ar hyn o bryd, ni chredwn y byddai'n fuddiol categorio rhestr o gyrff arfaethedig y caiff dyletswyddau eu gosod arnynt neu na chaiff dyletswyddau eu gosod arnynt i ddarparu rhyw fath o wasanaeth iaith Gymraeg mewn unrhyw Fesur yn y dyfodol.

Fodd bynnag, cytunwn y bydd angen i unrhyw Fesur dilynol nodi'n eglur ar ba gyrff y dylid gosod dyletswyddau. Byddant yn destun craffu trylwyr ar yr adeg honno. Wrth benderfynu ar bwy y gosodir dyletswyddau, dylai'r Mesurau bennu'r categorïau o bersonau yr effeithir arnynt drwy gyfeirio at natur y gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd, maint y sefydliad dan sylw a'i statws cyfreithiol.

Felly, argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru nodi'r canlynol yn lle Mater 20.1:

Hybu neu hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg; a thrin yr iaith Gymraeg a'i iaith Saesneg ar sail cydraddoldeb.

Nid yw'r mater hwn yn cynnwys y defnydd o'r iaith Gymraeg mewn llysoedd.

Argymhellwn yn daer fod y Gweinidog yn ymgynghori ar gynnig ar gyfer Mesur cyn cyflwyno'r Mesur arfaethedig gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Os nad yw'r Gweinidog yn bwriadu dilyn ein hargymhelliad yn hyn o beth, argymhellwn ei fod yn cryfhau eglurder darpariaethau'r Gorchymyn arfaethedig, a hynny er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag amcanion Llywodraeth Cymru, fel y'i cefnogir gan y Pwyllgor.

Argymhellwn fod categori newydd yn cael ei gynnwys i gyfeirio'n benodol at bartneriaethau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd a'u cyrff cyfansoddol. Unwaith eto, wrth bennu'r personau y gosodir dyletswyddau arnynt, yn unol

â'n hargymhelliad uchod, dylai Mesurau restru'r categorïau o bersonau yr effeithir arnynt drwy gyfeirio at natur y gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd, maint y sefydliad dan sylw a'i statws cyfreithiol.

Cefnogwn amcan sylfaenol paragraff (e) o Fater 20.1 ("personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd sy'n derbyn cyfanswm o £200,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol") a chredwn ei fod yn briodol, mewn egwyddor, gosod dyletswyddau ar sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus ac sy'n cael arian cyhoeddus. Fodd bynnag, rydym yn parhau'n anfodlon nad paragraff (e) yw'r opsiwn gorau i sicrhau y cyflawnir yr amcan sylfaenol. Argymhellwn yn gryf fod y Gweinidog yn ailddrafftio'r ddarpariaeth hon. Credwn y gallai'r ddarpariaeth hon, sy'n ceisio categoreiddio'r rheini sy'n cael arian cyhoeddus yn rheolaidd, gael ei diffinio'n fanylach ac yn fwy synhwyrol mewn Mesurau dilynol. Unwaith eto, dylid eu henwi drwy gyfeirio at natur y gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd, maint y sefydliad dan sylw a'i statws cyfreithiol.

Dylai unrhyw gyfeiriad at "arian cyhoeddus" yn y Gorchymyn arfaethedig gynnwys arian y loteri yn ogystal ag unrhyw arian a geir gan gyrff cyhoeddus.

Credwn y dylid cynnwys pob gwasanaeth ynni o fewn cwmpas y Mater. Ni ddylai gael ei gyfyngu i wasanaethau nwy, dŵr a thrydan yn unig.

Credwn y dylai fod gan y Cynulliad y cymhwysedd i ddeddfu i osod dyletswyddau ar gyrff sy'n cyflenwi gwasanaethau rheilffyrdd, bysiau a hedfan a gwasanaethau ar y môr i'r cyhoedd a'u cyfleusterau cysylltiedig.

Argymhellwn y dylai pob sefydliad ariannol mawr sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ddod o fewn cwmpas Mater 20.1. Y rheswm dros hyn yw bod angen sicrhau amodau cyfartal ar gyfer pob cwmni o fewn y sector.

Argymhellwn y dylid rhoi'r cymhwysedd i'r Cynulliad ddeddfu ar ryddid personau i ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg gyda'i gilydd, ac y dylid diwygio Mater 20.2 fel a ganlyn:

Darpariaeth am neu mewn cysylltiad â rhyddid personau sy'n dymuno defnyddio'r iaith Gymraeg neu'r iaith Saesneg i wneud hynny â'i gilydd (gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau ar y rhyddid hwnnw).

Argymhellwn fod y Gweinidog yn cynnwys y pŵer i ddiwygio adran 61(k) o Ddeddf 2006 yn Erthygl 4 y Gorchymyn arfaethedig.

Rydym yn fodlon ar ddarpariaethau eraill y Gorchymyn arfaethedig.

Yn ddarostyngedig i'n hargymhellion, dylai'r Gorchymyn arfaethedig drosglwyddo cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad fel y gall fodloni'r amcan cymdeithasol a fyddai'n caniatáu i bobl Cymru fyw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Credwn mai'r ffordd orau o wneud hyn yw drwy ganolbwyntio ar gydweithredu a sicrhau consensws.

Credwn y dylai deddfwriaeth gryfach yn y maes hwn fod yn gam cadarnhaol yn hytrach nag yn gam cosbol, a luniwyd i greu newid mawr mewn agweddau at ddarparu gwasanaethau dwyieithog a disgwyliadau'r dinesydd o ran cael y gwasanaethau hynny. Ni ddylid ystyried deddfwriaeth ar y Gymraeg fel mater lleiafrifol; dylid ei ystyried fel rhan o'r polisiau ar newid cymdeithasol yr hoffem eu gweld yng Nghymru.

1. Cyflwyniad

1.1. Gosodwyd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Yr Iaith Gymraeg) 2009 ('y Gorchymyn arfaethedig'¹) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad gan Alun Ffred Jones AC, y Gweinidog dros Dreftadaeth ar 2 Chwefror 2009 yn unol â Rheol Sefydlog 22.13 (wedi'i gynnwys yn Atodiad 1). Nod y Gorchymyn arfaethedig yw rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad ym maes yr iaith Gymraeg.

1.2. Yn ei gyfarfod ar 3 Chwefror 2009 cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio'r Gorchymyn arfaethedig at Bwyllgor i'w drafod yn fanwl ac y byddai'n rhaid i'r Pwyllgor hwnnw gyflwyno adroddiad ar y Gorchymyn arfaethedig erbyn 15 Mai 2009 fan bellaf (newidiwyd y dyddiad hwn yn ddiweddarach i 5 Mehefin).

1.3. Yn dilyn penderfyniad yn y Cyfarfod Llawn ar 4 Chwefror, sefydlwyd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 ('y Pwyllgor') yn unol â Rheol Sefydlog 21.1. Rôl y Pwyllgor yw ystyried cynigion deddfwriaethol a gyfeirir ato gan y Pwyllgor Busnes. Bydd y Pwyllgor yn bodoli am weddill y Trydydd Cynulliad. Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Gorchymyn arfaethedig at y Pwyllgor i graffu arno.

Cylch gorchwyl

1.4. Cyfarfuom am y tro cyntaf ar 10 Chwefror 2009 pan gyfunwyd ar ein cylch gorchwyl:

(i) i ystyried egwyddor gyffredinol y Gorchymyn arfaethedig, ac a ddylai'r Cynulliad gael y pŵer i ddeddfu a gwneud Mesurau mewn perthynas â'r iaith Gymraeg yn y maes a nodwyd ym Materion 20.1 a 20.2, a

(ii) i ystyried telerau'r Gorchymyn arfaethedig, ac, yn benodol, a yw wedi'i ddiffinio'n rhy eang neu'n rhy gyfyng.

Tystiolaeth

1.5. Anfonwyd llythyr ymgynghorol gennym at y prif randdeiliaid ym maes yr iaith Gymraeg ac at eraill a allai fod â diddordeb yn y Gorchymyn arfaethedig. Ceir copi o'r llythyr ymgynghori yn Atodiad 2. Cyhoeddwyd galwad cyffredinol am dystiolaeth yn ogystal. Y dyddiad cau ar gyfer ymateb i'r ymgynghoriad oedd dydd Gwener 20 Mawrth 2009. Daeth sylwadau ysgrifenedig i law gan 70 o sefydliadau. Ceir rhestr o'r ymatebion gan sefydliadau yn Atodiad 3.

1.6. Gwahoddwyd grwpiau ac unigolion hefyd i fynegi eu safbwynt ar y Gorchymyn arfaethedig, a hynny drwy ymgyrch bosteri i annog pobl i anfon eu sylwadau (gweler hefyd Atodiad 2). Dosbarthwyd y poster i lyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol ledled Cymru, i geisio cyrraedd cynifer o bobl â phosibl. Symbylwyd nifer sylweddol o unigolion i ymateb. Mae'r nifer uchel o ymatebion yn adlewyrchu lefel y diddordeb ym mhwnc yr iaith Gymraeg

¹ Cyfeirir ato fel 'LCO' gan rai tystion

ymhlith aelodau'r cyhoedd. Ceir rhestr o'r ymatebion i'r ymgynghoriad gan unigolion hefyd yn Atodiad 3

1.7. Clywsom dystiolaeth ar lafar gan nifer o dystion, a cheir manylion y dystiolaeth honno yn Atodiad 4.

1.8. Cawsom ragor o dystiolaeth ysgrifenedig gan Gydffederasiwn Cludiant Teithwyr Cymru a chan y sector bancio. Ceir manylion y dystiolaeth ychwanegol a gyflwynwyd yn Atodiad 3. Mae hyn yn cynnwys unrhyw wybodaeth bellach y gofynnwyd amdani gan dystion yn dilyn y sesiynau tystiolaeth lafar. Ceir tystiolaeth ysgrifenedig atodol gan y Gweinidog dros Dreftadaeth, dyddiedig 14 Mai 2009 a 7 Mai 2009 yn Atodiad 5.

1.9. Ysgrifennodd y Cadeirydd hefyd at nifer o wledydd a rhanbarthau yn Ewrop a Chanada i ofyn am wybodaeth am y fframweithiau deddfwriaethol a sefydlwyd ar gyfer eu hieithoedd llai eu defnydd. Ceir rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig atodol a gafwyd gan ranbarthau Ewrop a Chanada hefyd yn y rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig yn Atodiad 3. At ddibenion cyfeirio, ceir crynodeb o'r fframweithiau deddfwriaethol ar gyfer ieithoedd llai eu defnydd yn y rhanbarthau a'r gwledydd eraill hyn yn Atodiad 6.

1.10. O dan Reol Sefydlog 22.21, wrth baratoi'r adroddiad rhaid i'r Pwyllgor ystyried, cyhyd ag y bo'n rhesymol ymarferol, unrhyw argymhellion a wneir ynglŷn â'r Gorchymyn arfaethedig gan:

- (i) unrhyw un arall o bwyllgorau'r Cynulliad; a
- (ii) unrhyw un o bwyllgorau Tŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi neu unrhyw gyd-bwyllgor i'r ddau Dŷ Seneddol.

1.11. Hyd yma, ni wnaed unrhyw argymhellion o'r fath mewn perthynas â'r Gorchymyn arfaethedig. Cynhaliwyd cyfarfod anffurfiol ac adeiladol rhyngom ac Aelodau'r Pwyllgor Materion Cymreig i gymharu'r dystiolaeth a chyfnewid safbwyntiau yn y Cynulliad yng Nghaerdydd ar 18 Mai 2009. Rydym yn ymwybodol y dylai'r Pwyllgor Materion Cymreig wneud ei argymhellion yn fuan ynglŷn â'r Gorchymyn arfaethedig

1.12. Mae Cadeirydd y Pwyllgor hefyd wedi cael copïau o'r holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan sefydliadau ac unigolion mewn ymateb i ymgynghoriad Swyddfa Cymru (14 Mai 2009).

1.13. Mae'r adroddiad a'r argymhellion sy'n dilyn yn cynrychioli'r casgliadau y daethpwyd iddynt, a seiliwyd ar y dystiolaeth a gawsom yng nghwrs ein gwaith.

2. Egwyddor gyffredinol y Gorchymyn arfaethedig

2.1. Mae'r ddarpariaeth statudol gyffredol ynglŷn â'r iaith Gymraeg i'w chael yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993 (Deddf 1993). Mae'r Gorchymyn arfaethedig yn rhoi cymhwysedd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru "ailarchwilio a diweddarau" y fframwaith deddfwriaethol presennol o dan Ddeddf 1993.²

2.2. Mae cwmpas y Gorchymyn arfaethedig yn ddigon eang i gynnwys pob mater yr ymdrinnir ag ef yn y Ddeddf honno ac eithrio adrannau 22 i 24 sy'n ymwneud â defnyddio'r Gymraeg mewn achosion cyfreithiol. Yn benodol, byddai'r Gorchymyn arfaethedig yn caniatáu i'r Cynulliad ddeddfu i ddiwygio'r darpariaethau yn y Ddeddf sy'n ymwneud â Bwrdd yr Iaith Gymraeg a chynlluniau iaith Gymraeg.

2.3. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y byddai Mater 20.1 yn adleisio ac yn adeiladu ar yr egwyddorion sydd wrth wraidd Deddf 1993, ac yn caniatáu i'r Cynulliad ddeddfu:

“hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg; a thrin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb... gan adleisio ystod y swyddogaethau sy'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.”³

2.4. Mae'r Gorchymyn arfaethedig yn gymwys i nifer o wahanol gategoriâu y byddid yn draddodiadol yn eu hystyried yn wasanaethau sector cyhoeddus – adrannau (a), (b), (c), a (d) o Fater 20.1, ac yn adeiladu ar y sylfeini a osodwyd gan Ddeddf 1993. Fodd bynnag, mae'r paragraffau (e) ac (h) yn benodol, yn ehangu'r posibilrwydd o wneud deddfwriaeth a fyddai'n cwmpasu ystod eang o sefydliadau yn y sectorau gwirfoddol a'r trydydd.

2.5. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan y byddai Mater 20.2 yn caniatáu i'r Cynulliad ddeddfu i ddiogelu rhyddid unigolion i siarad Cymraeg â'i gilydd.

Tystiolaeth gan ymgyngoreion

2.6. O'r 70 o sefydliadau a ymatebodd i'r ymgyngoriad, mae tua 50, naill ai mewn tystiolaeth ysgrifenedig neu dystiolaeth lafar, yn datgan eu cefnogaeth yn benodol i'r Gorchymyn arfaethedig i roi cymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â'r iaith Gymraeg.

2.7. Nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ei thystiolaeth ysgrifenedig:

“Mae'n anodd dod o hyd i enghraifft mwy addas o gais LCO ag iddo gyfiawnhâd llwyr dros gael penderfyniadau deddfwriaethu ar y pwnc yn

² Llywodraeth Cynulliad Cymru, Memorandwm gan Lywodraeth Cynulliad Cymru: Cynnig ar gyfer Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynglŷn â'r Gymraeg, GPO-1-EM, paragraff 16

³ GPO-10-EM, paragraffau 12 - 25

cael eu gwneud yng Nghymru. Mae'r LCO arfaethedig yn ymwneud yn llwyr â Chymru, ei phobl a'i diwylliant."⁴

2.8. Yn ychwanegol, cyflwynwyd ymatebion i'r ymgynghoriad o blaid y Gorchymyn arfaethedig gan 67 o ganghennau Merched y Wawr. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Pwyllgor Llywio Merched y Wawr:

"Teimlwn fod cyfle gennym i ddiogelu'r iaith Gymraeg trwy'r ddeddfwriaeth yma. Er mai un cam bach ydyw, y mae yn gam allweddol i'r dyfodol. Rhaid cynnig y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a mwynhau chymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg. Rhaid i'r iaith fod yn iaith fyw yn tyfu ac yn esblygu."⁵

2.9. Nododd dau ymatebydd⁶ nad oeddent yn cefnogi'r Gorchymyn arfaethedig, nododd Trenau Arriva nad oedd yn fodlon ei gefnogi oni cheir gwell eglurder ar oblygiadau hyn o ran ei ddyletswyddau⁷, ac roedd gweddill yr ymatebwyr naill ai ddim yn datgan barn eglur, neu'n gwrthwynebu mater penodol, neu'n dymuno gweld cwmpas y Gorchymyn arfaethedig yn cael ei gyfyngu (ymdrinnir â'r materion hyn mewn adrannau perthnasol isod).

2.10. O'r 283 o unigolion a ymatebodd i'r ymgynghoriad, cyflwynodd 16 ymatebydd ymateb negyddol mewn perthynas ag egwyddor y Gorchymyn arfaethedig, er enghraifft, nodwyd na ddylai'r Cynulliad gael cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn gan fod ganddo eisoes ddigon o bwerau, nad yw'r mater yn berthnasol i'r rhan fwyaf o bobl a bod materion pwysicach i'w trafod na deddfu ar y Gymraeg.

2.11. Roedd 240 o'r unigolion a ymatebodd i'r ymgynghoriad o blaid egwyddor y Gorchymyn arfaethedig. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys y 210 o ymatebwyr a gyflwynodd yr un neges drwy Gymdeithas yr Iaith Gymraeg, sef "credwn ei fod yn gyfrifoldeb moesol ar Lywodraeth y Cynulliad i ddeddfu dros y Gymraeg" a dylid "[t]ros glwyddo'r holl bwerau dros y Gymraeg, heb unrhyw gyfyngiadau, i'r Cynulliad Cenedlaethol yng Nghaerdydd."⁸ Caiff sylwadau unigolion i'r ymgynghoriad eu dadansoddi ymhellach yn ddiweddarach yn yr adroddiad (adran 9).

Tystiolaeth gan y Gweinidog

2.12. Eglurodd y Gweinidog yr hyn y byddai Llywodraeth Cymru yn gobeithio'i gyflawni pe rhoddid iddi'r pwerau i ddeddfu, o gymharu â'r hyn sy'n bosibl o dan Ddeddf 1993:

"I believe that a subsequent Measure would have important consequences and would certainly improve the level of services

⁴ Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, IG16(o)

⁵ Merched y Wawr - 67 cangen, tystiolaeth ysgrifenedig, IG69(o)

⁶ Cyngor Cymunedol Bagillt, tystiolaeth ysgrifenedig, IG20(o); Cyngor Tref Llansawel, tystiolaeth ysgrifenedig, IG19(o)

⁷ Trenau Arriva Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, IG24(o)

⁸ Neges yn galw i ehangu'r Gorchymyn arfaethedig – 210 o lofnodion, tystiolaeth ysgrifenedig, IG29(i)

provided through the medium of Welsh. No doubt I will be repeating this throughout the morning, but there are three promises in 'One Wales' regarding equality of status, improved services for Welsh speakers and establishing a commissioner for the Welsh language. Those would certainly have an impact on the level of services and, it is to be hoped, on attitudes towards the Welsh language."⁹

2.13. Cyfeiriodd y Gweinidog at arolwg barn diweddar a oedd yn dynodi bod cefnogaeth i'r egwyddor:

"In addition, a recent poll for the BBC suggested that up to 60 per cent of those who had a view thought that there should be legislation to promote the Welsh language. Several other surveys have been done that suggest that people in general believe that these services should be available bilingually. Given all the research undertaken by the Welsh Language Board as well, I think that this proposed Order goes with the grain of society in Wales."¹⁰

2.14. Eglurodd y Gweinidog¹¹ fod y rhan fwyaf o'r categorïau o bersonau a bennir ym Mater 20.1 y caiff y Cynulliad ddeddfu i osod dyletswyddau arnynt, yn cynnwys prawf mewn dau gam, a hynny i benderfynu a ydynt yn dod o fewn cwmplas y Gorchymyn arfaethedig ai peidio, sef:

- yn gyntaf, a yw'r person yn "darparu gwasanaethau i'r cyhoedd" ai peidio;
- yn ail, a yw'n dod o fewn un o'r categorïau o bersonau a ddiffinnir ai peidio.

2.15. Eglurodd y Gweinidog fod y dull hwn yn debyg i'r dull a bennir yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993. Y nod yw datblygu'r dull hwnnw, ehangu ei gwmpas, wrth gadw o fewn ysbryd Deddf 1993:

"The proposed Order attempts to identify categories of bodies. Not all the bodies that come under those categories will fall within the scope of any subsequent Measures, but the proposed Order would allow us to categorise certain areas in which we may wish to legislate. It is a form of future proofing. If you produce a list of bodies and organisations, changes will happen, and some areas will be privatised, as has happened since 1993, and that may mean that some of those listed will fall out of the scope of the legislation. The purpose of this approach is to future-proof this area to deal with whatever happens to public services, be they privatised or not, and to cover any new bodies that are formed in certain public service areas."¹²

2.16. Y prif bwynt a oedd yn peri ymrafael wrth gasglu tystiolaeth oedd cwmplas y Gorchymyn arfaethedig, ac roedd y safbwyntiau a gyflwynwyd i'r

⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 11, 24 Chwefror 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

¹⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 15, 28 Ebrill 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

¹¹ Llythyr gan y Gweinidog dros Dreftadaeth, 3 Mawrth (gweler Atodiad 5); Cofnod y Trafodion, paragraff 135, 28 Ebrill 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

¹² Cofnod y Trafodion, paragraff 27, 24 Chwefror 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

Pwyllgor ynglŷn â hynny yn eithaf ymrannol. Roedd llawer o'r dystiolaeth a gafwyd gan sefydliadau o'r sector preifat a'r trydydd sector, yn codi pryderon ynghylch dyletswyddau posibl a gyflwynid mewn Mesurau dilynol, ac yn amau doethineb cynnig deddfwriaeth o'r fath. Ar y llaw arall, cafwyd nifer cyffelyb o gyflwyniadau gan sefydliadau eraill a oedd yn galw am ehangu cwmpas y Gorchymyn arfaethedig.

Ein barn ni

2.17. Cytunwn, mewn egwyddor, y dylid rhoi cymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â'r iaith Gymraeg i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

2.18. Cytunwn â'r unigolion a'r sefydliadau niferus sy'n cefnogi trosglwyddo cymhwysedd deddfwriaethol, bod yr iaith Gymraeg yn fater sydd â chysylltiad unigryw â'r genedl Gymreig, ac felly bod gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru hawl foesol i ddeddfu yn y maes hwn. O'r holl faterion y gellir eu datganoli i'r Cynulliad o dan Ddeddf 2006, mae'r iaith Gymraeg yn fater sy'n arbennig o benodol i Gymru. Felly, credwn fod modd cyfiawnhau trosglwyddo cwmpas eang o bŵer deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar yr achlysur hwn.

2.19. Yn unol â'r egwyddorion o lywodraethu da ac atebolrwydd democrataidd, y Cynulliad, fel y corff agosaf at y dinasyddion yr effeithid arnynt, sydd yn y sefyllfa orau i ddeddfu ar ddiogelu datblygiad yr iaith Gymraeg yn y dyfodol.

2.20. Ar ôl ystyried yn ofalus yr holl dystiolaeth a glywyd ac a gafwyd, credwn fod dadleuon cryf o blaid trosglwyddo'r cyfan o Fater 20.1, heb eithrio dim un o'r meysydd. Bydd hyn yn sicrhau bod y cymhwysedd deddfwriaethol yn ddigon eang i ateb gofynion y Cynulliad yn y dyfodol. Yr unig faes y dylid ei eithrio yw hwnnw mewn perthynas â defnyddio'r iaith Gymraeg mewn llysoedd, sydd wedi ei eithrio o Atodlen 7 i Ddeddf 2006.

2.21. Ni allwn weld unrhyw ddadl o blaid cyfyngu ar gwmpas cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad mewn perthynas â Mater 20.1 yn y ffordd a gynigir gan y Gweinidog.

2.22. Ar hyn o bryd, ni chredwn y byddai'n fuddiol categoreiddio rhestr o gyrff arfaethedig y caiff dyletswyddau eu gosod arnynt neu na chaiff dyletswyddau eu gosod arnynt i ddarparu rhyw fath o wasanaeth iaith Gymraeg mewn unrhyw Fesur yn y dyfodol.

2.23. Fodd bynnag, cytunwn y bydd angen i unrhyw Fesur dilynol nodi'n eglur ar ba gyrff y dylid gosod dyletswyddau. Byddant yn destun craffu trylwyr ar yr adeg honno. Wrth benderfynu ar bwy y gosodir dyletswyddau, dylai'r Mesurau bennu'r categorïau o bersonau yr effeithir arnynt drwy gyfeirio at natur y gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd, maint y sefydliad dan sylw a'i statws cyfreithiol.

2.24. Felly, argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru nodi'r canlynol yn lle Mater 20.1:

Hybu neu hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg; a thrin yr iaith Gymraeg a'i iaith Saesneg ar sail cydraddoldeb.

Nid yw'r mater hwn yn cynnwys y defnydd o'r iaith Gymraeg mewn llysoedd.

2.25. Hwn yw prif argymhelliad y Pwyllgor mewn perthynas â'r Gorchymyn arfaethedig.

2.26. Rydym yn cydnabod y posibilrwydd na fydd Llywodraeth Cymru â'i bryd ar ddilyn yr argymhelliad hwn, er gwaethaf y consensws trawsbleidiol y Pwyllgor.

2.27. Felly, rydym wedi ystyried y darpariaethau o fewn y Gorchymyn arfaethedig fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd, gyda golwg ar gryfhau eu heglurder, yng ngoleuni'r dystiolaeth a gafwyd, er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag amcanion Llywodraeth Cymru, fel y'u cefnogir gan y Pwyllgor.

3 Cwmpas Mater 20.1

A yw Mater 20.1 yn rhy eang neu'n rhy gyfyng?

3.1. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Gorchymyn arfaethedig yn nodi'r canlynol:

“Byddai'r cymhwysedd a geisir o dan yr GCD arfaethedig, er enghraifft, yn caniatáu i'r Cynulliad ddeddfu i sicrhau mwy o eglurder i ddinasyddion o ran y categorïau o gyrrff y gellir ei gwneud yn ofynnol iddynt lunio cynllun iaith Gymraeg...

Mae'r angen am fwy o eglurder wedi codi'n rhannol oherwydd newidiadau i strwythur rhai gwasanaethau cyhoeddus allweddol ac yn sgil y ffaith bod mecanweithiau newydd ar gyfer cyflwyno gwasanaethau wedi dod i'r amlwg gyda'r canlyniad bod wyneb cyhoeddus rhai sectorau a gwasanaethau allweddol penodol yn syrthio y tu allan i gwmpas Deddf 1993. Mae gan Weinidogion Cymru bŵer i bennu rhai cyrff o'r tu mewn i'r sectorau hyn o dan Ddeddf 1993, ond nid pob un o'r cyrff hynny. Mae hyn yn creu'r posibilrwydd y bydd amodau anghyson yn y sectorau hyn a diffyg eglurder i'r defnyddiwr am y gwasanaethau y gall eu disgwyl.”¹³

Tystiolaeth gan y sector busnes a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

3.2. Yn gyffredinol roedd y rhan fwyaf o gynrychiolwyr y sector busnes o blaid yr egwyddor o drosglwyddo cymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â'r iaith Gymraeg i'r Cynulliad, ond nid oeddent o blaid cynnwys busnesau o fewn cwmpas y Gorchymyn arfaethedig.

3.3. Dywedodd y Ffederasiwn Busnesau Bach yn ei dystiolaeth ysgrifenedig fod tystiolaeth ganddo i ddangos y byddai unrhyw ddyletswyddau deddfwriaethol yn “niweidiol i'r iaith ei hun, ynghyd â chael effaith ar fusnesau bach a chanolig (BbaCh) a allai fod yn negyddol.”¹⁴ Dyma oedd farn y Siambrau Masnach hefyd.¹⁵

3.4. Fodd bynnag, rhoddodd y gweinidog sicrwydd i'r Ffederasiwn Busnesau Bach “na fydd BbaCh yn cael eu gorfodi trwy ddeddfwriaeth i weithredu'n ddwyieithog”.¹⁶

3.5. Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, nododd:

“We have had discussions with the Welsh Language Board, and we have been reassured that the vast majority of businesses in Wales will not be affected by this. The breakdown of businesses named in the proposed LCO—telecommunications, postal services, and so on—are not necessarily the type of businesses that would be members of the FSB. Very few SMEs will be affected. However, there is the potential for

¹³ GPO-10-EM, paragraffau 17 a 18

¹⁴ Ffederasiwn Busnesau Bach, tystiolaeth ysgrifenedig, IG6(o), paragraff 3

¹⁵ Cofnod y Trafodion, paragraffau 27-29, 10 Mawrth 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

¹⁶ Ibid, paragraff 14

one or two to be caught further down the line, such as the postal services, utilities, smaller green energy ventures, such as anaerobic digesters, and so on. However, on the whole, we are confident that they will not be affected.”¹⁷

3.6. Mae'r cwmnïau mawr sy'n dod o fewn cwmpas y Gorchymyn arfaethedig, fel y'u cynrychiolir gan Gydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI), Siambrau Masnach ac eraill a ymatebodd, yn dymuno cael eu heithrio o'r Gorchymyn arfaethedig. Dywedodd Sefydliad y Cyfarwyddwyr:

“..the assertion that there are material public services outside the scope of 1993 Act is not evidenced, and the need for action not justified.”¹⁸

3.7. Mae'r sector busnes yn defnyddio dadleuon ynglŷn â chost a galw i gefnogi eu safbwynt y dylai cwmnïau gael eu heithrio o gwmpas y Gorchymyn arfaethedig. Nododd Siambr Fasnach De Cymru, Gorllewin Cymru a Gogledd Cymru¹⁹ mai'r costau cysylltiedig posibl yn sgil cydymffurfio a'r effaith bosibl ar eu proffidioldeb oedd prif bryder eu haelodau.

3.8. Mae Sefydliad y Cyfarwyddwyr yn cydnabod na fydd y Gorchymyn arfaethedig yn effeithio'n uniongyrchol ar fusnesau. Fodd bynnag, mae bwriad y polisi yn debygol o arwain at y canlyniadau andwyol a ganlyn:

- Increasing the regulatory burden on businesses within the (wide range of) defined areas;
- In consequence impacting adversely on costs and competitiveness;
- Acting as a disincentive to businesses considering Wales as a location for both new facilities and in restructuring existing multi-site activity. The simple publication of the draft Order, with the corresponding uncertainty, will itself have such a disadvantage.”²⁰

3.9. Mae'r CBI hefyd yn cyfeirio at yr ansicrwydd a grëwyd yn ystod y cyfnod hwn o'r broses deddfu o ran goblygiadau'r Gorchymyn arfaethedig i gwmnïau yn ystod y cyfnod Mesur o ran cost. Dywedodd y byddai'n arwain at gyfnod hirfaith o ansicrwydd sy'n bell o fod yn ddelfrydol.²¹

3.10. Mae'r sefydliadau hyn²² yn ffafrio dull gwirfoddol o ddatblygu gwasanaethau Cymraeg yn hytrach na chyflwyno deddfwriaeth, gan ddadlau y byddai'n newid o roi mantais gystadleuol i gwmnïau i fod yn fater o gydymffurfio, a dadleuir y gallai hyn arwain at golli ewyllys da cwmnïau. Un o'r cwmnïau hyn yw Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC). Cafwyd tystiolaeth gan y cwmni hwn a sawl un arall yn nodi eu bod eisoes yn darparu gwasanaethau Cymraeg ar sail wirfoddol i'w cwsmeriaid.

¹⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 31, 10 Mawrth 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

¹⁸ Sefydliad y Cyfarwyddwyr, tystiolaeth ysgrifenedig, IG25(o), tudalen 4

¹⁹ Siambr Fasnach Gogledd Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, IG22(o); Siambr Fasnach Gorllewin Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, IG7(o); Siambr Fasnach De Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, IG12(o)

²⁰ Sefydliad y Cyfarwyddwyr, tystiolaeth ysgrifenedig, IG25(o), tudalen 2

²¹ Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, tystiolaeth ysgrifenedig, IG10(o), paragraff 13

²² Nwy Prydain, BT, Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, Ffederasiwn Busnesau Bach, Mobile Broadband Group, y Post Brenhinol, RWE Npower, UK Competitive Telecommunications Association, Virgin Media, y Siambrau Masnach

3.11. Darparwyd rhestr gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o'r cwmnïau a'r sefydliadau sydd naill ai wedi mabwysiadu Cynlluniau Iaith Gymraeg neu sydd ar ganol paratoi cynllun o'r fath. O'r tu allan i'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector, Scottish Power, y Post Brenhinol, First Cymru a'r cwmnïau dŵr yn unig a restrir. Mae Trenau Arriva ar ganol paratoi cynllun. Mae gan fwy na 75 o gwmnïau preifat bolisïau Cymraeg ar waith, yn cynnwys Nwy Prydain a Swalec.²³

3.12. Nododd British Telecom ddau reswm pam y maent yn darparu gwasanaeth dwyieithog yn wirfoddol: yn gyntaf, oherwydd ceisiadau gan gwsmeriaid (ond ddim digon, hwyrach) ac yn ail:

“Yr ail reswm yw bod BT yn cymryd ei gyfrifoldeb cymdeithasol o ddifrif. Yr ydym yn gweld pwysigrwydd yr iaith Gymraeg i fywyd, cymunedau, busnesau a phobl Cymru, ac yr ydym am weld yr iaith Gymraeg yn ffynnu. Oherwydd hynny hefyd, byddem yn dymuno gweld y cwmni yn cefnogi'r iaith Gymraeg fel yr ydym yn cefnogi pobl gydag anabledd a phob math o weithgareddau i bobl o dan anfantais yn y gymuned. Yr ydym yn meddwl bod yr iaith Gymraeg yn bwysig.”²⁴

3.13. Mewn gwrthgyferbyniad â hyn gellir nodi agwedd Aelodau'r Mobile Broadband Group sy'n canolbwyntio ar ddarparu rhwydwaith cenedlaethol, cyson, di-dor i bob cwsmer yn y Deyrnas Unedig, ac felly nid oes cydran iaith Gymraeg yn y ddau wasanaeth di-dor hynny.²⁵

3.14. Dywedodd y CBI fod agwedd busnesau at yr iaith Gymraeg yn llawer mwy cadarnhaol heddiw nag oedd yn y gorffennol²⁶:

“We believe that the evidence is clear that the extent of Welsh-language service provision is increasing. To that extent, we believe that it is working. We also believe that it is present in far more sectors than the proposed LCO would cover. So, to that extent, we believe that it is likely to work in a different and better way than it would through legislation under the proposed LCO. If by ‘working’ you mean every company providing Welsh-language services, then we are nowhere near that yet.”²⁷

3.15. Cyflwynwyd tystiolaeth gan y CBI a nifer o fusnesau unigol eraill²⁸ ynghylch lefel isel y galw am wasanaethau iaith Gymraeg. Defnyddiant y dystiolaeth hon i ddadlau nad oes achos busnes dros gyflwyno deddfwriaeth. Mae'r CBI ac eraill yn dadlau y dylid canolbwyntio adnoddau ar annog y galw yn hytrach nag ar reoleiddio'r ddarpariaeth o wasanaethau.

²³ Bwrdd yr Iaith Gymraeg, tystiolaeth ychwanegol, IG1(a) (Atodiad 1)

²⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 18, 31 Mawrth 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

²⁵ Ibid, paragraff 23

²⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 16, 10 Mawrth 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

²⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 149, 10 Mawrth 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

²⁸ Mobile Broadband Group, tystiolaeth ysgrifenedig, IG10(a); RWE npower, tystiolaeth ysgrifenedig, IG68(o); E.ON, tystiolaeth ysgrifenedig, IG57(o); Post Brenhinol, tystiolaeth ysgrifenedig, IG28(o); Gwasanaeth Ymholiadau Trenau Cenedlaethol, tystiolaeth ysgrifenedig, IG23(o), Lloyds Bank TSB, tystiolaeth ysgrifenedig, IG15(a); Cyngor Cymunedol Llantrisant Fawr, tystiolaeth ysgrifenedig, IG21(o)

3.16. Mae'r CBI o'r farn y bydd y Gorchymyn arfaethedig yn fethiant os daw'r iaith Gymraeg yn fater o gydymffurfio.²⁹ Nododd hefyd:

"I think that as soon as you have legislation in place it becomes an issue of compliance—businesses have to comply with the law. It tends to get handed over to lawyers and compliance officers and the cost tends to be managed and minimised. Requiring companies to do something for which they see no demand among their customer base and which they do not believe will add to their customer experience or to their business is unlikely to encourage goodwill or to encourage companies to go further than the minimum. We strongly believe that what we are facing here is a demand-side problem, not a supply-side problem."³⁰

3.17. Nodir hefyd yng nghyflwyniad ysgrifenedig y CBI:

"The key barrier to the voluntary extension of Welsh services in the private sector is the low level of usage. We would much prefer the Welsh Assembly Government to use its significant resources to create the business case for using Welsh... If this were to be done effectively [it would lead to] the extension of current provision by a greater number of companies than currently targeted by this LCO."³¹

3.18. Gwnaed sylw gan y Sefydliad Siartredig Marchnata i'r perwyl bod Marchnata Cymdeithasol yn eithriadol o bwysig, ac yr oedd y Sefydliad yn argymhell mai buddsoddi yn hynny y dylid ei wneud fel cam cyntaf tuag at newid arferion ymddygiad, yn hytrach na dilyn y llwybr deddfwriaethol ar unwaith. Fodd bynnag, dywedodd hefyd na all rhai materion aros hyd nes bo ymgyrchoedd marchnata cymdeithasol yn dwyn ffrwyth, ac weithiau mae'n rhaid deddfu (e.e. gwahaniaethu ar sail anabled, cyfle cyfartal, etc.).³²

3.19. Dywedodd Gwasanaeth Ymholiadau Trenau Cenedlaethol³³ mai ychydig iawn o ddefnydd a wneir o'i wasanaeth ffôn Cymraeg (6,000 o alwadau o gymharu â 15 miliwn i'r llinell gymorth Saesneg). Roedd y Gwasanaeth wedi cael ceisiadau i sefydlu gwasanaeth Cymraeg ar y we, ond oherwydd y gost a phrinder y defnydd o'r ganolfan alwadau, nid oedd yn bwriadu gwneud hynny.³⁴

3.20. Roedd Grŵp y Post Brenhinol yn dymuno gweld rhagor o gwsmeriaid yn defnyddio'r ddarpariaeth iaith Gymraeg sydd ar gael ar hyn o bryd, gan fod y defnydd ohoni yn "siomedig o isel". Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad dywedodd:

"Ei bod yn haws sicrhau bod ein hunedau busnes yn cydymffurfio â'r cynllun os yw'n ymddangos iddynt hwy fel rhywbeth rydym ni eisiau ei wneud yn hytrach na rhywbeth rydym yn cael ein gorfodi i'w wneud."³⁵

²⁹ Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, tystiolaeth ysgrifenedig, IG10(o), paragraff 43

³⁰ Cofnod y Trafodion, Paragraff 151, 10 Mawrth 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

³¹ Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, tystiolaeth ysgrifenedig, IG10(o), paragraff 9

³² Sefydliad siartredig Marchnata, tystiolaeth ysgrifenedig, IG35(o)

³³ Cofnod y Trafodion, paragraff 179, 17 Mawrth 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

³⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 179, 17 Mawrth 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

³⁵ Grŵp y Post Brenhinol, tystiolaeth ysgrifenedig, IG28(o)

3.21. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ynghylch y lefelau gwrthgyferbyniol o wasanaethau a ddarperir gan RWE npower a Scottish Power yn drawiadol. Mae Scottish Power yn derbyn bron 20,000 o alwadau yn flynyddol i'w linell ffôn Gymraeg, ac yn dweud:

“We believe that this is a key function within our operation providing an invaluable service to our customers in Wales.”³⁶

Ar y llaw arall, nododd RWE npower na wnaed unrhyw gais i ddefnyddio ei wasanaeth cyfieithu ar y pryd Cymraeg yn ystod y flwyddyn flaenorol.³⁷

3.22. Yn achos biliau, eglurodd RWE npower y rhoddir gwybod i gwsmeriaid, ar gefn eu biliau, y cânt ofyn am y bil mewn iaith arall, ond heb enwi'r Gymraeg yn benodol. Hyd hynny, nid oedd y cwmni wedi cael unrhyw gais am fil Cymraeg.

3.23. Ar y llaw arall, mae Scottish Power, sy'n gofyn i'w cwsmeriaid yn syth a ydynt am gael bil dwyieithog, bil Saesneg neu fil Cymraeg, yn nodi'r canlynol fel un o'i brif ffeithiau yn ei dystiolaeth ychwanegol:

“Bills issued biligually in all relevant post code areas, with 140,000 customers (74%) expressing a preference to be billed in Welsh.”

Anfonir y cyfan o'u llenyddiaeth farchnata allan yn ddwyieithog, ac maent yn cyflogi swyddogion allan yn y maes sy'n siarad Cymraeg. Er bod llawer o gwsmeriaid yn dewis eu cyflenwr ar sail cost, mae'r cwmni yn credu bod darparu gwasanaeth Cymraeg yn ei helpu i gadw cwsmeriaid yng Nghymru.³⁸

3.24. Teg yw rhagdybio na ellir priodoli'r gwahaniaeth sylweddol yn y defnydd a wneir o'r ddau wasanaeth hyd yn oed i'r ffaith bod cwsmeriaid Scottish Power yn byw mewn rhan o'r wlad lle y siaredir mwy o Gymraeg. Roedd RWE npower yn cytuno hwyrach bod angen ymchwilio ymhellach i'r modd y mae'n hyrwyddo ei wasanaeth Cymraeg.³⁹

3.25. Wrth ddadlau yn erbyn deddfu, dywedodd British Telecom nad oedd y dull gwirfoddol wedi methu, ond ei fod wedi dangos “nad oes niferoedd digonol o Gymry Cymraeg yn dewis defnyddio'r gwasanaethau sydd ar gael”. Pan ofynnwyd i BT sut y tybiai y gallai'r cod gwirfoddol lwyddo heb ddeddfu hefyd, atebodd:

“Fy mhroblem i yw na welaf sut y bydd deddfwriaeth yn helpu ychwaith. Nid oes esboniad na diffiniad o'r gwasanaethau y disgwylir iddynt gael eu darparu, ac i ba safon. Nid yw'n glir o gwbl. Nid oes gennyf unrhyw syniad beth fyddai angen inni ei wneud o dan unrhyw Fesur.”⁴⁰

³⁶ Scottish Power, tystiolaeth ychwanegol, IG12(a)

³⁷ RWE Npower, tystiolaeth ysgrifenedig, IG68(o)

³⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 206, 31 Mawrth 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5; Scottish Power, tystiolaeth ysgrifenedig, IG12(a)

³⁹ Cofnod y Trafodion, paragraffau 249, 269, 31 Mawrth 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

⁴⁰ Ibid, paragraff 56

3.26. Ar wahân i'r ddau eithriad nodedig, sef yr ymgyrch Ymwybyddiaeth Gwasanaeth Cymraeg gwerth £85,000 gan BT⁴¹ a dull gweithredu teg Scottish Power, ni chyflwynwyd llawer o dystiolaeth i ddangos bod cwmnïau wedi ymdrechu rhyw lawer i farchnata eu gwasanaethau Cymraeg, nac i gynnal arolygon o'u cwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg er mwyn gweld pa wasanaethau yr hoffent eu cael yn Gymraeg, gwybod eu barn am ansawdd neu hygyrchedd y gwasanaethau sydd ar gael, neu wybod pam y mae'r defnydd yn is na'r disgwyl. Mae'r Mobile Broadband Group yn seilio'i ragdybiaeth ar y canfyddiad mai eithafol o fach yw'r galw am wasanaeth o'r fath ac ar brofiad sefydliadau eraill.⁴²

3.27. Roedd y Sefydliad Siartredig Marchnata yn argymhell yn gryf y dylid cynnal astudiaethau pellach i ganfod a yw'n parhau'n fater o brinder cyflenwad ynteu brinder galw. Dyfynnodd eiriau Nelson Mandela hefyd:

“If you talk to a man in a language he understands, that goes to his head. If you talk to him in his language, that goes to his heart.”⁴³

3.28. Mae cynrychiolwyr y sector busnes yn awgrymu y gallai deddfwriaeth iaith Gymraeg atal busnesau rhag buddsoddi yng Nghymru, a rhag darparu gwasanaethau i gwsmeriaid yng Nghymru, ee cyflenwyr ynni arbenigol, neu gwmnïau sydd â niferoedd llai o gwsmeriaid.⁴⁴ Fodd bynnag, pan holwyd y CBI ynglŷn â hyn, dywedodd:

“There is no evidence of companies saying that they will retreat. Companies ask many questions about what they will be asked to do, so that they can make their cost calculations. As I said, it is probably more about the new companies entering the markets. As they create their new business models, they could be put off by the disproportionate costs involved in serving a small customer base.”⁴⁵

3.29. Pe bai cwmnïau'n cael eu hatal felly, pryder y sector busnes yw y gallai effaith ganlyniadol hynny amharu ar y dewis i gwsmeriaid yn ogystal â phrisio cystadleuol.⁴⁶ Cyflwynwyd tystiolaeth i'r Pwyllgor gan, er enghraifft, y Mobile Broadband Group, ynglŷn â'r costau ychwanegol arfaethedig pe bai dyletswyddau'n cael eu gosod ar y cwmni, a'r tebygolrwydd y byddai llai o setiau llaw ar gael ar y farchnad yng Nghymru o ganlyniad i hynny. Hefyd, byddai'r costau cydymffurfio, y tybid y byddent syrthio ar fanwerthwyr bach, yn gorfodi llawer ohonynt i dynnu'n ôl o'r farchnad yng Nghymru.⁴⁷

⁴¹ Ibid, paragraff 27; BT Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, IG55(o)

⁴² Mobile Broadband Group, tystiolaeth ychwanegol, IG11(a)

⁴³ Y Sefydliad Siartredig dros Farchnata, tystiolaeth ysgrifenedig, IG35(o)

⁴⁴ Sefydliad y Cyfarwyddwyr, tystiolaeth ysgrifenedig, IG25(o); Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, tystiolaeth ysgrifenedig, IG10(o); Siambr Fasnach De Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, IG12(o); RWE npower, tystiolaeth ysgrifenedig, IG68(o)

⁴⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 201, 10 Mawrth 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

⁴⁶ Sefydliad y Cyfarwyddwyr, tystiolaeth ysgrifenedig, IG25(o); Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, tystiolaeth ysgrifenedig, IG10(o); Nwy Prydain, tystiolaeth ysgrifenedig, IG41(o); Virgin Media, tystiolaeth ysgrifenedig, IG50(o); Mobile Broadband Group, tystiolaeth ysgrifenedig, IG48(o)

⁴⁷ Mobile Broadband Group, tystiolaeth ysgrifenedig, IG48(o)

3.30. Fodd bynnag, pan holwyd y Mobile Broadband Group ymhellach ynghylch hyn yn ystod y sesiwn tystiolaeth lafar, roedd yn cydnabod nad oedd ganddo dystiolaeth bod hyn wedi digwydd mewn gwledydd amlieithog eraill, fel Sbaen, ac mai honiadau oedd y rhain a wnaed ar ran y Mobile Broadband Group i'w hystyried gan y Pwyllgor.⁴⁸

3.31. Roedd cynrychiolwyr busnes hefyd yn amau a fyddai ganddynt ddigon o staff â sgiliau iaith Gymraeg i ddatblygu unrhyw ddyletswyddau posibl.⁴⁹ Mae'r Athro Colin H. Williams yntau yn cydnabod dilysrwydd y ddatl hon:

“...the existing capacity of personnel able to handle the broader expectations and statutory rights of citizens, consumers and plaintiffs will be stretched. This is a serious consideration and demanding of government attention in planning for, and resourcing, Welsh medium training and professional development in a number of spheres. There is a real danger that without such investment and purposive planning, the foundation on which the promise of constructing a bilingual society in Wales will flatter only to deceive.”⁵⁰

3.32. Codwyd pwynt cyffelyb gan British Telecom:

“[Byddai'n] well gennyf weld gwasanaethau'n cael eu darparu'n wirfoddol am y rheswm syml bod sialens i ymateb i angen gwirioneddol yn y farchnad ... Perygl deddfwriaeth yw ei bod yn strategaeth ffug. Nid oes bendith gynhenid mewn darn o ddeddfwriaeth. Daw'r fendith o'r hyn sy'n digwydd ymysg pobl yn y gymuned.”⁵¹

3.33. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi fod y sefyllfa gyfredol wedi arwain at y posibilrwydd o gael amodau anghyfartal.⁵² Mae'r CBI a British Telecom yn cytuno ei bod yn bwysig bod unrhyw ddeddfwriaeth yn trin pob cwmni yn gyfartal. Fodd bynnag, maent hwy (ac eraill) wedi tynnu sylw at yr heriau a wynebwr wrth geisio sicrhau cydymffurfiaeth gan bawb yn ddiwahân. Er gwaethaf popeth, gall yr ymgais roi rhai cwmnïau dan anfantais o gymharu ag eraill o safbwynt cystadlu.

3.34. Er enghraifft, pe bai Cynlluniau Iaith Gymraeg neu ddyletswyddau yn amrywio yn ôl sefyllfa'r iaith mewn gwahanol rannau o Gymru, mae'n bosibl y gallai hynny arwain hefyd at amodau anghyfartal. Mae Nwy Prydain yn ei chael yn anodd dychmygu deddfwriaeth a fyddai'n darparu amodau teg i bawb mewn sector lle mae amrediad mor eang o sefydliadau yn darparu gwasanaethau.

3.35. Achosir rhywfaint o densiwn pan ddadleuir, ar y naill law, mai'r dull gorau yw'r dull gwirfoddol, sy'n arwain at amrywiadau sylweddol o ran safon y gwasanaethau a ddarperir, ac ar y llaw arall, pan sonnir am osod

⁴⁸ Cofnod y Trafodion, paragraffau 99 -125, 31 Mawrth 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

⁴⁹ Siambwr Fasnach De Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, IG12(o); Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, tystiolaeth ysgrifenedig, IG10(o)

⁵⁰ Yr Athro Colin H. Williams, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, tystiolaeth ysgrifenedig, IG8(a)

⁵¹ Cofnod y Trafodion, Paragraff 41, 31 Mawrth 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

⁵² GPO-10-EM, paragraff 18

dyletswyddau drwy ddeddfu, a fyddai'n gosod yr un meincnod ar gyfer pob cwmni yn y sector. Codwyd y pwynt hwn gan BT:

“Os bydd y ddeddfwriaeth yn mynd yn ei blaen ac yn cynnwys y sector fel y'i diffinnir, dadleuwn fod yn rhaid gosod yr un meincnod i bob cwmni yn y sector... Nid wyf yn gweld ei bod yn dderbyniol ein bod yn darparu lefel uwch o wasanaeth Cymraeg na chwmnïau eraill.”⁵³

3.36. Yn y cyflwyniad gan Gydffederasiwn Diwydiant Prydain, nodwyd:

“The Welsh Assembly Government has suggested that the implementation of such services on the companies affected could be different in and between sectors and vary in different parts of Wales. This would enable companies to proportionately provide levels of Welsh language public services, according to their locality. We believe such an approach can work under a voluntary system. However, it is not feasible to propose different statutory duties on companies competing to provide the same services. Under a statutory scheme, competition law would not allow such a bespoke approach. A statutory code must provide a level playing field between companies within affected sectors.”⁵⁴

3.37. Mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach yn credu bod angen sicrhau gwell deialog ar y defnydd o'r Gymraeg mewn busnesau a galwodd am gynnal ymchwil i'r budd economaidd a ddeuai o ddefnyddio'r Gymraeg, i gefnogi'r achos dros ddeddfu a pham y byddai'n hynny'n creu sefyllfa fuddiol i bawb.⁵⁵

3.38. Tynnodd y Ffederasiwn Busnesau Bach sylw'r Pwyllgor at y grantiau a ddarparwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg i gynorthwyo busnesau bach i gynhyrchu deunyddiau ac arwyddion dwyieithog. Er y bu galw mawr amdanynt, daeth y grantiau i ben ar ddiwedd mis Mawrth 2009.⁵⁶ Tybiai y byddai cyfeirio rhagor o adnoddau i'r math hwnnw o weithredu yn fwy effeithiol na deddfu ac y dylai cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg fod yn rhan allweddol o'r cyngor a roddir i fusnesau.⁵⁷

Yr effaith ar y trydydd sector

3.39. Yn yr un modd â chynrychiolwyr y sector busnes, mae CGGC yn dadlau y byddai cryfhau'r dull gwirfoddol yn llawer mwy adeiladol oherwydd ei fod yn fater calonnau a meddyliau, yn enwedig gan fod nifer sylweddol o sefydliadau wedi mabwysiadu cynlluniau iaith Gymraeg yn gwbl wirfoddol.⁵⁸

3.40. Pwysleisiodd CGGC hefyd fod y beichiau ariannol posibl a allai ddeillio o'r ddeddfwriaeth heb unrhyw gynnydd mewn adnoddau hefyd yn peri pryder i'w aelodau.⁵⁹ Mae CGGC o'r farn mai ei aelod-sefydliadau sydd yn y sefyllfa

⁵³ Ibid, paragraff 39

⁵⁴ Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, tystiolaeth ysgrifenedig, IG10(o)

⁵⁵ Ffederasiwn Busnesau Bach, tystiolaeth ysgrifenedig, IG6(o)

⁵⁶ Ibid

⁵⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 118, 10 Mawrth 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

⁵⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 51, 24 Mawrth 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

⁵⁹ Ibid, paragraff 26; hefyd - National Childminding Association, tystiolaeth ysgrifenedig, IG38(o); Breast Cancer Care Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, IG30(o); Powys Association of Voluntary Organisations, tystiolaeth ysgrifenedig, IG43(o)

orau i benderfynu sut i flaenoriaethu eu hadnoddau prin, yn unol ag anghenion eu cleientiaid.⁶⁰

3.41. Mewn perthynas â pharagraff (e) o Fater 20.1 (“personau sy’n darparu gwasanaethau i’r cyhoedd sy’n derbyn cyfanswm of £200,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol”), awgrymodd CGGC fod y trothwy yn ffigur eithaf isel. Felly, gallai effeithio ar hyd yn oed rai o sefydliadau bach y trydydd sector. Mae CGGC yn credu y byddai’n fwy effeithiol nodi’r nifer fach o sefydliadau mawr sy’n weddill ac sy’n derbyn symiau sylweddol o gyllid cyhoeddus, nad oes ganddynt gynllun iaith Gymraeg o dan gytundeb gwirfoddol, a darparu cymorth i’r rheini symud ymlaen.

“In that way, you achieve your objective, you retain people’s goodwill, and you avoid the frightening factor of compliance, the law and all the rest of it, and you take those people and organisations forward.”⁶¹

3.42. Yn ôl y wybodaeth a ddarparwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, mae tua 90 o sefydliadau’r trydydd sector wedi mabwysiadu neu wrthi’n paratoi cynlluniau iaith Gymraeg yn wirfoddol. Diddorol yw sylwi bod y nifer yn llawer uwch na’r nifer cyfatebol o gwmnïau preifat.⁶²

3.43. Yn ei dystiolaeth i’r Pwyllgor, daeth CGGC i’r casgliad canlynol:

“I think that our members fear that an Assembly Measure could mean that a Welsh language scheme would entail having to do every aspect of their work bilingually. Part of the reason for that fear is the lack of clarity in the proposed LCO, and part of it is the absence of debate with the third sector about how it can play its part in delivering a more bilingual Wales as part of this process.”⁶³

Asesiad Effaith Rheoleiddiol

3.44. Bu rhai sefydliadau yn gofyn pam nad oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi ei baratoi i gyd-fynd â’r Gorchymyn arfaethedig.⁶⁴ Mae hyn eto’n adlewyrchu eu galwad am fwy o eglurder ynglŷn â pha ddyletswyddau y gellir eu gosod arnynt mewn Mesurau dilynol.

3.45. Yn gyfreithiol, nid yw’n ofynnol paratoi Asesiad Effaith Rheoleiddiol gan mai cais am drosglwyddo pwerau yw’r Gorchymyn arfaethedig, ac nid yw’n gosod unrhyw ddyletswyddau ar unrhyw bersonau. Gwneir Asesiadau o’r fath pan baratoir Mesurau arfaethedig yn unig .

3.46. Eglurodd y Gweinidog:

⁶⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 41, 24 Mawrth 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

⁶¹ Ibid, paragraff 66

⁶² Bwrdd yr Iaith Gymraeg, tystiolaeth ychwanegol, IG1(a)

⁶³ Cofnod y Trafodion, paragraff 83, 24 Mawrth 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

⁶⁴ Mobile Broadband Group, tystiolaeth ysgrifenedig, IG48(o), E.ON, tystiolaeth ysgrifenedig, IG57(o)

“I do not want to be pedantic, but the proposed LCO merely asks for the powers for us to produce Measures. A regulatory impact assessment cannot be made on those Measures, because we do not know what the Measures will ask for. All that we are doing is asking for the competence to make Measures. It is not logical to ask for an assessment as to the future possible impact of a Measure, as we are not discussing Measures.”⁶⁵

Tystiolaeth gan ymgynghorwyr sydd o'r farn bod Mater 20.1 yn rhy gyfyng

3.47. Tra bod cynrychiolwyr busnes yn dadlau yn erbyn eu cynnwys yn y Gorchymyn arfaethedig, cyflwynodd nifer cyffelyb o ymgynghorwyr dystiolaeth yn nodi pam y dylai'r Gorchymyn arfaethedig gynnwys y sector preifat a'r trydydd sector, a oedd yn mynd yn erbyn rhai o'r dadleuon a gyflwynwyd gan gynrychiolwyr busnes. Mae'r ymgynghorwyr hynny, yn bennaf, naill ai'n cynrychioli siaradwyr Cymraeg, neu'n hyrwyddo'r Gymraeg fel un o'u hamcanion.

3.48. O gymharu â safbwyntiau'r sector preifat fel y nodir uchod, cafwyd adroddiad gwahanol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg am ei brofiad o weithio gyda chwmnïau preifat ar y mater hwn. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol i'r Pwyllgor, dywedodd “ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad i'r egwyddor o Fesurau penodol yn ymwneud â darparu gwasanaethau yn y Gymraeg”. Pwysleisir y ffaith mai'r meysydd sy'n debygol o beri pryder i fusnesau yw cysondeb ar draws y sector; yr angen am drefniadau syml, eglur, cymesur a sicr; a chapasiti'r busnesau - yr angen i roi digon o amser i fusnesau a sectorau addasu i drefniadau newydd.⁶⁶

3.49. Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg hefyd wedi casglu tystiolaeth am agwedd gadarnhaol rhai busnesau mawr at ddarparu gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd.⁶⁷ Comisiynwyd arolwg gan y Bwrdd yn ddiweddar, a ganfu fod 76% o'r farn ei bod yn bwysig bod cwmnïau'n hysbysebu'n ddwyieithog ac yn marchnata eu gwasanaethau neu'u cynnyrch yn ddwyieithog.⁶⁸

3.50. Wrth drafod a ddylid ystyried y mater o gost ai peidio, cytunodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg y gallai fod rhai costau ychwanegol ynghlwm. Fodd bynnag, dywedodd:

“Y dystiolaeth a gawsom gan fusnesau oedd bod cyrff y sector cyhoeddus yn cynyddu nifer y gwasanaethau oedd ar gael yn Gymraeg wrth i Ddeddf 1993 gael ei gweithredu, ac wedyn yr oedd busnesau a gwasanaethau y trydydd sector yn dymuno symud i'r cyfeiriad hwnnw hefyd. Felly, mae tynfa naturiol tuag at hynny ac ni chredaf y bydd yn broblem.”⁶⁹

⁶⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 64, 24 Chwefror 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

⁶⁶ Bwrdd yr Iaith Gymraeg, tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol, IG1(a)

⁶⁷ Ibid

⁶⁸ *Arolwg Omnibws gan Beaufort Research: Agweddau at y Gymraeg Tachwedd 2008*, Mai 2009

⁶⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 85, 3 Mawrth 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

3.51. Un o'r prif ddadleuon a gyflwynir yn erbyn deddfu ar gyfer darparu gwasanaethau iaith Gymraeg gan y sector preifat yw'r diffyg galw ymddangosiadol am y gwasanaethau hynny yng Nghymru. Barn y sefydliadau iaith Gymraeg yw mai'r rheswm dros y diffyg galw yw'r diffyg cysondeb yn y gwasanaethau a ddarperir, neu ansawdd amrywiol y gwasanaethau, sy'n rhwystr neu'n wrthanogaeth i ddefnyddwyr.⁷⁰ Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg o'r farn hefyd y dylai sefydliadau wneud llawer mwy o ymdrech i farchnata'r ffaith fod gwasanaethau ar gael yn Gymraeg.

3.52. Dywedodd Mudiadau Dathlu'r Gymraeg:

"Mae'r ddeddfwriaeth bresennol mor anghyson, mae angen fframwaith cyfreithiol pendant sy'n rhoi statws a hawliau. Credwn fod cael comisiynydd iaith hefyd yn bwysig. Oherwydd y sefyllfa anghyson bresennol, mae disgwyliadau pobl mor isel, nid ydynt yn gwybod pa wasanaeth sydd ar gael iddynt ac nid oes ganddynt yr hyder i ofyn am y gwasanaethau hynny. Y disgwyl yw y bydd yn cymryd llawer mwy o amser ac yn fwy o drafferth iddynt gael mynediad i wasanaethau cyfrwng Cymraeg—os ydynt ar gael o gwbl... Mae'r hyn a gynigir mor anghyson fel bod pobl yn ofni gofyn am wasanaeth rhag ofn eu bod yn creu trafferth. Pe bai'r hyn a gynigir yn fwy gwastad o ganlyniad i ddeddfwriaeth newydd, byddai pobl yn defnyddio'r fath wasanaethau yn fwy."⁷¹

3.53. Yn yr un modd, dywedodd Mentrau Iaith Cymru:

"Nid yw pobl sy'n siarad Cymraeg yn sicr o'r gwasanaethau cyhoeddus y maent am eu cael drwy gyfrwng y Gymraeg gan awdurdod lleol, er enghraifft. Nid oes gofyn beth yw disgwyliadau'r defnyddiwr. Mae'r disgwyliadau mwy ar gyfer y darparwyr na'r defnyddwyr. Felly, y darparwyr sy'n gorfod dehongli'r gyfraith yn hytrach na'r defnyddwyr. Os ydym yn rhoi'r dinesydd ar ganol gwasanaethau cyhoeddus, mae angen i'r dinesydd wybod ei hawliau o ran y gwasanaethau hynny."⁷²

3.54. Gwnaed sylw gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg y bydd disgwyliadau yn naturiol yn isel os yw ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn wael.⁷³ Ar bwynt cysylltiedig, mynegodd Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall bryderon ynghylch y gwasanaethau anghyfartal i bobl â nam ar eu golwg rhwng y Gymraeg a'r Saesneg – hy bod yr amrywiaeth o ddeunydd gwybodaeth sydd ar gael mewn print bras yn llawer mwy cyfyngedig yn y Gymraeg o gymharu â'r Saesneg a nododd y dylai deddfwriaeth fynd i'r afael â'r pwynt hwn hefyd.⁷⁴

3.55. Dywedodd yr Athro Williams mai cysondeb gwasanaethau yw'r allwedd i gynyddu'r defnydd a wneir ohonynt. Wrth esbonio manteision dull o ymdrin â gwasanaethau sy'n seiliedig ar hawliau, dywedodd:

⁷⁰ Ibid, paragraff 13; Cofnod y Trafodion, paragraff 22, 17 Mawrth 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

⁷¹ Cofnod y Trafodion, paragraffau 23 a 25, 17 Mawrth 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

⁷² Cofnod y Trafodion, paragraff 157, 3 Mawrth 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

⁷³ Cofnod y Trafodion, paragraff 43, 17 Mawrth 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

⁷⁴ RNIB Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, IG 66(o)

“For me, the important thing about a right is that it does not become a single individual battle all the time. The biggest difficulty facing the Welsh language in my view is that each Welsh speaker seems to have some sort of albatross on their shoulder. They feel responsible for making the running each time they have some kind of political, public, or commercial interchange. So, the onus is always on the speaker to construct some sort of relationship. If you had an absolute right in certain defined sectors, the onus, concern and psychological stress—which I will not exaggerate too much—that some Welsh speakers feel each time they ask for a certain service would be partially removed. That element would encourage demand and the normality of being bilingual in an officially bilingual society.”⁷⁵

3.56. Darparodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg goflen o dystiolaeth anecdotaidd⁷⁶, a gasglwyd gan ei haelodau, ynglŷn â'r rhwystredigaethau a achosir gan y diffyg gwasanaeth Gymraeg yn y sectorau cyhoeddus a phreifat:

“Mae'r cwynion hynny'n amrywio o enghreifftiau o wasanaeth Gymraeg nad yw mor gyflawn â'r gwasanaeth Saesneg, i bobl yn dioddef anghwrteisi a sarhad am ofyn am wasanaeth Gymraeg, a hyd yn oed i bobl sy'n darganfod nad oes gwasanaethau yn bodoli yn y Gymraeg o gwbl... Gall y cwynion fod yn rhai difrifol iawn o ran bod urddas pobl—yn blant, pobl ifanc a'r henoed—yn cael ei dramgwyddo, a bod eu hawliau yn cael eu negyddu.”⁷⁷

3.57. Mae'r Athro Williams, yn dadlau'r achos yn erbyn y rhagdybiaeth mai ar sail y galw, yn unig, y dylid cyflwyno deddfwriaeth:

“Typically opponents of the extension of language rights argue that usage and demand should be the sole criteria by which the effectiveness of new legislation and additional opportunities should be measured. Were language to be conceived solely in terms of a commercial transaction, there would be some merit in this argument. However, lesser used languages are increasingly seen in terms of being a public good, akin to other characteristics of a liberal, plural society, such as gender equality, disability legislation and the promotion of equal opportunities. There is no a priori assumption in these cases that demand alone, rather than need and added value, should be a determining factor in deciding policy or instituting legislation.”⁷⁸

3.58. Mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn dadlau y dylid mabwysiadu dull deddfwriaethol sy'n seiliedig ar hawliau, ac y dylai darparu gwasanaeth yn iaith ddewisedig y bobl gael ei ystyried yn elfen sylfaenol o'r gwasanaeth –

⁷⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 161, 6 Mai 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

⁷⁶ Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, *Y Galw am Ddeddfwriaeth Newydd, Mawrth 2009*, tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol, IG10(a)

⁷⁷ Cofnod y Trafodion, paragraffau 35-36, 17 Mawrth 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

⁷⁸ Yr Athro Colin H. Williams, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, tystiolaeth ysgrifenedig, IG8(a)

rhywbeth y gall pobl disgwyl ei gael “heb orfod eu dewis”⁷⁹. Credant y dylid ystyried hawliau iaith Gymraeg yn yr un cyd-destun â hawliau grwpiau lleiafrifol eraill, gan fod iaith yn “rhan hanfodol o hunaniaeth pobl”.⁸⁰

3.59. Yn ei thystiolaeth ychwanegol, dywedodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg:

“Credwn mai un o gyfrifoldebau craidd pob llywodraeth yw cymryd rhan arweiniol wrth sicrhau dyfodol iaith genedlaethol y genedl honno. Yn ein tyb ni, mae'r sefyllfa bresennol o ddiffyg hawliau pendant i ddefnyddio'r Gymraeg ynghyd â diffyg statws y Gymraeg yn annerbyniol ac yn dal y Gymraeg yn ôl. Mae sefydlu hawliau yn ffordd ddiymwad o greu cydraddoldeb ac mae cydraddoldeb yn sail bwysig i gymdeithas decach a mwy cytûn.”⁸¹

3.60. Gyda hyn mewn golwg, hoffai Cymdeithas yr Iaith Gymraeg weld cwmpas y Gorchymyn arfaethedig yn cael ei ehangu, er mwyn cynnwys ynddo bob person sy'n darparu nwyddau, gwasanaethau neu gyfleusterau i'r cyhoedd, ni waeth a yw'n perthyn i'r sector cyhoeddus, y sector preifat neu'r trydydd sector.⁸² Awgrym y Gymdeithas yw y dylai'r Gorchymyn arfaethedig fod mor eang â phosibl er mwyn ei ddiogelu yn y dyfodol, ac y gellid ei ddiwygio i ddarllen “Nid yw'r mater hwn yn cynnwys gosod dyletswyddau ar bersonau ac eithrio'r rhai sy'n darparu nwyddau, gwasanaethau a chyfleusterau i'r cyhoedd, a yw hynny am dâl ai peidio” a hepgor y rhestr o (a) i (i) yn y Gorchymyn arfaethedig.⁸³

3.61. Cyflwynodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ei model deddfwriaethol ei hun yn dystiolaeth (“Mesur yr Iaith Gymraeg 2007”)⁸⁴ sydd wedi'i seilio ar ddull graddol o ymdrin â hawliau:

“Byddwn yn disgwyl lefel isafswm o wasanaethau a darpariaethau, ond wedyn byddai'r gofynion yn amrywio yn ôl maint cwmnïau, eu lleoliad a natur y gwasanaethau y maent yn eu cynnig i'r cyhoedd.”⁸⁵

3.62. Cyflwynwyd tystiolaeth gan lawer o'r sefydliadau a ymatebodd yn cefnogi'r Gorchymyn arfaethedig ond dadleuwyd bod cwmpas Mater 20.1 yn rhy gyfyng. Dywedodd Llais Defnyddwyr Cymru nad yw'n teimlo'n hyderus bod y Gorchymyn yn cynnwys rhestr gynhwysfawr o'r gwasanaethau allweddol a bod angen gwneud rhagor o ymchwil i nodi'r rhain.⁸⁶

3.63. Mae nifer o sefydliadau ac unigolion wedi galw am ehangu'r Gorchymyn arfaethedig i gynnwys bancio, yswiriant a chyfleusterau chwaraeon a hamdden (tystiolaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg)⁸⁷. Dadleua Bwrdd yr Iaith

⁷⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 28, 17 Mawrth 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

⁸⁰ Ibid, paragraff 103; gweler hefyd Stonewall Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, IG3(o)

⁸¹ Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol, IG10(a)

⁸² Ibid, gweler hefyd CYDAG, tystiolaeth ysgrifenedig, IG5(o)

⁸³ Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, tystiolaeth ysgrifenedig, IG9(o)

⁸⁴ Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, *Mesur yr Iaith Gymraeg 2007*, tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol, IG5(a)

⁸⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 54, 17 Mawrth 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

⁸⁶ Llais Defnyddwyr Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, IG44(o)

⁸⁷ Bwrdd yr Iaith Gymraeg, tystiolaeth ysgrifenedig, IG2(o); Mudiadau Dathlu'r Gymraeg, tystiolaeth ysgrifenedig, IG11(o); Urdd Gobaith Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, IG8(o); Merched y Wawr, tystiolaeth ysgrifenedig, IG15(o);

Gymraeg ei bod yn bwysig bod y Gorchymyn arfaethedig yn cael ei “ddiffinio yn eang ond yn hyblyg ...at y dyfodol, ar gyfer Mesurau yn y dyfodol, dros gyfnod”.⁸⁸ Eglurodd hefyd pam y dylid cynnwys y sectorau penodol hyn:

“Mae hyn yn gyfuniad o’r cyrff y buom eisoes yn cydweithio â hwy, sydd â chynlluniau iaith o’u gwirfodd, a’r rhai yr ydym yn eu gweld yn ffitio i mewn i’r diffiniad o gorff sy’n darparu gwasanaeth o natur gyhoeddus. Felly, wrth ystyried y rhain, yr ydym yn awyddus i ddibynnu ar ein profiad o gydweithio â hwy, ond hefyd i ystyried—a dychwelyd at y pwynt—beth yw golwg y dinesydd o’r hyn sy’n wasanaeth, gan gyfuno’r ddwy elfen honno. Dyna pam yr ydym wedi dod at y rhestr hon.”⁸⁹

3.64. Mae’r sefydliadau hyn yn dadlau hefyd y dylai’r categorïau a ddiffinnir yn y Gorchymyn arfaethedig adlewyrchu dull gweithredu sy’n canolbwyntio ar y dinesydd, a chanolbwyntio ar y gwasanaethau a ddefnyddir gan bobl yn eu bywydau bob dydd. Cyfeiriodd Urdd Gobaith Cymru ac eraill at yr angen i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu defnyddio’r Gymraeg, a’i gweld yn cael ei defnyddio y tu allan i fywyd ysgol.⁹⁰ Dywedodd UCAC:

“Mae’r byd [y byd y tu hwnt i waliau’r ysgol] yn llawer fwy dylanwadol ar bobl ifanc o ran eu canfyddiad o werth a statws iaith, ac yn y pen draw eu dewisiadau ieithyddol. Os na ellir ddefnyddio dulliau cyfathrebu, cymdeithasu, bancio a siopa yn y Gymraeg, wedyn beth yw gwerth yr iaith honno yn eu llygaid nhw? Rhaid ymddiried yn y Cynulliad Cenedlaethol i ddeddfu’n ddoeth yn y maes hwn. Saif yr egwyddor y dylai bod gan y Cynulliad rym i osod dyletswyddau ar rychwant llawer ehangach o bersonau na’r hyn a gynhwysir ar hyn o bryd yn y Gorchymyn arfaethedig.”⁹¹

Tystiolaeth gan y Gweinidog

3.65. Yn ei ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 3 Chwefror 2009, dywedodd y Gweinidog:

“Ni allaf ragweld y bydd yr hyn a gynigir yng nghwmpas y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol hwn yn cael effaith negyddol ar unrhyw fusnes, bach neu fawr, pa un a yw’n cael ei ddal o fewn y ddeddfwriaeth ai peidio.”⁹²

3.66. Atebodd y Gweinidog y pryderon uchod a fynegwyd gan gynrychiolwyr busnes yn eu tystiolaeth i’r Pwyllgor, drwy ailadrodd ar 28 Ebrill nad yw’r rhan fwyaf o fusnesau yn dod o fewn cwmpas y Gorchymyn arfaethedig:

Prifysgol Glyndŵr, tystiolaeth ysgrifenedig, IG52(o); Cyngor Sir y Fflint, tystiolaeth ysgrifenedig, IG61(o); Cyngor Sir Ceredigion, tystiolaeth ysgrifenedig, IG49(o); dros 210 ymateb unigol IG29(i)

⁸⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 69, 3 Mawrth 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

⁸⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 91, 3 Mawrth 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

⁹⁰ Comisiynydd Plant Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, IG70(o); UCAC, tystiolaeth ysgrifenedig, IG45(o)

⁹¹ UCAC, tystiolaeth ysgrifenedig, IG45(o)

⁹² Cofnod y Trafodion, p82, 3 Chwefror 2009, Cyfarfod Llawn

“I repeat again that the vast majority of private businesses lie outside the scope of this proposed LCO. I simply do not understand why people keep repeating as fact that all private businesses will somehow fall within the scope of the proposed LCO. The categories are clearly defined, and most of them cover the old utilities that at one time were nationalised, all of which seem to be essential building blocks to a healthy society. It is simply wrong to try to lump all businesses together as if they all come under the scope of the proposed LCO.”⁹³

3.67. Eglurodd y Gweinidog fod y Gorchymyn arfaethedig yn adeiladau ar Ddeddf 1993 ac eglurodd pam y cynhwysir rhestr o gategorïau yn y Gorchymyn arfaethedig. Credai mai dyna oedd cryfder y Gorchymyn arfaethedig, a bod angen sicrhau bod y cymhwysedd deddfwriaethol yn ddigon eang i ateb gofnion y Cynulliad yn y dyfodol:

“Mae’n rhoi eglurder ynglŷn â’r math o gwmnïau a ddaw o fewn cwmpas y Gorchymyn arfaethedig, ond ni fydd pob corff a gwmpesir gan y diffiniad yn briodol, am ba bynnag reswm, a bydd hynny’n fater i’r Cynulliad maes o law.”⁹⁴

3.68. Wrth drafod a fyddai’r dull gwirfoddol yn fwy effeithiol na cheisio gosod dyletswyddau ar y sector busnes neu’r trydydd sector drwy deddfwriaeth, credai’r Gweinidog y dylid ystyried deddfu fel rhan yn unig o broses lawer ehangach sy’n cynnwys hyrwyddo’r dull gwirfoddol.⁹⁵ Dywedodd:

“It is the voluntary approach that will be adopted with most of the private sector. It has achieved some success in the past, and we hope to build on that good work. However, the purpose of the proposed LCO and Measure is to build on the Welsh Language Act 1993, and many of the bodies to which you refer already fall within the scope of that Act. They have Welsh-language schemes, as they are now, and are operating those schemes.”⁹⁶

3.69. Gwnaeth y Gweinidog y sylw canlynol ynglŷn â chynnwys y trydydd sector yn y Gorchymyn arfaethedig, ynghylch paragraff (e) o Fater 20.1 yn benodol:

“I would suggest that a voluntary organisation—and again I cannot prejudge without knowing specific examples—in receipt of £200,000 every year, consistently, over a period of time, would be quite a substantial organisation and would probably be in contact with the public. It is right and proper that the public, whoever it may be, could expect a certain level of language provision. I am rather astounded that the voluntary sector would want to be excluded from providing a proper service to Welsh speakers.”⁹⁷

⁹³ Cofnod y Trafodion, paragraffau 22, 28, 28 Ebrill 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

⁹⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 41, 24 Chwefror 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

⁹⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 65, 28 Ebrill 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

⁹⁶ Ibid, paragraff 11

⁹⁷ Ibid, paragraff 86

3.70. Roedd y Gweinidog yn cytuno bod hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r gwasanaethau yn fater pwysig. Fodd bynnag, roedd hefyd yn cytuno â barn sefydliadau iaith Gymraeg, sef bod y galw siomedig am wasanaethau Cymraeg yn fater cymhleth, sydd i'w briodoli i lu o resymau. Credai fod a wnelo hynny â hwylustod mynediad at y gwasanaethau sydd ar gael ac â chysondeb:

"I could give you chapter and verse on a number of examples where it is difficult to obtain the Welsh-language service. In general, people will not go out of their way to obtain such services if there is a convoluted process...[Consistency] is important, because you cannot have one company providing some sort of bilingual service while another in the same field does not. That is one reason why many people are unsure and uncertain about accessing services in the Welsh language."⁹⁸

3.71. Er hynny, nid oedd yn cytuno bod y prinder galw hwn yn cyfiawnhau eithrio'r sectorau hyn yn gyfan gwbl o gwmpas y Gorchymyn arfaethedig:

"If it is their argument that there is no demand and therefore they will not provide the service, it seems to suggest that certain bodies simply do not want to provide a bilingual service. We believe that the organisations and bodies that we have referred to in the proposed Order are essential to the public life of Wales. They provide services that are essential and therefore those services should be provided bilingually."⁹⁹

3.72. Credai hefyd mai trwy ddeddfu yn unig y gellir sicrhau cysondeb mewn gwasanaethau yn gyffredinol.¹⁰⁰

Cymhariaeth â deddfwriaeth iaith mewn gwledydd a rhanbarthau eraill

3.73. Mae'r dystiolaeth a gafwyd gan genhedloedd a rhanbarthau eraill yn datgelu gwahaniaethau mawr rhwng un rhanbarth a'r nesaf o ran deddfwriaeth iaith, sy'n dibynnu ar hanes ieithyddol y rhanbarth neu'r cyddestun cyfansoddiadol. Mewn rhai achosion, er enghraifft yn y Ffindir¹⁰¹ a New Brunswick¹⁰², nid yw'r deddfwriaeth yn cynnwys y sector preifat na'r sector gwirfoddol, ac eithrio pan fo cyrff o'r sectorau hynny yn darparu gwasanaethau ar ran y sector cyhoeddus, fel trwy gaffael; ond yn Quebec, ar y llaw arall, nod y deddfwriaeth yw gwneud Ffrangeg yn iaith arferol ym myd gwaith, masnach a busnes. Mae Atodiad 6 yn cynnwys tabl sy'n crynhoi'r dyletswyddau a osodir ar y sector preifat mewn detholiad o wledydd.

3.74. Dywedodd Comisiynydd yr Iaith Wyddeleg nad yw'r sector preifat, yn gyffredinol, yn dod o dan ymbarél y Ddeddf berthnasol yn yr Iwerddon.¹⁰³ (Deddf yr Ieithoedd Swyddogol 2003). Fodd bynnag, gellir dynodi rhai cyrff,

⁹⁸ Ibid, paragraffau 13-14

⁹⁹ Ibid, paragraff 13

¹⁰⁰ Ibid, paragraff 11

¹⁰¹ Swedish Assembly of Finland, tystiolaeth ysgrifenedig, IG5(c)

¹⁰² Comisiynydd Ieithoedd Swyddogol New Brunswick, tystiolaeth ysgrifenedig, IG1(c)

¹⁰³ An Coimisinéir Teanga, tystiolaeth ysgrifenedig, IG2(c)

sefydliadau neu grwpiau yn gyrrff cyhoeddus at ddibenion Deddf yr Ieithoedd Swydddogol 2003, os yw'r Gweinidog perthnasol yn Iwerddon yn nodi hynny. Dilynir y meini prawf a ganlyn:

- corff, sefydliad neu grŵp sy'n cael 50% neu ragor o'i wariant cyfredol yn uniongyrchol gan Weinidog y Llywodraeth, Adran o'r Llywodraeth, y Gronfa Ganolog neu gorff cyhoeddus o dan y Ddeddf
- corff, sefydliad neu grŵp a oedd yn gorff cyhoeddus pan ddaeth Deddf yr Ieithoedd Swydddogol 2003 i rym, ond a ddaeth o dan berchnogaeth neu reolaeth breifat yn ddiweddarach
- corff, sefydliad neu grŵp sy'n cyflawni swyddogaethau a freiniwyd yn flaenorol mewn corff, sefydliad neu grŵp a oedd o dan berchnogaeth neu reolaeth gyhoeddus
- unrhyw gorff, sefydliad neu grŵp arall y rhoddir iddynt swyddogaethau neu y gosodir arnynt swyddogaethau drwy ddeddfiad neu gan drwydded neu awdurdod drwy ddeddfiad, mewn cysylltiad â'r cyhoedd yn gyffredinol neu ddsbarth o fewn y cyhoedd yn gyffredinol.

Nododd y Comisiynydd hefyd na chafodd unrhyw sefydliadau o'r fath eu pennu yn y modd hwn gan y Gweinidog perthnasol yn Iwerddon hyd yn hyn.

3.75. Catalonia a Quebec sydd â'r cyfreithiau cryfaf yng nghyd-destun y sector cyhoeddus.¹⁰⁴ Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd Llywodraeth Catalonia:

“Although there is a legal framework in place, the Catalan Language is mainly promoted in the private sector by consensus and collaboration. The introduction of services and information in Catalan is being considered by most companies as a business opportunity that give them a competitive advantage over their competitors.”¹⁰⁵

3.76. Gyda thros 9 miliwn o bobl yn siarad Catalaneg, gall eu llywodraeth bwysleisio'r cyfleodd busnes a all fod ar gael i gwmnïau drwy ddarparu gwasanaethau Catalaneg. Pan ofynnwyd iddo a oedd maint y farchnad Catalaneg yn fantais fawr yn hyn o beth, a hwyrach nad oedd y farchnad honno i'w chymharu â'r farchnad siaradwyr Cymraeg, dywedodd Mr Joan, yr Ysgrifennydd Catalonia dros Bolisi Iaith:

“The size could be important, but it is not the definitive factor... Maltese has only 350,000 or 400,000 speakers, but its position is good compared with other languages that are more widely spoken, like Welsh, because the legal situation of Maltese is better. Therefore, the size is not definitive. As you see, minority languages such as Estonian, Lithuanian, Latvian and other eastern European languages are now in a better position than more widely spoken languages in our part of

¹⁰⁴ Quebec, *Language of work and francization of business*, tystiolaeth ysgrifenedig IG8(c)

¹⁰⁵ Llywodraeth Catalonia, tystiolaeth ysgrifenedig, IG3(c)

Europe. There is a combination in terms of size and the legal situation of the language.”¹⁰⁶

3.77. Eglurodd Llywodraeth Catalonia ei bod yn defnyddio dull deublyg: deddfu ar y naill law a chydweithio a chreu consensws ar y llaw arall. Eglurwyd hefyd pa mor werthfawr yw cael fframwaith deddfwriaethol y gellir cynnal deialog â'r sector preifat oddi mewn iddo. Disgrifiwyd y broses o adeiladu consensws fel un a oedd yn digwydd gam wrth gam.¹⁰⁷ Polisi Llywodraeth Catalonia yw ceisio osgoi gosod sancsiynau, a chynnig cymorth i fusnesau i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Prin iawn y caiff sancsiynau eu gosod. Yn y rhan fwyaf o achosion, gellir datrys y broblem drwy sicrhau bod mentrau yn defnyddio'r hyn a ddarperir gan Lywodraeth Catalonia. Er hynny, maent o'r farn bod rhaid diffinio hawliau a dyletswyddau mewn cyfraith neu, fel arall, byddid yn edrych ar y mater fel rhywbeth nad yw'n hanfodol. Credant fod hawliau deddfwriaethol yn hanfodol er mwyn sicrhau hawliau defnyddwyr.¹⁰⁸

3.78. Dengys y dystiolaeth fod Llywodraeth Catalonia wedi gwneud buddsoddiad ariannol sylweddol i gynorthwyo cwmnïau i gydymffurfio â deddfwriaeth, yn arbennig yn ystod y cyfnod cychwynnol ar ôl cyflwyno'r dyletswyddau newydd.¹⁰⁹ Ei chyllideb ar gyfer y Consortiwm Dysgu ac Addysgu Iaith ar gyfer oedolion eleni oedd €36 miliwn.¹¹⁰

3.79. Yng Nghatalonia, mae'r dull a ddilynir i sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth yn un graddol, sy'n dibynnu ar allu'r busnes i gyflenwi gwasanaethau mewn Catalaneg, ac sy'n disgwyl mwy gan y busnesau mwyaf. Eglurodd Mr Joan, Ysgrifennydd Catalonia dros Bolisi Iaith, bod angen rhagor o gymorth gan y Llywodraeth ar fusnesau bach, a hynny i'w galluogi i ddarparu gwasanaethau.

3.80. Gwnaed sylwadau gan yr Athro Colin H. Williams ynglŷn â'r gwersi y gellir eu dysgu gan y rhanbarthau hyn, a hynny o gofio bod y cyd-destun ieithyddol ynddynt yn dra gwahanol i'r cyd-destun yng Nghymru. Cyfeiriodd at y system reoleiddio yn Quebec, sydd wedi'i mireinio:

“...it is a responsible approach to language policy and language planning, which is systematically regulated and reported upon, because it was initially such a controversial issue...It reports accurately on all the weaknesses as well as the strengths of its own policy, and provides systematic evidence for public debate, whereas, in many of the countries that have gone for a similar policy, there is a lot of input in terms of rhetoric, legislation and political discussion, but little evaluation.”¹¹¹

3.81. O ran y gwersi a ddysgwyd o brofiad Catalonia, mae'r Athro Williams yn cyfeirio at eu bwriad gwleidyddol i sefydlu rhywbeth sydd hwyrach wedi

¹⁰⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 63, 5 Mai 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

¹⁰⁷ Ibid, paragraff 30

¹⁰⁸ Ibid, paragraff 38

¹⁰⁹ Ibid, paragraffau 32 - 35

¹¹⁰ Ibid, paragraff 16

¹¹¹ Ibid, paragraff 93

ymddangos yn anodd, os nad yn amhosibl, yn hanesyddol a bod a wnelo hynny â rhywbeth mwy na hawliau'r Gatalaneg, sef ennill eu lle ar y llwyfan rhyngwladol.¹¹²

Tystiolaeth gan y Gweinidog

3.82. Pan ofynnwyd i'r Gweinidog a oedd wedi cynnal unrhyw ymchwil, er enghraifft, er mwyn cymharu'r Gorchymyn arfaethedig â'r dull deddfwriaethol a fabwysiadwyd yn New Brunswick¹¹³, atebodd:

“No, I have not. However, we should bear in mind that what we are doing with this Order is developing the Welsh Language Act 1993, and building on our own experiences here in Wales. Our experiences, processes and actions here in Wales are often held up in Europe as exemplars of the type of activity that should be undertaken to promote a lesser-used or minority language. Although international examples are useful to inform the debate, I think that we should be concentrating on our own experiences and our own successes and failures. ... Although we need to ensure that the Order itself is watertight and will do what it says on the tin, we should always see it as part of a far wider process that involves promoting and developing this in the voluntary sector and developing the voluntary approach within the private sector.”¹¹⁴

Ein barn ni

3.83. Rydym wedi casglu swmp sylweddol o dystiolaeth sy'n adlewyrchu pryderon y ddwy ochr i'r ddadl ynglŷn â pha ddull yw'r mwyaf effeithiol ar gyfer hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a galluogi siaradwyr Cymraeg i gael mynediad, yn eu hiaith eu hunain, at wasanaethau cyhoeddus sy'n rhan hanfodol o'u bywydau beunyddiol.

3.84. Clywsom dystiolaeth anghyson gan y sector busnes ynglŷn â lefel y galw am wasanaethau yn yr iaith Gymraeg. Nid ydym yn credu mai lefel y galw, nac unrhyw rwystrau eraill sy'n atal cyflenwi, yw'r unig ffactorau a ddylai benderfynu a drosglwyddir cymhwysedd deddfwriaethol o dan Fater 20.1 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ai peidio.

3.85. Credwn y byddai deddfu yn helpu i fynd i'r afael â diffyg ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r gwasanaethau a ddarperir yn yr iaith Gymraeg a sut i gael mynediad at y gwasanaethau hynny. Dylai sicrhau gwell cysondeb yn y ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg, a dylai hynny, yn ei dro, roi hyder a sicrwydd i siaradwyr Cymraeg i'w defnyddio.

3.86. Fodd bynnag, nodwn hefyd yr ofnau a fynegwyd gan rai sy'n cyflenwi gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, yn y sector preifat a'r trydydd sector,

¹¹² Ibid, paragraff 98

¹¹³ Commissioner of Official Languages for New Brunswick, tystiolaeth ysgrifenedig, IG1(c)

¹¹⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 65, 28 Ebrill 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

a hyd yn oed gan rai cyrff yn y sector cyhoeddus. Credwn fod hyn yn deillio o ddiffyg eglurder ynghylch goblygiadau posibl i'r cyrff hynny, o ganlyniad i'r Mesurau a fyddai'n dilyn y Gorchymyn.

3.87. Roedd y pryderon a amlygwyd yn cynnwys:

- heriau ynghylch cyflwyno deddfwriaeth a fydd yn sicrhau tegwch a chyfle cyfartal i gwmnïau o fewn yr un sector busnes
- costau posibl cyflawni'r deddfwriaeth, a'r angen i sicrhau bod unrhyw ddyletswyddau a osodir yn gymesur â maint a galluoedd y sefydliad sydd dan sylw
- gallu'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i gyflenwi ac ymateb i unrhyw ddyletswyddau newydd
- risg o ddirywiad yn lefel y gwasanaeth a ddarperir, ac o golli'r ewyllys da cynyddol a ddangosir tuag at yr iaith Gymraeg, os daw'n fater o gydymffurfio â deddfwriaeth.

3.88. Credwn fod yr holl faterion hyn, a godwyd i gefnogi'r dadl y dylai'r Gorchymyn arfaethedig fod yn fwy cyfyng, yn faterion y bydd yn briodol eu hystyried pan gynigir unrhyw Fesurau dilynol. Credwn nad ydynt yn berthnasol i benderfynu ymhle y dylid gosod cymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â hyrwyddo a hwyluso'r iaith Gymraeg. Yn wir, tybiwn y byddai diffinio'r cymhwysedd deddfwriaethol yn gyfyng ar yr adeg hon yn llesteirio gallu Llywodraeth Cymru i ymateb i ddatblygiad anghenion ieithyddol dinasyddion Cymru yn y dyfodol.

3.89. Fel y dywedir uchod, credwn y gellir rhoi sylw i'r pryderon hyn yn y Mesurau, trwy bennu'r categorïau o bersonau yr effeithir arnynt yn ôl natur y gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd, maint y sefydliad dan sylw a'i statws cyfreithiol.

3.90. Bydd angen penderfynu ar y pwysau a roddir ar y materion uchod pan ddaw'r Cynulliad i ystyried unrhyw gynigion dilynol ar gyfer Mesurau, ochr yn ochr â'r dadleuon a gyflwynwyd ynghlŷn â'r angen i roi lle canolog i'r dinesydd mewn unrhyw deddfwriaeth yn y dyfodol. Credwn y bydd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a baratoir ar gyfer unrhyw gynigion am Fesurau, yn allweddol bwysig mewn perthynas â hyn.

3.91. Hoffem ddwyn y materion hyn i sylw'r Gweinidog, gan ddatgan ein hyder y bydd yn cadw at ei ymrwymiad i ymgynghori'n eang ac i ymgysylltu â dinasyddion ac aelodau'r cyhoedd yn gyffredinol wrth weithio i ddatblygu cynigion ar gyfer Mesurau dilynol.

3.92. Argymhellwn yn daer fod y Gweinidog yn ymgynghori ar gynnig ar gyfer Mesur cyn cyflwyno'r Mesur arfaethedig gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

3.93. Credwn felly ei bod yn briodol, mewn egwyddor, cynnwys cwmnïau preifat yn ogystal â'r trydydd sector o fewn cwmpas y Gorchymyn arfaethedig.

3.94. Nodwn y dystiolaeth a gawsom gan Lywodraeth Catalonia ynglŷn â'i profiadau, ac wedi ein hargyhoeddi gan ei dull pragmatig a chynyddol o gyflwyno dyletswyddau; yr angen i sefydlu consensws a fydd yn ystyried yr iaith yn gyfrifoldeb ar y cyd; a'r pwyslais ar gyfathrebu, lledaenu gwybodaeth a chefnogaeth o du'r Llywodraeth. Nodwn hefyd y buddsoddiad ariannol sylweddol a wnaed gan Lywodraeth Catalonia yn ei rhaglen iaith Gatalaneg ac i gynorthwyo busnesau. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried profiadau rhanbarthau eraill yn fanylach pan ddaw'n amser iddi ddatblygu cynigion ar gyfer Mesurau dilynol.

4. Ystyried telerau Mater 20.1

“Trin yr iaith Gymraeg a’r iaith Saesneg ar sail cydraddoldeb”

4.1. Mae’r Gorchymyn arfaethedig yn cynnwys "trin yr iaith Gymraeg a’r iaith Saesneg ar sail cydraddoldeb". Mae’r Memorandwm Esboniadol i’r Gorchymyn arfaethedig yn nodi:

“The 1993 Act is founded on two principles - the need to promote and facilitate the use of the Welsh language and the treatment of the English and Welsh languages on the basis of equality.”¹¹⁵

Tystiolaeth gan ymgynghoreion

4.2. Mae Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI) yn dadlau y dylid sicrhau bod y ddarpariaeth o drin yr iaith Gymraeg a’r iaith Saesneg “ar sail cydraddoldeb” yn fwy penodol drwy gynnwys ymadrodd yn y Gorchymyn arfaethedig fel “cyhyd ag y bo’n rhesymol ac yn ymarferol”.¹¹⁶ Dywedodd y dylai unrhyw rwymedigaethau ar gwmnïau fod yn gyfatebol, yn rhesymol ac yn ymarferol.¹¹⁷

Tystiolaeth gan y Gweinidog

4.3. Eglurodd y Gweinidog y gwahaniaeth rhwng “trin yr iaith Gymraeg a’r iaith Saesneg ar sail cydraddoldeb” a “statws cyfartal i’r iaith Gymraeg a’r iaith Saesneg”:

“Matter 20.1 frames the competence of the Assembly to legislate in future, by Measure, to support the Welsh language. Drafting it in this way ensures that legislative provision can be identical in its treatment of the Welsh and English languages in future, by Measure, in order to provide an outcome desired by the Assembly in relation to the Welsh language and to ensure that, for example, services are available in Welsh as well as in English. Drafting the provision in this way makes it clear that the Assembly can legislate in relation to the Welsh language only if it wishes to produce an outcome for the Welsh language that is equal to that enjoyed by the English language, but without being in the position of having to make the same legal provision in respect of the English language.”¹¹⁸

4.4. Gwrthododd y Gweinidog awgrym y CBI y dylid cynnwys cymal ar resymoldeb ym Mater 20.1 gan nodi y gellid cyflwyno unrhyw amodau o’r fath pan gaiff unrhyw Fesurau dilynol eu cynnig. Ni fyddai’n briodol ei gynnwys yn y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol.¹¹⁹

¹¹⁵ GPO-10-EM, paragraff 12

¹¹⁶ Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, tystiolaeth ysgrifenedig, IG10(o)

¹¹⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 222, 10 Mawrth 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

¹¹⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 201, 28 Ebrill 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

¹¹⁹ Ibid, paragraph 220

4.5. Pan ofynnwyd a fyddai'r Cynulliad hefyd yn gallu deddfu i sicrhau bod siaradwyr Saesneg mewn ardaloedd lle mae'r mwyafrif yn siarad Cymraeg yn cael gwasanaethau cyfartal, eglurodd y Gweinidog:

“Matter 20.1 confers competence on the Assembly to legislate in relation to the treatment of the Welsh and English languages on the basis of equality, as you mentioned. It follows therefore that the Assembly could also legislate to protect the freedom of those wishing to communicate with each other in English. So, it is possible.”¹²⁰

4.6. Pan ofynnwyd a allai'r Gorchymyn arfaethedig roi siaradwyr Saesneg dan anfantais, eglurodd na fyddai unrhyw un o ddarpariaethau'r Gorchymyn arfaethedig yn tynnu oddi ar hawliau siaradwyr Saesneg.

“I think that these fears are unfounded. The vision, as set out in ‘Iaith Pawb’, does not imply that everyone in Wales should be able to speak both Welsh and English. It may be desirable and it may come about in future, if our education system is geared to do it, but that is not the vision. ‘Iaith Pawb’ defines a bilingual Wales as a country where people can choose to live their lives through the medium of either Welsh or English. It is important to emphasise that this legislation merely helps those who wish to live their lives through the medium of Welsh and to use the Welsh language in most aspects of their lives to do so, without impinging on the rights of English speakers. Anyway, discrimination law gives protection to all of us.”¹²¹

4.7. Pan ofynnwyd a ddylai fod gan y Comisiynydd Iaith, y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu'i sefydlu mewn Mesur dilynol, gyfrifoldeb dros gydraddoldeb mewn gwasanaethau i siaradwyr Saesneg hefyd, dywedodd y Gweinidog mai dyma fyddai'r trefniant yn dechnegol.¹²²

Ein barn ni

4.8. Cytunwn gyda'r Gweinidog nad yw'n briodol ymhelaethu ar gwmpas pwerau'r Cynulliad Cenedlaethol yn y Gorchymyn arfaethedig mewn perthynas â “thrin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg ar sail cydraddoldeb”, a hynny drwy gynnwys ymadrodd fel “cyhyd ag y bo'n rhesymol ac yn ymarferol”.

4.9. Nodwn sylwadau'r Gweinidog y dylai'r Comisiynydd Iaith hefyd fod yn gyfrifol am fynediad at wasanaethau cyhoeddus yn yr iaith Saesneg yng Nghymru.

¹²⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 234, 28 Ebrill 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

¹²¹ Ibid, paragraff 239

¹²² Ibid, paragraff 213

“Gwasanaethau i’r cyhoedd”

Cefndir

4.10. Byddai Mater 20.1 yn caniatáu i’r Cynulliad osod dyletswyddau ar y gwahanol gategorïau o gyrrff sy’n darparu “gwasanaethau i’r cyhoedd”. Mae paragraff (b) o Fater 20.1 yn cyfeirio at bersonau sy’n darparu gwasanaethau i’r cyhoedd o dan gytundeb neu yn unol â threfniadau a wnaed gydag awdurdod cyhoeddus. Yn yr un modd, dim ond y dyletswyddau mewn perthynas â’r gwasanaethau hynny a ddarperir i’r cyhoedd y byddai’r cyrrff addysg a chyfleustodau y cyfeirir atynt ym mharagraff (h) yn ddarostyngedig iddynt. Ni cheir diffiniad o’r “cyhoedd” na “gwasanaethau” [i’r cyhoedd].

4.11. Mae adran 5 o Ddeddf 1993 yn cynnwys yr ymadrodd “gwasanaethau i’r cyhoedd yng Nghymru”. Ni cheir diffiniad ffurfiol yn y Ddeddf, ond mae adran 5(3) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus ystyried canllawiau a baratowyd gan y Bwrdd yr Iaith Gymraeg o dan adran 9 o’r Ddeddf wrth baratoi cynlluniau iaith Gymraeg.

4.12. Mae paragraff 1.6 o Canllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn egluro ystyr “y cyhoedd” –

“1.6 Mae cynlluniau iaith yn ymwneud â darparu gwasanaethau i’r cyhoedd yng Nghymru. Mae’r term “y cyhoedd” yn cynnwys unigolion, personau cyfreithiol a chyrrff corfforaethol. Mae’n cynnwys y cyhoedd yn ei gyfanrwydd, neu ran o’r cyhoedd, yn ogystal ag aelodau unigol o’r cyhoedd. Mae’r term yn cynnwys cyrrff gwirfoddol ac elusennau p’un a ydynt wedi eu hymgorffori gydag atebolrwydd cyfyngedig ai peidio gan y byddant hwy hefyd yn rhan o’r cyhoedd. Mae cyfarwyddwyr ac eraill sy’n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig hefyd yn gynnwysedig o fewn y term “y cyhoedd”. At ddibenion adrannau 5 a 21 y Ddeddf, felly, ystyr y cyhoedd yw’r personau hynny y mae sefydliad yn ymwneud â nhw wrth weithredu ei swyddogaethau. Nid yw, fodd bynnag, yn cynnwys ymwneud â’r rheiny sy’n gweithredu yn rhinwedd swyddogaeth o gynrychioli’r Goron, y llywodraeth neu’r Wladwriaeth. Felly, ni fydd personau sy’n cyflawni swyddogaethau swyddogol o natur gyhoeddus, er eu bod yn bersonau cyfreithiol, yn dod o fewn ystyr “y cyhoedd” tra byddant yn cyflawni’r swyddogaethau swyddogol hynny.”

Tystiolaeth gan ymgylgoreion

4.13. Mae’r CBI yn dadlau mai dim ond i’r sector cyhoeddus y mae Deddf 1993 wedi bod yn gymwys iddo hyd yn hyn lle na fydd unrhyw un yn ceisio herio’r diffiniad hwn o beth yn union yw “gwasanaeth i’r cyhoedd”. Mae’r CBI yn dadlau nad yw’r ymadrodd hwn yn ddigon clir yn y cyd-destun newydd a gynigir gan y Gweinidog ac y dylid ymhelaethu arno. Awgrym y CBI yw y dylid defnyddio “swyddogaethau o natur gyhoeddus” sydd hefyd yn ymddangos yn adrannau 3 a 6 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn lle “darparu gwasanaethau i’r cyhoedd”:

“This term is more accurate and focuses on delivering an original intention of the LCO- to update Welsh language service provision to match the more complex modern-day delivery of public services.”¹²³

4.14. Mae “swyddogaethau o natur gyhoeddus” yn ymddangos yn adran 6(1)(o)(i) o Ddeddf 1993, sy’n caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, i ychwanegu at y rhestr o “gyrff cyhoeddus” y mae’n bosibl y bydd angen iddynt baratoi cynlluniau iaith Gymraeg.

4.15 Gwnaed chwe gorchymyn yn olynol gan yr Ysgrifennydd Gwladol (yr oedd y pŵer hwnnw ganddo’n wreiddiol), y Cynulliad Cenedlaethol ac erbyn hyn gan Weinidogion Cymru. Mae’r personau a nodir yn cynnwys cwangos, prifysgolion a chyrff cyhoeddus. Fodd bynnag, mae’r dyletswyddau o dan y Ddeddf, yn yr un modd â’r Gorchymyn arfaethedig, yn ymwneud â gwasanaethau i’r cyhoedd.

Tystiolaeth gan y Gweinidog:

4.16. Mae Atodiad B i lythyr y Gweinidog at y Pwyllgor ar ddehongli gwasanaethau i’r cyhoedd yn nodi:

“In the sixteen years since the Welsh Language Act 1993 became law, none of the persons that have been required under that Act to prepare a Welsh Language Scheme has challenged the interpretation of the expression “services to the public” in Court.”¹²⁴

4.17. Ymatebodd y Gweinidog i’r cwestiwn ynghylch a fyddai’r un peth yn wir yn y dyfodol, pan fyddai’r ymadrodd yn berthnasol i ddarparwyr gwasanaethau yn y sector preifat hefyd:

“We believe that the phrase ‘services to the public’ is clear. It concentrates on the interface between the public and the service provider. The phrase ‘functions of a public nature’ is used in the 1993 Welsh Language Act, and, in the experience of the Welsh Language Board over the years, that has created potential inconsistencies in the coverage of the Act. The expression ‘exercising functions of a public nature’ is a key feature; it is one of the tests as to whether a person can be specified by the Welsh Ministers as a public body for the purposes of the 1993 Act, so that that person is required to prepare a Welsh language scheme, but it has created certain difficulties over the years. That is why the new wording is used.”¹²⁵

4.18. Eglurodd cynghorwr cyfreithiol y Gweinidog hefyd yr anhawster gyda chynnwys diffiniad o “wasanaethau i’r choedd” mewn perthynas â Mater 20.1:

¹²³ Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, tystiolaeth ysgrifenedig, IG10(o), paragraff 35

¹²⁴ Llythyr gan y Gweinidog dros Dreftadaeth, 3 Mawrth 2009 (gweler Atodiad 5)

¹²⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 131, 28 Ebrill 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5; ac Llythyr gan y Gweinidog dros Dreftadaeth, 3 Mawrth 2009 (gweler Atodiad 5)

“If we were to include a definition of ‘services to the public’ here, so in Schedule 5 to the Government of Wales Act, that would serve to undermine the use of the phrase elsewhere in the Act. The inference would be that, if there is a definition in one part of the Act but it does not apply to the same phraseology in other parts of the Act, there must be a difference in interpretation.”¹²⁶

Ein barn ni

4.19. Rydym yn fodlon bod yr ymadrodd “darparu gwasanaethau i’r cyhoedd” yn briodol a’i fod yn gyson â therminoleg Deddf 1993. Byddai ei gyfyngu i’r rheini sy’n arfer “swyddogaethau o natur gyhoeddus” yn lleihau’r cwmpas ar gyfer adeiladu ar Ddeddf 1993.

4.20. Gellir mynd i’r afael ag unrhyw bryderon o ran pa fath o gyrff sy’n dod o fewn cwmpas “darparu gwasanaethau i’r cyhoedd” mewn Mesurau dilynol.

¹²⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 134, 28 Ebrill 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

5. Mater 20.1 - ystyried y categorïau o bersonau sy'n dod o fewn ei gwmpas

Paragraff (a) "awdurdodau cyhoeddus"

5.1. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

"Mae paragraff (a) yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad ddeddfu drwy Fesur i osod dyletswyddau ar 'awdurdodau cyhoeddus'. Mae'r term 'awdurdodau cyhoeddus' wedi'i ddiffinio i gynnwys pob awdurdod cyhoeddus o fewn ystyr Deddf Hawliau Dynol 1998, a byddai'n cynnwys awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol etc. "¹²⁷

5.2. Mae Cymdeithas y Cyfreithwyr yn cwestiynu'r diffiniad o "awdurdodau cyhoeddus", gan ei fod yn cynnwys llysoedd neu dribiwnlysoedd.¹²⁸

5.3. Roedd Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru am weld y sector cyfiawnder yn cael ei gynnwys o fewn cwmpas y Gorchymyn arfaethedig, "er gwaethaf y ffaith fod y rhan fwyaf o'r sector eto heb ei ddatganoli".¹²⁹

5.4. Gofynnodd ychydig o'r bobl a ymatebodd o'r sector cyhoeddus a fyddai'n bosibl ystyried y mater o gost i'r awdurdod cyhoeddus pan gaiff Mesurau dilynol eu cynnig.¹³⁰

Tystiolaeth gan y Gweinidog

5.5. Eglurodd cyngorwr cyfreithiol y Gweinidog safbwynt y llysoedd mewn perthynas â'r Gorchymyn arfaethedig ar 28 Ebrill:

"The courts are a public authority for the purposes of section 3(2)(a)... the interface between the public and the officers setting up court and so on through Her Majesty's Court Service is included, but the actual use of the language in the court setting is outside the scope of the Assembly's competence."¹³¹

Ein barn ni

5.6 Credwn ei fod yn briodol bod awdurdodau cyhoeddus yn dod o fewn cwmpas y Mater (fel y'i diffiniwyd ym mharagraff (a)).

¹²⁷ GPO-10-EM, paragraff 29

¹²⁸ Cymdeithas y Cyfreithwyr, tystiolaeth ysgrifenedig, IG51(o)

¹²⁹ Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, IG58(o)

¹³⁰ Fforwm Gwledig Canolbarth Sir Fynwy, , tystiolaeth ysgrifenedig, IG14(o); Dinas a Sir Abertawe, tystiolaeth ysgrifenedig, IG17(o); Cyngor Cymunedol Llancrist, tystiolaeth ysgrifenedig, IG65(o)

¹³¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 197, 28 Ebrill 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

Paragraff (b) gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd "o dan gytundeb, neu'n unol â threfniadau, a wnaed gydag awdurdod cyhoeddus"

5.7. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod paragraff (b) "personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd o dan gytundeb, neu'n unol â threfniadau, a wnaed gydag awdurdod cyhoeddus" wedi'i seilio ar baragraff 6(1)(o)(ii) o Ddeddf 1993 a nodir:

"Pan fo cyrff cyhoeddus yn allanoli gwaith cyflwyno gwasanaethau i'r cyhoedd, byddai'r Cynulliad yn gallu deddfu o dan baragraff (b) i osod dyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg ar gontractwyr, ond dim ond mewn perthynas â'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu o dan y trefniadau allanoli."¹³²

5.8. Mae CGGC yn derbyn y dylai fod yn ddarostyngedig i ddyletswyddau o dan Mater 20.1 paragraff (b)¹³³ pan fydd ei aelod-sefydliadau yn darparu gwasanaeth cyhoeddus statudol o dan gytundeb. Fodd bynnag, eglurodd nad oedd yn glir i ba raddau y byddai sefydliadau'r trydydd sector yn ddarostyngedig i'r Gorchymyn arfaethedig pan fyddent yn darparu'r hyn y gellir ei ddehongli fel "gwasanaeth i'r cyhoedd" ond nad yw'n wasanaeth statudol.

5.9. Dadleuodd Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys y byddai'n rhaid i unrhyw rwymedigaethau fod yn gyfatebol, oherwydd gall cytundebau gwasanaeth y sector cyhoeddus fod yn gontractau bach weithiau.¹³⁴ Dywedodd Cyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr ei fod wedi cael anawsterau wrth osod dyletswyddau ar drydydd partion a bod yn rhaid i'r disgwyliadau fod yn realistig.¹³⁵ Mae Sefydliad y Cyfarwyddwyr yn derbyn y ddarpariaeth ym mharagraff (b).

Tystiolaeth gan y Gweinidog

5.10. Eglurodd cynghorwr cyfreithiol y Gweinidog mai'r cwestiwn oedd a fyddai gweithgarwch sefydliadau'r trydydd sector yn dod o fewn paragraff (b) neu unrhyw baragraff arall ym Mater 20.1.¹³⁶ Hwn yw'r ffactor dylanwadol ac nid a yw'n wasanaeth statudol ai peidio. Os nad yw'n darparu gwasanaeth statudol, gallai'r trydydd sector ddod o dan ei gwmpas fel sy'n amlwg yn y drafodaeth ar baragraff (e) o Fater 20.1 isod.

Ein barn ni

5.11. Credwn ei fod yn briodol y dylai gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd "o dan gytundeb, neu'n unol â threfniadau, a wnaed gydag awdurdod cyhoeddus" ddod o dan gwmpas y Mater (fel y'i diffiniwyd ym mharagraff (b)).

¹³² GPO-10-EM, paragraff 30

¹³³ Cofnod y Trafodion, paragraffau 24-30, 24 Mawrth 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

¹³⁴ Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Powys, tystiolaeth ysgrifenedig, IG43(o)

¹³⁵ Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, tystiolaeth ysgrifenedig, IG47(o); Cyngor Sir Ddinbych, tystiolaeth ysgrifenedig, IG63(o)

¹³⁶ Cofnod y Trafodion, paragraffau 117, 28 Ebrill 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

Paragraff (c) “personau sy’n darparu gwasanaethau i’r cyhoedd ac a gafodd eu sefydlu drwy ddeddfiad neu offeryn uchelfreiniol.”

5.12. Byddai paragraff (c) yn cynnwys yr holl gyrff sy’n darparu gwasanaethau i’r cyhoedd a grëwyd drwy Siarter Frenhinol neu drwy ddeddfiad. Mae’r Memorandwm Esboniadol yn rhoi rhai enghreifftiau: y Gronfa Loteri Fawr, y Comisiwn Etholiadol ac S4C (drwy ddeddfiad); a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Cyngor Chwaraeon Cymru a’r Cyngor Prydeinig (drwy offeryn uchelfreiniol).

5.13. Hyd yn hyn, mae 900 o gyrff Siartredig wedi’u creu er mai dim ond tua 500 sy’n bodoli o hyd erbyn hyn. Mae’r Siarteri yn dyddio’n ôl i’r drydedd ganrif ar ddeg gan mai hon oedd yr unig ffordd o gynnwys corff ar y pryd. Gan nad yw hyn bellach yn wir a bod cyrff erbyn hyn yn gallu cofrestru’u hunain fel cwmnïau, prin iawn yw’r achosion o ganiatáu Siarteri newydd (crëwyd 11 yn 2007). Mae enghreifftiau o gyrff Siarter yn cynnwys y CBI, Banc Lloegr, Scottish Equitable Life Assurance Society, Ymddiriedolaeth y Tywysog, Sefydliad Ffilm Prydain, y Llenng Brydeinig a sawl prifysgol (yn cynnwys y rheini yn Lloegr) ac ysbytai. Mae’r cyrff a grëwyd gan Siarter Frenhinol yn eclectig o ran natur ac maent yn cynnwys amrywiaeth eang o sefydliadau.

5.14. Byddai enghreifftiau eraill o gyrff a grëwyd drwy ddeddfiadau ac yn y blaen yn dod o dan baragraff (c) yn cynnwys yr Awdurdod Glo, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd ac OFCOM.

Ein barn ni

5.15. Nodwn yr amrywiaeth eang bosibl o gyrff sy’n dod o fewn gwmpas paragraff (c) ac nad ydynt yn dod o fewn unrhyw gategori penodol o ran y math o swyddogaethau neu wasanaethau a ddarperir ganddynt i’r cyhoedd.

5.16. Tynnwn sylw at y mater a godwyd yn y dystiolaeth uchod (adran 3, paragraff 3.87) ynghylch yr angen am amodau cyfartal wrth osod dyletswyddau ar ddarparwyr gwasanaethau o fewn sectorau diffiniedig.

5.17. Credwn mai mater i’w ystyried wrth gyflwyno unrhyw gynigion ar gyfer Mesurau yw hyn, a hynny ynghyd â chyfeiriadau at natur y gwasanaethau a ddarperir i’r cyhoedd, maint y sefydliad dan sylw a’i statws cyfreithiol (fel yr argymhellwyd uchod, paragraff 2.23).

Paragraff (d) swyddogaethau o ddarparu gwasanaethau i’r cyhoedd a roddwyd neu a osodwyd drwy ddeddfiad

5.18. Mae’r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

“Byddai paragraff (d) yn rhoi cymhwysedd i’r Cynulliad ddeddfu i osod dyletswyddau ar gyrff y mae swyddogaethau darparu gwasanaethau i’r cyhoedd wedi’u rhoi iddynt neu wedi’u gosod arnynt drwy ddeddfiad.

Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Llais Defnyddwyr a Buddsoddwyr mewn Pobl y DU.¹³⁷

34. Mae swyddogaethau ('functions') yn derm sy'n cael ei ddefnyddio'n helaeth yn Neddf 2006 i gwmpasu pwerau a dyletswyddau."¹³⁸

5.19. Mae cyflwyniad Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn nodi:

"O ran adran (d) y Gorchymyn arfaethedig, rydym yn bryderus a ydyw partneriaethau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus wedi'u cynnwys ynddo, megis Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc; Partneriaethau Iechyd, Gofal a Lles; Byrddau Gwasanaeth Lleol; a Chynlluniau Gofodol. Yn syml, onid ydynt wedi'u cynnwys, dylid am resymau amlwg ddiwygio'r cymal i amlygu eu bod yn gynwysedig."¹³⁹

5.20. Eglurodd y Comisiynydd Plant fod hyn yn bwysig gan nad yw bob amser yn glir pa Gynllun Iaith Gymraeg sy'n weithredol, os o gwbl, neu a oes angen Cynllun newydd. Ceisiwyd sicrwydd eu bod wedi'u cynnwys ac na esgeulisir cyfrifoldebau tuag at ddarpariaeth iaith.¹⁴⁰ Gwnaed yr un pwynt gan sawl sefydliad arall.¹⁴¹

Tystiolaeth gan y Gweinidog

5.21. Nododd y Gweinidog y gellir gosod dyletswyddau ar bob aelod o drefniant partneriaeth sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, pan fydd yn gweithredu mewn partneriaeth wrth gydymffurfio â dyletswyddau iaith Gymraeg penodol.¹⁴² Fodd bynnag, nid yw'r Gweinidog yn egluro sut y byddai hyn yn cael ei wneud ond noda y bydd yn rhaid edrych ar bob partneriaeth yn ôl yr achos.

5.22. Ysgrifennodd y Gweinidog at y Pwyllgor yn egluro os yw Partneriaeth yn cynnwys cyrff sy'n dod o dan gategoriâu 20.1 (a) i (e) yna caiff ei chynnwys o fewn cwmplas y Gorchymyn arfaethedig. Os na fydd rhai aelodau o'r Bartneriaeth yn dod o dan y categorïau hyn, yna dywedodd y Gweinidog efallai y byddai'n gallu gosod dyletswyddau ar y bartneriaeth os mai "person" yw'r bartneriaeth yng ngolwg y gyfraith a'i bod hefyd yn bodloni'r meini prawf perthnasol yn 20.1 Yn ogystal, nododd y Gweinidog os na fyddai Llywodraeth Cymru yn gallu gosod dyletswyddau ar grŵp o'r fath, gallai'r Cynulliad ddeddfu drwy Fesur i osod dyletswyddau iaith Gymraeg ar aelodau unigol o grŵp neu bartneriaeth o'r fath sydd o fewn ei gymhwysedd deddfwriaethol.¹⁴³

5.23. Nododd y Gweinidog hefyd y byddai cyrff anghorfforedig yn cael eu cynnwys a'u bod o fewn y diffiniad o bersonau at ddiben y Gorchymyn arfaethedig. Ymddengys fod hyn yn awgrymu nad yw'r ffaith bod corff yn

¹³⁷ GPO-10-EM, paragraff 33

¹³⁸ GPO-10-EM, paragraff 34

¹³⁹ Bwrdd yr Iaith Gymraeg, tystiolaeth ysgrifenedig, IG2(o), paragraff 8

¹⁴⁰ Comisiynydd Plant Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, IG70(o)

¹⁴¹ Mentrau Iaith Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, IG4(o); Merched y Wawr, tystiolaeth ysgrifenedig, IG15(o) Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, tystiolaeth ysgrifenedig, IG58(o)

¹⁴² Cofnod y Trafodion, paragraff 156, 28 Ebrill 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

¹⁴³ Llythyr gan y Gweinidog dros Dreftadaeth, 7 Mai 2009 (gweler Atodiad 5)

gorfforedig ai peido yn gwneud gwahaniaeth o ran a gaiff ei gynnwys o dan gwmpas y Gorchymyn ai peidio. Yr hyn sy'n bwysig yw a yw'r cyrff yn dod o dan unrhyw gategori o 20.1(a) i (h). Efallai y bydd llawer yn dod o dan baragraff (d), ac o bosib (c) ac (e).

Ein barn ni

5.24. Credwn y dylai cyrff partneriaeth sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus a'u cyrff cyfansoddol ddod o dan gwmpas y Mater. Nid ydym yn fodlon ar eglurhad y Gweinidog o ran sut y gallent ddod o dan y Mater fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd, gyda rhai o bosibl yn dod o fewn y cwmpas a rhai y tu allan iddo.

5.25. Os nad yw'r Gorchymyn arfaethedig fel y mae ar hyn o bryd yn gallu gwarantu bod pob partneriaeth wedi'i chynnwys, ni ellir gwneud Mesur dilynol i'w cynnwys oherwydd ni fyddai gan y Cynulliad y cymhwysedd i ddeddfu ar eu cynnwys.

5.26. Os bydd y Gweinidog yn dilyn argymhelliad y Pwyllgor i ehangu cwmpas y Mater (yn unol â'r argymhelliad uchod, paragraff 2.24), gellir mynd i'r afael â hyn mewn Mesur dilynol.

5.27. Fodd bynnag, os nad yw'r Gweinidog yn bwriadu dilyn ein hargymhelliad yn hyn o beth, argymhellwn fod categori newydd yn cael ei gynnwys i gyfeirio'n benodol at bartneriaethau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Unwaith eto, wrth bennu'r personau y gosodir dyletswyddau arnynt dylai Mesurau restru'r categorïau o bobl yr effeithir arnynt drwy gyfeirio at natur y gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd, maint y sefydliad dan sylw a'i statws cyfreithiol (yn unol â'n hargymhelliad yn paragraff 2.23 uchod).

Paragraff (e) "personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd sy'n derbyn cyfanswm o £200,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol"

5.28. Mae paragraff (e) o'r Gorchymyn arfaethedig yn darparu bod "personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd sy'n derbyn cyfanswm o £200,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol" yn gallu bod yn ddarostyngedig i ddyletswyddau. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

"Yr egwyddor sylfaenol ym mhob un o'r achosion hyn yw y dylai personau sy'n cael budd o gronfeydd cyhoeddus sylweddol gymhwyso i gyflawni cyfrifoldebau cyhoeddus."¹⁴⁴

5.29. Mae hon yn ddarpariaeth eang iawn sydd â'r potensial i gynnwys amrywiaeth eang o ddarparwyr gwasanaethau. Noda'r Memorandwm Esboniadol fod hyn yn cynnwys y rheini sy'n "genedlaethol eu natur". Dim ond

¹⁴⁴ GPO-10-EM, paragraff 35

ychydig o enghreifftiau a roddir: Canolfan Mileniwm Cymru, Opera Cenedlaethol Cymru, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru a'r BBC.¹⁴⁵

5.30. Ceir diffiniad o "arian cyhoeddus" yn y Gorchymyn arfaethedig. Noda'r Memorandwm Esboniadol y byddai'n cynnwys arian cyhoeddus:

"a ddarparwyd yn uniongyrchol gan y Cynulliad, Gweinidogion Cymru, Senedd y DU, Gweinidogion y Goron neu un neu ragor o sefydliadau'r Cymunedau Ewropeaidd, neu'n anuniongyrchol gan neu oddi wrth y cyrff hyn (er enghraifft, drwy awdurdodau lleol neu Gyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad)."¹⁴⁶

5.31. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi na chaiff personau sy'n cael arian cyhoeddus "ar ffurf taliad am wasanaethau neu nwyddau a gyflenwyd ganddynt eu cynnwys o dan baragraff (e)".¹⁴⁷ Fodd bynnag, ni nodir hyn yn y Gorchymyn arfaethedig. (Gweler y pwynt a godwyd gan Gydffederasiwn Cludiant Teithwyr Cymru ynghylch hyn – paragraff 5.116 isod).

Tystiolaeth gan ymgylgoreion

5.32. Mae tystiolaeth gan amryw o ymgylgoreion wedi cwestiynu'r trothwy hwn, gyda rhai yn dweud ei fod yn rhy gyfyngedig (ac y dylid ymadael ag ef neu y dylid cyfeirio ato yn ystod y cyfnod Mesur)¹⁴⁸ ac eraill yn dweud ei fod yn rhy oddefol ac y dylid ei gynyddu, ei ddileu neu ei newid i ddarllen "pob blwyddyn ariannol".¹⁴⁹

Teimlai Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru fod y trothwy o £200,000 yn ffigur eithaf mympwyol, a dywedodd hefyd:

"For a third sector organisation delivering a public service, it is a relatively low figure now."¹⁵⁰

5.33. Yn ôl Cymdeithas y Cyfreithwyr, nid yw'r cais am drothwy ariannol yn dilyn amcan y polisi i ddarparu sail gyson ar gyfer gwella'r mynediad at wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.¹⁵¹

5.34. Drwy chwilio drwy gronfa ddata ar-lein Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, mae'n bosibl gweld pa sefydliadau sydd wedi cael grantiau o fwy na £1 miliwn o gyllid Undeb Ewropeaidd.¹⁵² Mae'n amlwg y gallai paragraff (e) gynnwys amrywiaeth eang o sefydliadau, a gellir dadlau bod rhai ohonynt yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd (ee theatr bach neu awdurdodau porthladdoedd).

¹⁴⁵ Ibid, paragraff 35

¹⁴⁶ GPO-10-EM, paragraff 35

¹⁴⁷ Ibid, paragraff 37

¹⁴⁸ Cyngor Sir Powys, tystiolaeth ysgrifenedig, IG56(o)

¹⁴⁹ Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, tystiolaeth ysgrifenedig, IG10(o); hefyd Siambr Fasnach De Cymru, Siambr Fasnach Gogledd Cymru, Siambr Fasnach Gorllewin Cymru - Cofnod y Trafodion, Paragraff 42,44,73, 10 Mawrth 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

¹⁵⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 75, 24 Mawrth 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

¹⁵¹ Cymdeithas y Cyfreithwyr, tystiolaeth ysgrifenedig, IG51(o)

¹⁵² Gweler y wefan: www.wefo.wales.gov.uk

5.35. Mae'r CBI yn dadlau bod y ddarpariaeth hon yn ddryslyd ac yn cynnwys llawer mwy na'r hyn a fwriadwyd. Ei awgrym yw y dylid ei ddiwygio i fod yn £200,000 ym mhob blwyddyn ariannol.¹⁵³ Yna, byddai hyn yn osgoi cynnwys sefydliadau sy'n cael un grant ar ei ben ei hun, a fyddai'n cyfateb yn agosach at fwriad y Gweinidog o ran polisi.¹⁵⁴

5.36. Mae Sefydliad y Cyfarwyddwyr hefyd yn feirniadol o'r ddarpariaeth hon, a dywedodd fod y cwmpas arfaethedig yn aneglur a bod dim modd ei gyfiawnhau, oherwydd gallai Llywodraeth Cymru gynnwys gofynion iaith Gymraeg fel amodau ar gyfer unrhyw grantiau a ddarperir i sefydliadau.¹⁵⁵

5.37. Nid yw'n glir ychwaith pryd y byddai hyn yn caniatáu i Lywodraeth Cymru osod dyletswyddau, hy dim ond yn ystod y flwyddyn / blynyddoedd ariannol y cafwyd arian cyhoeddus; am gyfnod penodol; am gyfnod amhenodol yn y dyfodol.

5.38. Mae'r materion eraill a godwyd yn y dystiolaeth yn cynnwys:

- y gallu i amrywio'r trothwy ac mai effaith chwyddiant fyddai cynnwys nifer gynyddol o ddarparwyr gwasanaethau dros amser;¹⁵⁶
- mae'r diffiniad o "arian cyhoeddus" a ddiffinnir yn y Gorchymyn arfaethedig yn eang iawn ac yn cynnwys amrywiaeth o ffynonellau gwahanol gan gynnwys arian y perir ei fod ar gael "yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol";¹⁵⁷
- gofynnwyd am eglurhad o ran a yw'n cynnwys cyllid a ddarperir gan awdurdodau lleol;
- yr heriau o enwi sefydliadau sy'n cael arian cyhoeddus gan amryw o ffynonellau;
- nid yw CGGC am i arian y loteri gael ei gynnwys yn y diffiniad o arian cyhoeddus. Mae eraill yn awyddus iddo gael ei gynnwys neu wedi holi pam nad yw wedi'i gynnwys;¹⁵⁸
- mydydd sector sy'n cael mwy na £200,000 gael eu cynnwys yng nghwmpas y Gorchymyn arfaethedig. Ym marn y Cyngor, bydd ei aelodau yn ei chael hi'n anodd talu'r costau pe bai'n rhaid iddynt gynyddu'r gwasanaethau dwyieithog a ddarperir ganddynt.

¹⁵³ Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, tystiolaeth ysgrifenedig, IG10(o)

¹⁵⁴ Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, tystiolaeth ysgrifenedig, IG10(o); hefyd Siambr Fasnach De Cymru - Cofnod y Trafodion, paragraff 73, 10 Mawrth 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

¹⁵⁵ Sefydliad y Cyfarwyddwyr, tystiolaeth ysgrifenedig, IG25(o)

¹⁵⁶ Cyngor Ynys Mon, tystiolaeth ysgrifenedig, IG32(o); Rhwydiaith, tystiolaeth ysgrifenedig, IG46(o)

¹⁵⁷ Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, IG16(o); Cymdeithas y Cyfreithwyr, tystiolaeth ysgrifenedig, IG51(o)

¹⁵⁸ Urdd Gobaith Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, IG8(o)

Profiadau cenhedloedd a rhanbarthau eraill

5.39. Yn ei lythyr at y Pwyllgor nododd Comisiynydd yr Iaith Wyddeleg nad yw'r Ddeddf Ieithoedd Swyddogol yn caniatáu iddo nodi rhai personau fel cyrff cyhoeddus at ddibenion y Ddeddf os ydynt yn cael arian cyhoeddus.¹⁵⁹ Mae'r meini prawf canlynol yn gymwys:

- "A body, organisation or group that receives 50% or more of its current expenditure directly from a Government Minister, a Government Department, the Central Fund or a public body under the Act."¹⁶⁰

5.40. Yng Nghatalonia, fel y nodwyd uchod,¹⁶¹ defnyddir dull graddol o gydymffurfio â deddfwriaeth, gyda mwy o ddisgwyliadau ar fentrau mwy. Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd Mr Joan, Ysgrifennydd Catalonia dros Bolisi Iaith:

"If, for example, you have 100 employees, it is more common to have a proportion of them who can use Catalan without any problems. You can then provide services in Catalan more easily."¹⁶²

"In the case of small enterprises, we thought that it would be a little more difficult, but our aim is to help the enterprises in their ability to offer services in Catalan in all cases. However, we do not want to punish small enterprises, in particular, or put pressure on them. We wish to help them and to make it easy for them to comply with the law."¹⁶³

Tystiolaeth gan y Gweinidog

5.41. Eglurodd y Gweinidog y rheswm dros gynnwys trothwy ariannol fel y maen prawf ym mharagraff (e), a dywedodd:

"I said that the word 'substantial' could not be used, but that was the feeling, namely that only bodies in receipt of substantial public funds should come within the scope of this legislation. I am sure that this will be a talking point, but £200,000 seems to us to be a reasonable bar to use to judge whether a body should be included. It is a fairly hefty sum of money, and so you are not likely to be caught by this if you happen to be in receipt of a grant one year but not in another. The whole idea behind the legislation is to provide certainty and to build over a long time with organisations the idea of equality of service through Welsh and English. It is therefore not the intention to catch somebody one year and let them fall out the next year. By placing the bar fairly high, you are talking about organisations that are here for the long term."¹⁶⁴

¹⁵⁹ Gweler hefyd paragraff 3.74 uchod

¹⁶⁰ Comisiynydd yr Iaith Wyddeleg, tystiolaeth ysgrifenedig, IG2(c); Merched y Wawr, tystiolaeth ysgrifenedig, IG15(o)

¹⁶¹ Gweler hefyd paragraff 3.79 uchod

¹⁶² Cofnod y Trafodion, paragraff 67, 5 Mai 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

¹⁶³ Ibid, paragraff 68

¹⁶⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 97, 24 Chwefror 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

5.42. Eglurodd y Gweinidog y gallai unrhyw drothwy ariannol a gaiff ei gynnwys mewn Mesur yn y dyfodol fod yn unrhyw swm uwchlaw'r trothwy o £200,000 neu ei amrywio i fod yn unrhyw swm uwch dros amser (ee drwy reoliadau Gweinidogion), ond heb fod yn is na'r hyn a ddarperir yn y Gorchymyn arfaethedig. Eglurodd fod angen trothwy am y rheswm canlynol:

“Were we not to have a limit at all, it would open the debate on whether individual companies who are in receipt of a grant might suddenly fall within the scope of the legislation and be subject to duties and so on.”¹⁶⁵

5.43 Dywedodd y Gweinidog nad yw'r darparwyr gwasanaethau a fyddai'n cael eu cynnwys o dan y trothwy o £200,000 wedi'u henwi hyd yn hyn, gan mai unrhyw Fesur dilynol fyddai'n ymwneud â phwy a gaiff eu cynnwys.¹⁶⁶

Mewn ymateb i'r sylwadau a wnaed gan CGGC nad oedd £200,000 yn grant mawr iawn ar gyfer rhai sefydliadau'r trydydd sector, roedd y Gweinidog yn derbyn ei bod yn bosibl y byddai rhai sefydliadau bach iawn yn dod o dan gwmpas paragraff (e). Pan ofynnwyd iddo a ddylid cynnwys sefydliadau bach y trydydd sector yn y cwmpas hwn, dywedodd y Gweinidog:

“All that I am saying is that £200,000 per annum, which is a sum that can be increased over the years, is still a substantial amount of public money, and it is therefore right and proper that such organisations be considered to fall within the scope of any future Measures, with any duties that they might impose.”¹⁶⁷

5.44. Awgrymodd y Gweinidog yn ei dystiolaeth mai'r personau roedd yn bwriadu iddynt ddod o dan y cwmpas hwn oedd y rheini sy'n cael symiau rheolaidd yn hytrach nag un taliad ar ei ben ei hun, ond roedd yn agored i awgrymiadau o ran sut y gellir egluro hyn. Nid oedd y Gweinidog yn derbyn awgrym y CBI y dylid ei ddiwygio i'r rheini sy'n cael arian ym mhob blwyddyn ariannol oherwydd byddai ond yn gymwys i sefydliadau sy'n cael £200,000 y flwyddyn am byth.

5.45. Aeth y Gweinidog ymlaen i egluro y byddai rhwystrau ymarferol yn bodoli o ran ceisio gosod y dyletswyddau hynny ar sefydliad am un flwyddyn ond nid y flwyddyn wedyn.

“The whole point of developing Welsh-language schemes is that you have to develop processes and staffing that are able to provide that level of service, which is something that can only be done over a number of years. It is inconceivable that any future Government would want to impose any duties on the sort of individual companies or bodies that, over time, will sometimes fall within and sometimes outside the threshold.”¹⁶⁸

¹⁶⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 68, 28 Ebrill 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

¹⁶⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 68, 28 Ebrill 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

¹⁶⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 109, 28 Ebrill 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

¹⁶⁸ Ibid, paragraff 68

“What I am trying to suggest is that these are organisations that are in place for a period of time; you cannot develop your Welsh-language services and processes within a particular year.”¹⁶⁹

5.46. Nid yw'r Gweinidog o blaid diwygio paragraff (e) i eithrio sectorau penodol, er enghraifft banciau, o gwmpas y paragraff ac eglurodd y byddai'n beryglus dechrau eithrio sectorau penodol o'r Ddeddf.¹⁷⁰ (gweler trafodaeth bellach ar “Sefydliadau Ariannol” yn paragraffau 5.133 – 5.142 isod).

5.47. Eglurodd cynghorwr cyfreithiol y Gweinidog mai dim ond mewn perthynas â'r flwyddyn y cafwyd yr arian cyhoeddus y gellir gosod y ddyletswydd:

“As a matter of practicality, if a body receives a truly one-off grant, it is very difficult, in practical terms, to impose a duty on it within that financial year and to get it to comply with that duty within the financial year. Therefore, there is a protection of practicality in the drafting here. It would be very difficult for the Assembly to achieve that goal within the year and if the body did not receive over £200,000 of public money the following year the duty could not attach to that body or could not be enforceable beyond the financial year of the receipt of the money.”¹⁷¹

5.48. Nid oedd y Gweinidog o'r farn y byddai defnyddio nifer y cyflogeion fel trothwy amgen yn syniad da:

“I would contest that this figure has the benefit of simplicity and clarity, whereas the number of employees may very well shoot up or down, depending on the nature of the organisation. Would you include the people who are sub-contracted into the company, whatever that organisation may be in the future?”¹⁷²

5.49. Dywedodd y Gweinidog fod arian y loteri wedi'i eithrio o'r dehongliad o “arian cyhoeddus” sy'n ymddangos ym mharagraff (e) oherwydd bod arian y loteri y tu allan i'r diffiniad arferol o arian cyhoeddus.¹⁷³

Ein barn ni

5.50. Cefnogwn amcan sylfaenol paragraff (e) o Fater 20.1 a chredwn ei fod yn briodol mewn egwyddor i osod dyletswyddau ar sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus ac sy'n cael arian cyhoeddus.

5.51. Fodd bynnag, mae'r ffordd y mae'n bwriadu cynnwys sefydliadau o'r fath, drwy ddefnyddio trothwy ariannol mympwyol, yn destun pryder i ni, a hynny gan nad ydym yn credu bod unrhyw resymeg argyhoeddiadol wedi'i roi dros ei bennu ar lefel o £200,000, felly argymhellwn na chaiff unrhyw

¹⁶⁹ Ibid, paragraff 97

¹⁷⁰ Ibid, paragraff 146

¹⁷¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 99, 28 Ebrill 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

¹⁷² Ibid, paragraff 74

¹⁷³ Ibid, paragraff 114

gyfyngiad ariannol ei gynnwys yn y Gorchymyn arfaethedig – dylid ei nodi yn y Mesur.

5.52. Teimlwn mai ychydig iawn o dystiolaeth a gyflwynwyd i egluro'r bwriad y tu ôl i'r cwmpas ac i gyfiawnhau'r meini prawf a argymhellwyd. Ni theimlwn fod unrhyw ddewisiadau amgen argyhoeddiadol wedi'u cynnig a fyddai'n rhoi ateb boddhaol.

5.53. Rydym yn cydnabod nad bwriad y Gweinidog o reidrwydd yw gosod dyletswyddau ar bob sefydliad sy'n dod o fewn y diffiniad o baragraff (e). Credwn fod hyn yn gywir oherwydd ni fyddai'n briodol gosod dyletswyddau ar sefydliad sy'n cael un grant ar ei ben ei hun o £200,000 mewn un flwyddyn ac sy'n darparu'r hyn y gellir ei ddehongli fel gwasanaeth i'r cyhoedd.

5.54. Rydym wedi ystyried nifer o opsiynau a allai cyflawni'r amcan o dargedu'r rheini sy'n cael symiau rheolaidd o arian cyhoeddus yn hytrach nag un taliad ar ei ben ei hun. Gellir gwneud hyn drwy gyfeirio at y swm a dderbynnir bob blwyddyn am fwy na blwyddyn neu'r cyfanswm dros gyfnod o fwy na blwyddyn neu gyfartaledd dros flynyddoedd dilynol. Nid yw'n glir o'r dystiolaeth beth yw'r goblygiadau o ran gosod dyletswyddau ac am ba hyd ee am gyfnod cyfyngedig neu am byth, er ein bod yn derbyn fod hwn yn fater y dylid ei drafod yn ystod y cyfnod Mesur.

5.55. Credwn fod gwerth i'r dull a fabwysiadwyd gan genhedloedd a rhanbarthau eraill lle defnyddir meini prawf amgen, fel y dull a fabwysiadwyd gan y Catalaniaid, lle y mae deddfwriaeth yn sail i ofynion ond bod lefel y dyletswyddau a osodir yn cyfateb i nifer y cyflogeion.

5.56. Fel y nodir uchod, y dull a ffafrir gennym ni yw dileu'r holl gategorïau ym Mater 20.1. Byddai hyn yn osgoi'r angen i gynnwys y ddarpariaeth ym mharagraff (e) yn ystod y cyfnod hwn o'r Gorchymyn arfaethedig, sydd yn defnyddio maen prawf diffygiol, a hynny er mwyn darparu digon o hyblygrwydd i sicrhau y bydd y ddarpariaeth yn ddigon eang i ateb gofynion y Cynulliad yn y dyfodol.

5.57. Credwn y dylai'r ddarpariaeth hon, sy'n ceisio categoreiddio'r rheini sy'n cael arian cyhoeddus yn rheolaidd, gael ei diffinio'n fanylach ac yn fwy synhwyrol mewn Mesurau dilynol. Unwaith eto, dylid eu henwi drwy gyfeirio at natur y gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd, maint y sefydliad dan sylw a'i statws cyfreithiol, yn hytrach na throthwy ariannol mympwyol.

5.58. Dylai unrhyw gyfeiriad at "arian cyhoeddus" yn y Gorchymyn arfaethedig gynnwys arian y loteri yn ogystal ag unrhyw arian a geir gan gyrff cyhoeddus.

5.59. I gloi, nid ydym yn fodlon bod y rhain yn atebion ymarferol nac yn cynrychioli'r opsiwn gorau er mwyn sicrhau y caiff yr amcan sylfaenol ei gyflawni.

Paragraff (f) “personau sy’n goruchwyllo rheoleiddiad proffesiwn, diwydiant neu gylch cyffelyb arall o weithgaredd”

5.60. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi dwy enghraifft o'r mathau o bersonau neu gyrff sy'n dod o dan baragraff (f): Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac yn y blaen. Mae'n egluro:

“Byddai ‘cylch cyffelyb arall o weithgaredd’ yn cynnwys, er enghraifft, cyrff sy'n rheoleiddio gallu aelod o'r cyhoedd i ennill bywoliaeth mewn sector penodol, disgyblaeth benodol neu faes gweithgaredd penodol.”¹⁷⁴

Mae llawer o'r cyrff hyn eisoes yn ddarostyngedig i Ddeddf 1993.

5.61. Cododd y Sefydliad Siartredig Marchnata bwynt penodol ynghylch is-adran (f) o Fater 20.1 o'r Gorchymyn arfaethedig:

“We note that [20.1 (f)] imposes duties upon “persons who oversee the regulation of a profession, industry or other similar sphere of activity”. We do not oppose this in principle but would seek clarification of the definition of such persons. Professional bodies are normally based in England and whilst we support the view that our Wales-based staff should provide, within reason, a bilingual service, much of The Institute's support for members and regulation of members originates from England and therefore should not fall within the scope of the legislation.”¹⁷⁵

Ein barn ni

5.62. O gofio bwriad y Gweinidog i adeiladu ar ysbryd Deddf 1993, cytunwn ei fod yn briodol cynnwys personau sy'n goruchwyllo rheoleiddiad proffesiwn, diwydiant neu gylch cyffelyb arall o weithgaredd o fewn cwmpas y Mater.

Paragraff (g) “landlordiaid cymdeithasol”

5.63. Mae'r Gorchymyn arfaethedig yn nodi y caiff ‘landlordiaid cymdeithasol’ (paragraff (g)) ei ddiffinio drwy gyfeirio at y diffiniad ym maes 11. Caiff y diffiniad hwn ei gynnwys yn Atodlen 5 i Ddeddf 2006 drwy Fater 11.1 sydd wedi'i gynnwys yng Ngorchymyn Cynulliad cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai) 2009.

5.64. Mae Cartrefi Cymunedol Cymru yn cefnogi'r cynnig i gynnwys paragraff (g) “landlordiaid cymdeithasol” o fewn cwmpas Mater 20.1.

Ein barn ni

5.65. Cytunwn y dylai landlordiaid cymdeithasol ddod o fewn cwmpas y Gorchymyn arfaethedig (fel y'i diffinnir ym mharagraff (d)).

¹⁷⁴ GPO-10-EM, paragraff 38

¹⁷⁵ Sefydliad Siartredig Marchnata, tystiolaeth ysgrifenedig, IG35(o)

Paragraff (h) personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac unrhyw wasanaethau eraill sy'n gysylltiedig

5.66. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Gorchymyn arfaethedig yn nodi'r canlynol:

“Byddai paragraff (h) yn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu i osod dyletswyddau ar bersonau sy'n darparu i'r cyhoedd yng Nghymru wasanaethau rhestredig penodol, yn ogystal â gwasanaethau cysylltiedig. Mae hyn yn cwmpasu'r gwasanaethau allweddol sy'n cael eu darparu i'r cyhoedd yn ogystal â gwasanaethau cysylltiedig. Mae seilwaith sectorau penodol a newidiadau yn y modd y mae gwasanaethau cyhoeddus wedi'u cyflenwi wedi golygu bod rhai rhannau o sectorau penodol, a'r rheini'n rhannau sy'n wynebu'r cyhoedd, wedi syrthio y tu allan i gwmpas Deddf 1993. Mae'r paragraff hwn wedi'i lunio i roi digon o hyblygrwydd i'r Cynulliad allu deddfu i osod dyletswyddau ar gyrff, hyd yn oed os bydd rhyngwyneb cyhoeddus gwasanaethau cyhoeddus allweddol yn newid dros amser...”¹⁷⁶

“Mae cafeat pwysig mewn perthynas â pharagraff (h) sy'n cynnig cyfyngu cymhwysedd y Cynulliad yn y cyd-destun hwn - dim ond deddfu i osod dyletswyddau ar ddarparwyr gwasanaethau mewn cysylltiad â'r gwasanaethau a grybwyllwyd y byddai'r Cynulliad yn cael ei wneud, ac wedyn ddim ond pan fo'r gwasanaethau hynny'n cael eu cyflenwi yng Nghymru, ac nid mewn cysylltiad â'u swyddogaethau neu eu gweithgareddau eraill (oni fyddant yn dod fel arall o fewn y cymhwysedd a roddwyd i'r Cynulliad gan baragraffau (a) i (g) ac (i)).”¹⁷⁷

5.67. Mynegwyd pryder gan sawl ymatebydd parthed cwmpas paragraff (h) sy'n gallu bod yn eang iawn gan ei fod yn cynnwys yr ymadrodd “sy'n darparu i'r cyhoedd y mathau canlynol o wasanaethau neu wasanaethau eraill sy'n gysylltiedig ag unrhyw un neu ag unrhyw rai o'r gwasanaethau hynny”.¹⁷⁸

5.68. Bydd yn ofynnol i bersonau sy'n darparu i'r cyhoedd y mathau canlynol o wasanaethau gydymffurfio â'r rhwymedigaethau a gyflwynwyd o dan y Gorchymyn arfaethedig:

- (i) gwasanaethau nwy, dŵr neu drydan (gan gynnwys cyflenwi, cynhyrchu, trosglwyddo neu ddsbarthu);
- (ii) gwasanaethau carthffosiaeth (gan gynnwys gwaredu carthion);
- (iii) gwasanaethau post a swyddfeydd post;
- (iv) gwasanaethau telathrebu;
- (v) addysg, hyfforddiant neu gyfarwyddyd gyrfaoedd (gan gynnwys gwasanaethau i annog, i alluogi neu i gynorthwyo cymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant neu gyfarwyddyd gyrfaoedd);

¹⁷⁶ GPO-10-EM, paragraff 40

¹⁷⁷ Ibid, paragraff 42

¹⁷⁸ Mobile Broadband Group, tystiolaeth ysgrifenedig, IG48(o); British Telecom, tystiolaeth ysgrifenedig, IG55(o); Sefydliad y Cyfarwyddwyr, tystiolaeth ysgrifenedig, IG25(o)

(vi) gwasanaethau rheilffyrdd;

(vii) gwasanaethau i ddatblygu neu i ddyfarnu cymwysterau addysgol neu alwedigaethol.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

5.69. Eglurodd y Gweinidog mai diben cynnwys gwasanaethau cysylltiedig eraill yn y ddarpariaeth hon oedd sicrhau ei bod yn ddigon eang ar gyfer y dyfodol er mwyn cynnwys unrhyw newidiadau yn y ffordd y darperir y gwasanaethau hyn i'r cyhoedd.¹⁷⁹

Ein barn ni

5.70. Nodwn eglurhad y Gweinidog fod cynnwys yr ymadrodd “neu wasanaethau eraill sy'n gysylltiedig ag unrhyw un neu ag unrhyw rai o'r gwasanaethau hynny” ym mharagraff (h) yn sicrhau bod y cymhwysedd deddfwriaethol yn ddigon eang i ateb gofynion y Cynulliad yn y dyfodol. Cytunwn y dylai unrhyw wasanaethau eraill sy'n ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus o'r math a restrir fod o fewn cwmpas y Mater.

(h)(i) gwasanaethau nwy, dŵr neu drydan

5.71. Ni chyflwynodd Cymdeithas Manwerthu Ynni unrhyw dystiolaeth i'r Pwyllgor gan fod barn yr aelodau ar y Gorchymyn arfaethedig yn amrywio. Yn absenoldeb un farn benodol gan y diwydiant, cafwyd cyflwyniadau unigol gan rai o'r aelodau.

5.72. Mae Nwy Prydain yn cefnogi egwyddor y Gorchymyn arfaethedig, ond nid yw am gael ei gynnwys o dan unrhyw Fesur yn y dyfodol am ei fod o'r farn y byddai dull gwirfoddol yn fwy cynhyrchiol. Mae'n dadlau hefyd na fyddai unrhyw ddeddfwriaeth yn cynnig amodau cyfartal gan fod “lled a chwmpas y sefydliadau sy'n gweithredu yn y maes hwn yn enfawr”. Mae'n gwrthwynebu'r syniad o gael deddfwriaeth ar sail cost a'r posibilrwydd y byddai'n lleihau'r amrywiaeth o wasanaethau Cymraeg sydd ar gael i'r cyhoedd.

5.73. Mae RWE Npower hefyd yn ffafrio'r dull gwirfoddol, drwy ddadlau nad oes galw am wasanaethau Cymraeg.¹⁸⁰ Ni fynegodd Scottish Power unrhyw farn ond cafwyd tystiolaeth gref gan y cwmni o lwyddiant ei gynllun iaith Gymraeg gwirfoddol a lansiwyd am y tro cyntaf ym mis Ebrill 1997.¹⁸¹ Trafodwyd ein casgliadau ar y pryderon a'r dadleuon hyn yn adran 3 uchod.

5.74. Mae E.ON yn cefnogi egwyddor y Gorchymyn arfaethedig ac yn cytuno y dylai ddod o dan gwmpas y Gorchymyn arfaethedig gan fod cyflenwi trydan a nwy yn wasanaethau hanfodol i ddefnyddwyr yng Nghymru. Mae'n awyddus

¹⁷⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 168, 28 Ebrill 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

¹⁸⁰ RWE npower, tystiolaeth ysgrifenedig, IG68(o)

¹⁸¹ Scottish Power, IG64(o), IG12(a)

i sicrhau y bydd unrhyw Fesurau yn y dyfodol yn caniatáu hyblygrwydd wrth gyflawni'r dyletswyddau.¹⁸²

5.75. Mae E.ON hefyd yn amlygu dau anghysonder yng nghwmpas paragraff (h):

- Dim ond nwy a thrydan y mae'n ei gynnwys gan eithrio olew, LPG a biomas. Roedd E.ON o'r farn y dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru bennu cwmpas y ddeddfwriaeth yn hytrach nag eithrio cyflenwyr ynni penodol o'r Gorchymyn arfaethedig.
- Mae'n cynnwys cynhyrchu trydan er na ddarperir unrhyw wasanaeth i ddefnyddwyr yn uniongyrchol.¹⁸³

Tystiolaeth gan y Gweinidog

5.76. Eglurodd y Gweinidog gwmpas paragraff (h)(i):

“Electricity services are included, and electricity can be created by any and every form of energy source, including biomass, oil and anything else. Those companies that provide electricity to homes and businesses would fall within the scope of the legislation. As for energy companies generally, all those that operate power lines and pipelines already have a public duty imposed on them with regard to provision. It is therefore right and proper that they also fall within the scope of the legislation.”¹⁸⁴

5.77. Pan ofynnwyd a ddylid ehangu cwmpas paragraff (h) i gynnwys cyflenwyr ynni, nid oedd y Gweinidog yn cytuno:

“you would be creating a difficult situation in terms of small providers and small, private companies, and I think that that would create more problems than it would solve”.¹⁸⁵

Ein barn ni

5.78. Credwn y dylid cynnwys pob gwasanaeth ynni, yn ogystal â dŵr, o fewn cwmpas y Mater. Ni ddylai gael ei gyfyngu i wasanaethau nwy, dŵr a thrydan yn unig. Byddai hyn yn sicrhau bod y ddarpariaeth hon yn ddigon eang ar gyfer y dyfodol ac yn dileu unrhyw bosibilrwydd o anghysonderau o fewn y sector.

(h)(ii) gwasanaethau carthffosiaeth

5.79. Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, cadarnhaodd y Gweinidog nad ei fwriad oedd cynnwys busnesau carthffosiaeth lleol bach. Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth yn uniongyrchol gan wasanaethau dŵr na gwasanaethau carthffosiaeth.

¹⁸² E.ON, tystiolaeth ysgrifenedig, IG57(o)

¹⁸³ Ibid

¹⁸⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 189, 28 Ebrill 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

¹⁸⁵ Ibid, paragraff 191

Lesley Griffiths: “In the list that Mick [Bates] referred to in category (h), sewerage services are included. Do you intend to capture one-man-band businesses that empty cesspits?”

Minister – “Water and sewerage services are within the scope of the 1993 Act anyway. The technical answer is that it is a matter for any Measures that follow. However, I think that ‘no’ is the answer.”¹⁸⁶

Ein barn ni

5.80. Cytunwn y dylid cynnwys gwasanaethau carthffosiaeth o fewn cwmpas y Mater hwn.

5.81. Nodwn fod y Gweinidog yn pwysleisio nad ei fwriad yw gosod dyletswyddau ar wasanaethau carthffosiaeth bach.

(h) (iii) “gwasanaethau post a swyddfeydd post”

5.82. O dan y pwerau a roddir yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993, hysbysodd Llywodraeth Cymru Grŵp y Post Brenhinol ccc y byddai'n ddarostyngedig i gynllun gorfodol yn y dyfodol.¹⁸⁷

5.83. Nododd Grŵp y Post Brenhinol ei fod yn awyddus bod cwsmeriaid yn defnyddio'r ddarpariaeth iaith Gymraeg a gynigir ar hyn o bryd, sy'n siomedig o isel. Mae Grŵp y Post Brenhinol yn cefnogi barn y CBI ar y Gorchymyn arfaethedig ac yn ffafrio'r dull gwirfoddol yn hytrach na deddfwriaeth ond nid yw'n credu y byddai gofyniad statudol yn rhoi unrhyw faich newydd arno.

5.84. Eglurodd y Gweinidog fod y diffiniad o wasanaethau post yn dod o adran 125 o Ddeddf Gwasanaethau Post 2000. Ni heriwyd hyn mewn tystiolaeth.¹⁸⁸

Ein barn ni

5.85. Credwn ei fod yn briodol bod gwasanaethau post yn dod o fewn cwmpas y Mater.

5.86. Mae un Aelod o'r Pwyllgor yn pryderu ynghylch effaith unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol ar hyfywedd Swyddfeydd Post bach heb unrhyw gymorth ychwanegol, ac y dylid ystyried hyn mewn unrhyw Fesurau dilynol (gweler hefyd ein sylwadau i gloi, adran 10 isod).

¹⁸⁶ Cofnod y Trafodion, paragraffau 186 - 189, 24 Chwefror 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

¹⁸⁷ Grŵp y Post Brenhinol, tystiolaeth ysgrifenedig, IG28(o); gweler Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrrff Cyhoeddus) 2008/1851

¹⁸⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 191, 24 Chwefror 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

(h)(iv) “gwasanaethau telathrebu”

5.87. Mae'r Mobile Broadband Group, British Telecom a'r UK Competitive Telecommunications Association yn credu y dylid dileu “gwasanaethau telathrebu” o'r Gorchymyn arfaethedig. Mae'n well ganddynt y dull gwirfoddol o ddarparu gwasanaethau iaith Gymraeg.¹⁸⁹

5.88. Os caiff cwmnïau telathrebu eu cynnwys yng nghwmpas y Gorchymyn arfaethedig, gofynnodd British Telecom i bob cwmni o'r fath gael ei gynnwys er mwyn sicrhau amodau cyfartal i bawb. Gwnaed yr un pwynt gan y CBI hefyd, a nododd y dylai hefyd fod yn glir iawn y bydd yn gallu sicrhau cydymffurfiad ar draws sector mor amrywiol.

5.89. Gofynnodd y CBI am eglurhad brys o “wasanaethau telathrebu” er mwyn gallu cynnwys amrywiaeth eang iawn o gynnyrch a gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd gan y sector preifat.

5.90. Yn ogystal, nododd y Mobile Broadband Group y byddai gwneud gwasanaethau dwyieithog yng Nghymru'n ofynnol yn rhwystro cynnydd wrth ddatblygu band eang symudol ac yn arwain at ddiffyg budd i Gymru. Dywedodd hefyd y gallai deddfwriaeth arwain at werthu llai o amrywiaeth o ffonau symudol yng Nghymru, a hynny am fwy o gost:

“We are approaching it from what our customers are telling us that they really want—what their priorities are. I have to say that the priorities of customers in Wales, very predominantly, are the same as the priorities of customers elsewhere in the UK, and those priorities are to reduce costs, to make the service affordable, to improve coverage and to have a wide range of affordable handsets. So, it is very much driven by the priorities of our customers.”¹⁹⁰

5.91. Eglurodd y Mobile Broadband Group fod y gwasanaeth iaith Gymraeg a ddarperir ar hyn o bryd yn gyfyngedig i'r ystad fanwerthu. Nid oes unrhyw elfen iaith Gymraeg i'r gwasanaeth rhwydwaith symudol na'r llinell gymorth gwasanaethau i gwsmeriaid.¹⁹¹

5.92. Mae'r Mobile Broadband Group o'r farn y byddai'n fwy effeithiol hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg drwy ddatblygu offer a chymwysiadau newydd y gellir eu llwytho ar ffonau cwsmeriaid.¹⁹²

“It is not about legislation forcing the manufacturers and the telecommunications providers to second-guess what you think customers want through legislation; it is about providing them with the tools by which they tailor it to their own use.”¹⁹³

¹⁸⁹ Mobile Broadband Group, tystiolaeth ysgrifenedig, IG48(o); British Telecom, tystiolaeth ysgrifenedig, IG55(o); Cymdeithas Telathrebu Cystadleuol y DU, tystiolaeth ysgrifenedig, IG53(o)

¹⁹⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 33, 31 Mawrth 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

¹⁹¹ Ibid, paragraff 23

¹⁹² Mobile Broadband Group, tystiolaeth ychwanegol, IG11(a)

¹⁹³ Cofnod y Trafodion, paragraff 65, 31 Mawrth 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

5.93. Yn ei dystiolaeth ychwanegol i'r Pwyllgor, anghytunodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg â'r dadleuon a gyflwynwyd ar sail cost a chyflwynodd ymchwil ar gostau cymharol prisiau ar gyfer cwsmeriaid ffonau symudol yng Ngwlad Belg a'r DU, a dadleuir nad yw'r ymchwil hwn yn profi'r awgrym bod prisiau'n uwch yng Ngwlad Belg oherwydd gwasanaethau amlieithog.¹⁹⁴ Cyflwynwyd hefyd dystiolaeth storïol gan eu cefnogwyr ynghylch eu siom o ganlyniad i ddiffyg gwasanaethau iaith Gymraeg gan gwmnïau ffonau symudol.¹⁹⁵

5.94. Cafwyd tystiolaeth gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg hefyd ar y graddau y mae cwmnïau ffonau symudol yn defnyddio arwyddion Cymraeg yn eu siopau yng Nghaerdydd (o'r rhai yr ymwelwyd â hwy, roedd gan rai arwyddion Cymraeg ond nid oedd hyn yn wir am y rhan fwyaf ohonynt).¹⁹⁶

5.95. Dywedodd y Mobile Broadband Group hefyd y byddai mesurau o'r fath yn atal llawer o ddarparwyr telathrebu llai rhag cynnig gwasanaethau yng Nghymru o gwbl, a hynny'n cael effaith andwyol ar ddefnyddwyr Cymru.¹⁹⁷

5.96. Dadleuodd y Mobile Broadband Group hefyd mai cylch gwaith llywodraeth y DU ac Ofcom yn unig ddylai fod polisi telathrebu oherwydd caiff systemau a rheoliadau presennol eu sefydlu ar lefel y DU gyfan.¹⁹⁸

5.97. Cafwyd tystiolaeth gan Lywodraeth Catalonia ar ei phrofiad o ymdrin â chynhyrchwyr a gweithredwyr ffonau symudol mawr i gyflwyno Catalaneg yn newislen eu terfynellau. Mae'n ofynnol ar Lywodraeth Catalonia i feithrin a hyrwyddo presenoldeb cynnyrch a gwybodaeth yng Nghatalaneg ar rwydweithiau gwybodaeth telematig o dan erthygl 29 o'r Ddeddf Polisi Iaith. Mae ganddi gytundeb â chynhyrchwyr ffonau symudol mawr i gyflwyno Catalaneg yn raddol i'w dyfeisiau a'i gwasanaethau i gwsmeriaid. Mae gofynion cyfreithiol yn sail i'r rhain er mwyn sicrhau bod modd cyfathrebu â chwsmeriaid yng Nghatalaneg.

5.98. Eglurodd Mr Jordi Bosch, yr Ysgrifennydd dros Delathrebu, sut y daethpwyd i'r cytundeb hwn dros y 10 i 15 mlynedd diwethaf, gyda chymorth ariannol sylweddol gan Lywodraeth Catalonia, a'r defnydd o gaffael cyhoeddus i sicrhau newid.¹⁹⁹ Nododd hefyd:

“However, it is always important to have legislation so that you can force IT and telecommunication companies to discuss with you the terms of compliance. Once they agree that they need to act according to the legislation, we can forget the legislation and start to discuss how we can help them to comply.”²⁰⁰

5.99. Cyflwynwyd dadleuon hefyd i weithredwyr ffonau symudol wedi'u seilio ar y cyfle busnes o wasanaethu'r farchnad iaith Catalaneg. O ran setiau llaw

¹⁹⁴ Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, tystiolaeth ychwanegol, IG4(a)

¹⁹⁵ Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, tystiolaeth ychwanegol, IG10(a)

¹⁹⁶ Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, tystiolaeth ychwanegol, IG4(a)

¹⁹⁷ Mobile Broadband Group, tystiolaeth ysgrifenedig, IG48(o)

¹⁹⁸ Ibid

¹⁹⁹ Cofnod y Trafodion, paragraffau 31-35, 5 Mai 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

²⁰⁰ Ibid, paragraff 47

iaith Catalaneg, bu'n gweithio gyda gweithredwyr i'w hargyhoeddi o'r galw. Yn 2007 roedd 10 set llaw ar gael, ac erbyn heddiw mae yna fwy na 100 o setiau llaw ar gael â dewislen yng Nghatalaneg. Credwyd y byddai datblygiadau mewn technoleg ac ymateb i farchnad amlieithog fyd-eang yn ei gwneud yn gynyddol haws i gynnwys opsiynau iaith mewn dyfais ar ôl ei roi i'r cwsmer.

Tystiolaeth y Gweinidog

5.100. Eglurodd y Gweinidog y rheswm dros gynnwys gwasanaethau telathrebu yn y rhestr arfaethedig o gategorïau o dan Fater 20.1. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried gwasanaethau telathrebu fel elfen hanfodol o'r ffordd rydym yn byw ac adlewyrchir hyn gan y datganiad yn San Steffan sy'n nodi y bydd yn rhaid darparu band eang drwy statud i bob cartref yn y DU.²⁰¹

5.101. Eglurodd bwysigrwydd y categori hwn i bobl ifanc yn benodol:

“We wanted to include this because the Welsh language, if it is to survive and prosper in the future, must be part of the lives of young people, who are the greatest users of new means of communication, in contrast with others that I could name, such as myself. It is important that the Welsh language is part of this new, exciting and developing world, and that is why these providers will come under the scope of the proposed LCO. However, what duties might be imposed is a matter for a Measure that will follow.”²⁰²

5.102. Nid oedd yn cytuno y byddai'n rhy gymhleth nac yn rhy ddrud i gwmnïau ffonau symudol ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg:

“With regard to mobile phone operators, many of these companies are international companies and they operate all over Europe. There is legislation in place in many countries regarding the language of choice. With some new mobile phones, you can choose an interface language, and those will include the language of Catalunya, Galicia and the Basque country, which are imposed by legislation in those countries, areas and regions. If that can be done in Galicia, why can it not be done in Wales?”²⁰³

5.103. Gofynnwyd i'r Gweinidog sut y byddai'n bosibl sicrhau bod pobl yn cydymffurfio â'r dyletswyddau a osodir ar gwmnïau telathrebu sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru neu'r DU, er enghraifft, Skype, a hynny mewn ffordd a fyddai'n sicrhau amodau cyfartal rhwng sefydliadau. Eglurodd cynghorwr cyfreithiol y Gweinidog y mathau o gyfryngau cyfreithiol sydd ar gael i sicrhau bod pobl yn cydymffurfio â deddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill:

“In terms of legal jurisdiction and enforcement, Assembly Measures apply in relation to Wales, but the legal jurisdiction of an Assembly Measure will be England and Wales. Therefore, persons based in

²⁰¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 160, 28 Ebrill 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

²⁰² Cofnod y Trafodion, paragraff 202, 24 Chwefror 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

²⁰³ Cofnod y Trafodion, paragraff 26, 28 Ebrill 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

England, for example, who are providing services in relation to Wales, but subject to duties under a Measure, could be the subject of enforcement action within the legal jurisdiction of England and Wales. Many international bodies will have a corporate presence in England and Wales in any event. Where persons are based outside of England and Wales but still provide services in relation to Wales, they can still be the subject of enforcement action. Both provisions in UK statutes within the different jurisdictions in the United Kingdom, but also in other jurisdiction statutes, allow for what is called 'mutual enforcement' of actions concluded in one country. Therefore, you can enforce, for example, a judgment that you receive in England and Wales, through mechanisms in another country. Therefore, that is a possibility at law.²⁰⁴

5.104. Nododd y Gweinidog fod y diffiniad o wasanaethau telathrebu wedi'i gynnwys yn y Gorchymyn arfaethedig, a'i fod yn deillio o ddau ddiffiniad sy'n ymddangos yn Neddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000²⁰⁵ a dywedodd iddo gael ei ddrafftio i gynnwys yr holl fathau o wasanaethau a ddarperir ac i sicrhau ei fod yn ddigon eang ar gyfer y dyfodol.

Ein barn ni

5.105. Cytunwn y dylai gwasanaethau telathrebu ddod o fewn cwmpas y Mater.

5.106. Nodwyd ein casgliadau ar lawer o'r pryderon a'r dadleuon a gyflwynwyd gan BT a'r Mobile Broadband Group ynghylch costau cydymffurfio, yr angen i sicrhau amodau cyfartal a'r diffyg galw, yn adran 3 uchod.

5.107. Fodd bynnag, nodwn y gallai fod yn her gosod dyletswyddau ar ddarparwyr gwasanaethau rhyngwyd rhyngwladol, sy'n dod o fewn y diffiniad a geir yn y Gorchymyn arfaethedig.

5.108 Mae ymagwedd Llywodraeth Catalonia tuag at wasanaethau telathrebu wedi creu argraff arnom, sy'n profi, er ei bod yn anodd newid meddylfryd y cwmnïau hyn, nid yw'n amhosibl gwneud hynny drwy fabwysiadu ymagwedd tymor canolig, graddol tuag at sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol. Fodd bynnag, credwn y dylid cynnal y drafodaeth hon wrth ystyried y cynigion ar gyfer Mesurau a sut y'u gweithredir.

(h) (vi) "gwasanaethau rheilffyrdd" ac eithrio gwasanaethau trafnidiaeth eraill

5.109. Mae Trenau Arriva Cymru yn gwrthwynebu trosglwyddo cymhwysedd deddfwriaethol heb ragor o wybodaeth am fwriad y Mesurau a wneir yn y dyfodol. Roedd yn holi pam nad oedd sefydliadau trafnidiaeth eraill yn cael eu

²⁰⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 42, 28 Ebrill 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

²⁰⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 196, 24 Chwefror 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

cynnwys, fel cwmnïau hedfan, meysydd awyr a chwmnïau bysiau²⁰⁶, ac yn gofyn pam bod diffyg eglurdeb ynghylch a fydd pob cwmni rheilffordd sy'n gweithredu yng Nghymru yn cael ei gynnwys o fewn cwmpas y ddeddfwriaeth.

5.110. Nid yw'r Gwasanaeth Ymholiadau Trenau Cenedlaethol yn gweld pwynt gorfodi cwmnïau pan nad oes llawer o alw am ei wasanaethau Cymraeg ac felly mae'n dymuno cael ei eithrio o gwmpas y Gorchymyn arfaethedig.²⁰⁷

5.111. Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn dadlau nad yw'r cynnig i gynnwys gwasanaethau rheilffyrdd, ond i beidio â chynnwys gwasanaethau bysiau, yn dilyn ymrwymiad y Gweinidog i egwyddor craidd y Gorchymyn arfaethedig, sef y dylai ganolbwyntio ar wasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd.

5.112. Cyflwynodd nifer o sefydliadau ac unigolion dystiolaeth i'r Pwyllgor yn galw am gynnwys pob math o drafnidiaeth gyhoeddus yn y Gorchymyn arfaethedig.²⁰⁸

5.113. Pan ofynnwyd i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ynglŷn â'r farn hon ac a oedd am weld gwasanaethau tacsï yn cael eu cynnwys yng nghwmpas y Gorchymyn arfaethedig, dywedodd nad oedd o'r farn y byddent yn cael eu cynnwys:

“Ni chredaf y byddai [dinesydd yn] ystyried gwasanaeth tacsï fel gwasanaeth cyhoeddus. Efallai nad yw hynny'n ddiffiniad gwyddonol ond, o'n profiad ni, wrth esblygu'r ddeddfwriaeth, mae hysbysu'r dinesydd o'r hyn sydd ar gael yn Gymraeg yn gam pwysig ymlaen.”²⁰⁹

5.114. Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd y gallai rhai cwmnïau bysiau ddod o dan baragraff (e) y Gorchymyn arfaethedig (“personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd sy'n derbyn cyfanswm o £200,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol”). Ar gais y Pwyllgor, cyflwynodd CLILC wybodaeth ynglŷn â'r swm o arian cyhoeddus a roddir i gwmnïau bysiau yng Nghymru ar ffurf cymorthdaliadau, a fyddai'n golygu y gallai rhai ddod o fewn cwmpas y Gorchymyn arfaethedig. Fodd bynnag, ni allai nodi pa gwmnïau bysiau unigol sydd wedi cael mwy na £200,000 o arian cyhoeddus:

“There are three grant schemes for bus operators in Wales which could provide grants of over £200,000 a year, namely:

- Local Transport Services Grant – total approx. £10.8M
- Concessionary Fares subsidies – budget for 2009/10 approx £52M
- Bus Services Operators Grant – approx. £18-20M.

²⁰⁶ Trenau Arriva, tystiolaeth ysgrifenedig, IG24(o)

²⁰⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 237, 17 Mawrth 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

²⁰⁸ Bwrdd yr Iaith Gymraeg, tystiolaeth ysgrifenedig, IG2(o); Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, tystiolaeth ysgrifenedig, IG9(o); Mudiadau Dathlu'r Gymraeg, tystiolaeth ysgrifenedig, IG6(a) ac eraill

²⁰⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 77, 3 Mawrth 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

The detailed information relating to the amount of grant funding provided to each bus company is not available from local authorities, as the funding is often administered elsewhere.”²¹⁰

5.115. Gwnaethom gais am sylwadau gan Gydffederasiwn Cludiant Teithwyr Cymru ar y mater hwn (Mai 2009). Er ei fod yn cefnogi egwyddor gyffredinol y Gorchymyn arfaethedig, mae'n credu bod y dull gwirfoddol o ddarparu gwasanaethau Cymraeg yn well na gosod gofynion cyfreithiol.²¹¹

5.116. Nid yw'n credu fod unrhyw un o'i gwmnïau'n dod o fewn cwmpas paragraff (e) oherwydd eu bod yn cael arian cyhoeddus drwy'r cynlluniau tocynnau rhatach, ac mae'n dadlau ei fod y tu allan i'r diffiniad o "arian cyhoeddus":

“The highly successful all-Wales Concessionary Fares Scheme was established through partnership with WAG, WLGA and bus operators. Following negotiations, a reimbursement formula was agreed, which pays operators for carrying concessionary pass holders on a 'no better, no worse off' basis. Payment of this money is, therefore, neither a publicly funded grant nor a subsidy, but a repayment for a service provided. The draft LCO refers solely to 'public money' and does not differentiate between straight forward grants or subsidies and other repayments.”²¹²

5.117. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi na chaiff personau sy'n cael arian cyhoeddus "am wasanaethau neu nwyddau a gyflenwyd ganddynt eu cynnwys o dan baragraff (e)".²¹³ Fodd bynnag, mae'n gywir na nodir hyn yn y Gorchymyn arfaethedig. Nid yw'n eglur a yw'r cynllun tocynnau rhatach yn dod o fewn cwmpas y Gorchymyn ai peidio.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

5.118. Wrth ymateb i'r cwestiwn ynghylch a yw cwmnïau bysiau yn dod o fewn cwmpas Mater 20.1, neu a ddylent ddod o fewn ei gwmpas, dywedodd y Gweinidog:

“In general terms, it is not the current intention of the Government to go after individual bus companies because of the fragmented nature of the service. That does not mean that certain bus companies might not come under the competence if that was deemed to be necessary...”²¹⁴

5.119. Yn y cyfarfod ar 28 Ebrill, eglurodd y Gweinidog y cwmpas ymhellach a pham nad oedd gwasanaethau bysiau wedi'u cynnwys:

“Some, but not all, aspects of railway services are included under the 1993 Act. For example, if I am correct, ticketing is not included,

²¹⁰ Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, tystiolaeth ychwanegol, IG9(a)

²¹¹ Conffederasiwn Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru, tystiolaeth ychwanegol, IG16(a)

²¹² Conffederasiwn Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru, tystiolaeth ychwanegol, IG16(a)

²¹³ GPO-10-EM, paragraff 37

²¹⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 161, 24 Chwefror 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

although it is probably the main interface with the public. Therefore, we have sought to provide consistency in the wording of the proposed Order. Buses are not mentioned, partly because they were not included in the 1993 Act. However, they could come within the scope of this legislation if the company in question was in receipt of public money via a contract with a local authority, for example, or indeed with the Assembly Government. We believe that we are talking about a plethora of bus companies, small and large, and the larger ones would often have contracts with public bodies, which might mean that they fall within the scope of the proposed Order.”²¹⁵

5.120. Eglurodd y Gweinidog y gallai rhai cwmnïau bysiau mwy sy'n cael arian drwy gynlluniau grant llywodraeth ganolog neu gynlluniau eraill ddod o fewn cwmpas y Gorchymyn arfaethedig o dan baragraff (e), ond y bydd eu cynnwys ai peidio yn drafodaeth ar gyfer y cyfnod Mesur. Fodd bynnag, nid oedd yn gallu enwi'r cwmnïau, ond dywedodd mai cwmnïau a fyddai'n gallu darparu lefel o wasanaeth dwyieithog fyddent, a'i bod yn iawn ac yn briodol eu bod yn dod o fewn cwmpas y ddeddfwriaeth hon.²¹⁶

5.121. Pan ofynnwyd sut y mae'r ffordd dameidiog hon yn cyd-fynd â'i ddadleuon am yr angen am gysondeb gwasanaeth o fewn sectorau ac o ran y dinesydd, cytunodd ei bod yn rhannol am y byddai cwmnïau llai yn cael trafferthion wrth geisio darparu gwasanaeth dwyieithog cyson.²¹⁷ Awgrymodd ein bod yn bosibl ac yn ddichonol gosod dyletswyddau ar wasanaethau rheilffyrdd am mai un contract canolog sydd gennych. Fodd bynnag, mae gwasanaethau bysiau yn fwy cymhleth oherwydd y gwahaniaethau.²¹⁸

5.122. Pan ofynnwyd pam nad oedd gwasanaethau meysydd awyr a gwasanaethau fferi wedi cael eu cynnwys o fewn cwmpas y Gorchymyn arfaethedig, dywedodd y Gweinidog:

“The simplest way to answer that is to say that there is political agreement on the categories that have been defined. I am not saying that there were political disagreements about anything else, but these are the areas that we defined as being most important.”²¹⁹

Ein barn ni

5.123. Nid ydym yn derbyn rheswm y Gweinidog dros beidio â chynnwys mathau eraill o drafnidiaeth, ac eithrio gwasanaethau rheilffyrdd, o fewn cwmpas y Gorchymyn arfaethedig fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd. Rydym yn gwrthod ei gyfiawnhad y byddai'n rhy gymhleth gynnwys rhai sectorau ac felly y dylent gael eu heithrio o'r cychwyn, yn arbennig gan y bydd rhai gweithredwyr cludiant yn dod o fewn paragraff (e) beth bynnag.

²¹⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 172, 28 Ebrill 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

²¹⁶ Ibid, paragraffau 176 and 184

²¹⁷ Ibid, paragraff 180

²¹⁸ Ibid, paragraff 184

²¹⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 204, 24 Chwefror 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

5.124. Credwn y dylid cael cysondeb ar gyfer yr holl sectorau cludiant cyhoeddus. Credwn y dylai fod gan y Cynulliad y cymhwysedd i ddeddfu i osod dyletswyddau ar gyrff sy'n cyflenwi gwasanaethau rheilffyrdd, bysiau a hedfan a gwasanaethau ar y môr i'r cyhoedd a'u cyfleusterau cysylltiedig. Os nad yw'r Gweinidog yn bwriadu ehangu cwrpas y Mater fel y nodir yn ein argymhelliad uchod (gweler paragraff 2.24), argymhellwn y dylid diwygio paragraff (h)(vi) i adlewyrchu ein barn ni.

5.125. Nodwn farn y Gweinidog na fyddai'n ymarferol disgwyl i rai o'r cwmnïau llai ddarparu gwasanaeth dwyieithog llawn. Mater i Fesurau dilynol fyddai penderfynu pa wasanaethau a gweithredwyr ddylai fod yn gaeth i ddyletswyddau.

(h) (v) a (vii) addysg, hyfforddiant neu gyfarwyddyd gyrfaoedd a gwasanaethau cymwysterau

5.126. Byddai paragraffau (h) (v) a (vii) o Fater 20.1 yn cynnwys gwasanaethau gyrfaoedd fel Gyrfa Cymru, learndirect, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru a byrddau arholi, fel CBAC. Nid yw'r Gorchymyn arfaethedig yn cynnwys materion addysg sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Mae gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol eisoes mewn perthynas ag addysg (Maes 5, Atodlen 5 o Ddeddf 2006) ac ymdrinnir â hynny mewn deddfwriaeth arall.

5.127. Croesawodd UCAC y ffaith bod paragraffau (h)(v) a (h)(vii) wedi cael eu cynnwys gan ei fod yn credu bod y rhain yn hanfodol yng ngoleuni datblygiadau addysgol fel y Llwybrau Dysgu 14-19, y Mesur Dysgu a Sgiliau, ac ati.²²⁰

5.128. Gofynnodd Rhieni Dros Addysg Gymraeg i gymalau sy'n ymwneud ag addysg gael eu cynnwys yn y Gorchymyn arfaethedig, yn benodol er mwyn gallu gwneud iawn am fethiannau Awdurdodau Addysg Lleol i fodloni'r gofynion o ran cynlluniau addysg Gymraeg. Teimlai Mentrau Iaith Cymru a Merched y Wawr hefyd y dylid cynnwys addysg "er mwyn sicrhau addysg cyfrwng Gymraeg i holl drigolion Cymru a mynediad i wersi Gymraeg."²²¹

5.129. Gofynnodd Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys sut y byddai'r gair "hyfforddiant" yn cael ei ddehongli, oherwydd bod nifer o sefydliadau'r trydydd sector yn darparu hyfforddiant i'w buddiolwyr, sy'n cynnwys cyrsiau anffurfiol iawn ar y naill law a chyrtsiau sy'n cynnig cymwyseddau sydd wedi eu hachredu'n llawn ar y llaw arall. Holodd a fyddai'r rhain yn ddarostyngedig i ddyletswyddau mewn Mesurau dilynol a chyfeiriodd at y mater o gost a gallu sefydliadau llai yn y trydydd sector - "this would again suggest a need for proportionality in the imposition of duties."²²²

²²⁰ UCAC, tystiolaeth ysgrifenedig, IG45(o); gweler hefyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg, tystiolaeth ysgrifenedig, IG2(o), paragraff 6

²²¹ Mentrau Iaith Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, IG4(o)

²²² Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO), tystiolaeth ysgrifenedig, IG43(o)

Tystiolaeth gan y Gweinidog

5.130. Mae'r Gweinidog wedi nodi fod gan y Cynulliad eisoes y pwerau sy'n caniatáu iddo ddeddfu ym maes addysg ac felly nid oedd angen nodi hynny o fewn y Gorchymyn arfaethedig.²²³

Ein barn ni

5.131. Cytunwn y dylai addysg, hyfforddiant neu gyfarwyddyd gyrfaoedd a gwasanaethau i ddatblygu neu i wobrwyo cymwyseddau ddod o fewn cwmpas y Mater (paragraffau (h) (v) a (vii)).

5.132. Nodwn fod gan y Cynulliad eisoes y cymhwysedd i ddeddfu ym maes addysg o ran darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Sefydliadau ariannol

5.133. Mae sawl sefydliad wedi gofyn am ehangu cwmpas y Gorchymyn arfaethedig i gynnwys gwasanaethau bancio ac yswiriant.²²⁴

5.134. Fe'n hysbyswyd y gellid cynnwys rhai sefydliadau ariannol o fewn paragraff (e) y Gorchymyn arfaethedig ("personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd sy'n derbyn cyfanswm o £200,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol"), o gofio eu bod wedi cael cymorth ariannol gan Lywodraeth y DU yn ystod yr argyfwng ariannol diweddar. Hefyd, fel y nodwyd uchod, (paragraff 5.13), bydd rhai banciau yn dod o fewn cwmpas paragraph (c) ("a gafodd eu sefydlu drwy...offeryn uchelfreiniol"), fel Banc Lloegr a'r Royal Bank of Scotland.

5.135. Gofynnwyd am sylwadau gan y sector ariannol drwy Gymdeithas Bancio Prydain a Chymdeithas y Cymdeithasau Adeiladu.

5.136. Nid yw Cymdeithas y Cymdeithasau Adeiladu yn credu y byddai cymdeithasau adeiladu yn dod o dan baragraff (e), gan nad ydynt yn ymwybodol o sefyllfa lle y byddai cymdeithas yn cael £200,000 o arian cyhoeddus neu fwy mewn blwyddyn ariannol. Fodd bynnag, dywedodd fod y diffiniad o "arian cyhoeddus" yn amwys ac y byddai'n cefnogi diffiniad caeth er mwyn osgoi unrhyw gymhlethdod.²²⁵

5.137. Roedd Grŵp Bancio Lloyds yn croesawu'r Gorchymyn arfaethedig, ond dywedodd nad yw'n cytuno y dylai fod yna rwymedigaeth gyfreithiol sy'n ei gwneud yn ofynnol i rai cwmnïau preifat ddarparu gwybodaeth yn ddwyieithog, a hynny o gofio nad oes llawer o alw gan gwsmeriaid am y gwasanaethau y mae'n eu darparu ar hyn o bryd. Teimlai y byddai'r costau

²²³ Cofnod y Trafodion, paragraff 206, 24 Chwefror 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

²²⁴ Bwrdd yr Iaith Gymraeg, tystiolaeth ysgrifenedig, IG2(o); Mudiadau Dathlu'r Gymraeg, tystiolaeth ysgrifenedig, IG11(o); Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, tystiolaeth ysgrifenedig, IG9(o); Rhieni Dros Addysg Gymraeg, tystiolaeth ysgrifenedig, IG37; Urdd Gobaith Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, IG8(o); Mentrau Iaith Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, IG4(o); Cyngor Sir y Fflint, tystiolaeth ysgrifenedig, IG61(o); Cyngor Sir Ceredigion, tystiolaeth ysgrifenedig, IG49(o); Prifysgol Glyndŵr, tystiolaeth ysgrifenedig, IG52(o); dros 210 ymateb unigol IG29(i)

²²⁵ Cymdeithas y Cymdeithasau Tai, tystiolaeth ychwanegol, IG13(a)

sydd ynghlwm wrth hyn yn anghymesur â'r budd i'r cwsmer. Mae'n pryderu y gallai amwysedd paragraff (e) ddod â rhai banciau, ond nid rhai eraill, o fewn cwmpas y Gorchymyn arfaethedig, ac y byddent o dan anfantais gystadleuol o gymharu â banciau eraill.²²⁶

5.138. Ni fynegodd NatWest (Grŵp y Royal Bank of Scotland) ei farn ar y Gorchymyn arfaethedig, ond nododd rai o'r gwasanaethau dwyieithog y mae'n eu darparu ar hyn o bryd.²²⁷

Tystiolaeth gan y Gweinidog

5.139. Yn ystod y trafodaethau ar gwmpas paragraff (e), cadarnhaodd y Gweinidog fod posibilrwydd bod y sector bancio yn dod o fewn cwmpas y paragraff, oherwydd datblygiadau diweddar,²²⁸ ond dywedodd nad dyna oedd bwriad Llywodraeth Cymru wrth lunio'r Gorchymyn arfaethedig. Yn y cyfarfod ar 24 Chwefror, nododd fod dadl ddiddorol i'w chael ar gynnwys gwasanaethau ariannol, ond nad oedd Llywodraeth Cymru'n credu y dylid eu cynnwys ar hyn o bryd.²²⁹

Ein barn ni

5.140. Mae peth ansicrwydd ynghylch a ddylai banciau neu gymdeithasau adeiladu, neu pa fanciau neu gymdeithasau adeiladu, ddylai ddod o fewn cwmpas y Gorchymyn arfaethedig o dan baragraff (e) fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd. Mae posibilrwydd y bydd hyn yn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu i osod dyletswyddau ar rai banciau neu gymdeithasau adeiladu, ond nid rhai eraill. Cytunwn â'r egwyddor fod angen sicrhau amodau cyfartal i bob sefydliad o fewn y sector.

5.141. Argymhellwn y dylai pob sefydliad ariannol mawr sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ddod o fewn cwmpas Mater 20.1. Mae hyn oherwydd bod angen sicrhau amodau cyfartal i bob cwmni.

5.142. Yn unol â'n hargymhelliad cyffredinol yn adran 2, (paragraff 2.23) credwn na fyddai'n addas gosod dyletswyddau ar undebau credyd, sydd fel arfer yn fusnesau bach.

Darlledu

5.143. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y byddai S4C yn dod o fewn cwmpas y Gorchymyn arfaethedig o dan baragraff (c) a'r BBC o dan bargraff (e).

5.144. Mae'r BBC ac S4C wedi mynegi pryder ynglŷn â'r ffaith y gellid rhoi'r pŵer i'r Cynulliad basio deddfwriaeth a allai effeithio ar eu rhyddid golygyddol.

²²⁶ Grŵp Bancio Lloyds, tystiolaeth ychwanegol, IG15(a)

²²⁷ NatWest (Grŵp y Royal Bank of Scotland), tystiolaeth ychwanegol, IG14(a)

²²⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 146, 28 Ebrill 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

²²⁹ Ibid, paragraff 170

Mae S4C am weld llinell glir yn rhannu cymhwysedd y Cynulliad o ran y Gymraeg, a darlledu, sy'n fater nad yw wedi'i ddatganoli.²³⁰

Tystiolaeth gan y Gweinidog

5.145. Yn ei dystiolaeth ar 28 Ebrill, rhoddodd y Gweinidog sicrwydd i Aelodau'r Pwyllgor nad oes ganddynt unrhyw fwriad i ddefnyddio'r pwerau i ymyrryd â rhyddid golygyddol darlledwyr.²³¹

5.146. Gofynnwyd i'r Gweinidog hefyd a fyddai'r trefniadau trwyddedu a ddarperir gan Ofcom yn dod o fewn cwmpas paragraff (b) – gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd o dan gytundeb neu'n unol â threfniadau a wnaed gydag awdurdodau cyhoeddus. Yn ei lythyr i'r Pwyllgor cadarnhaodd y Gweinidog fod trefniadau trwyddedu Ofcom yn annhebygol o fod yn drefniadau neu'n gytundebau a ddaw o dan baragraff (b).²³²

Ein barn ni

5.147. Nodwn y gellid gosod dyletswyddau ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd am eu bod yn dod o fewn cwmpas y Mater a chredwn fod hyn yn gywir.

5.148. Rydym yn fodlon gydag addewid y Gweinidog na ddefnyddir y cymhwysedd hwn mewn ffordd a fyddai'n effeithio ar ryddid golygyddol darlledwyr.

²³⁰ BBC, tystiolaeth ysgrifenedig, IG62(o); S4C, tystiolaeth ysgrifenedig, IG67(o)

²³¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 222, 28 Ebrill 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

²³² Llythyr gan y Gweinidog dros Dreftadaeth, 7 May 2009 (gweler Atodiad 5)

6. Cwmpas Mater 20.2

6.1. Mae Mater 20.2 yn cynnwys darpariaeth “am neu mewn cysylltiad â rhyddid personau sy’n dymuno defnyddio’r iaith Gymraeg i wneud hynny â’i gilydd (gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau ar y rhyddid hwnnw)”.

6.2. Mae’r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

“Mae’r amddiffyniad sy’n cael ei gynnig o dan y ddeddfwriaeth gyfredol yn gyfyngedig. Byddai’r mater hwn yn galluogi’r Cynulliad i ddeddfu i ddiogelu rhyddid unigolion i siarad Gymraeg â’i gilydd.

“Ni fyddai’r mater hwn yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff gymryd camau cadarnhaol i hwyluso’r defnydd o’r Gymraeg rhwng unigolion - dim ond i barchu’r rhyddid i ddefnyddio’r iaith.”²³³

6.3. Y prif faterion a godwyd mewn perthynas â Mater 20.2 oedd:

- a yw’n angenrheidiol cynnwys y cymhwysedd i ddeddfu ar ryddid sy’n bodoli eisoes mewn cyfraith
- a ddylai gyfeirio at y Saesneg hefyd
- a ddylid drafftio ei bod yn “rhyddid” neu’n “hawl” i ddefnyddio’r Gymraeg
- pryderon ei fod yn cynnwys y potensial i ddeddfu i gyfyngu ar y rhyddid hwn
- graddau tiriogaethol y rhyddid hwn.

Tystiolaeth gan ymgylgoreion

6.4. Roedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg a sawl sefydliad arall²³⁴ ac unigolion yn cefnogi cynnwys y Mater a dadleuwyd bod angen darpariaeth o’r fath:

“Rydym wrth reswm yn croesawu’r egwyddor, yn enwedig pe bai deddfu arno gan y Cynulliad yn gwahardd unwaith ac am byth y sefyllfaoedd anffodus hynny a gododd yn y gorffennol pan geisiwyd atal siaradwyr Gymraeg rhag siarad yr iaith wrth eu gwaith. Gorthrwrm yw ceisio gwneud hyn, ac o’r herwydd dylid cymryd pob cam mewn cymdeithas wâr i’w ddileu.”²³⁵

²³³ GPO-10-EM, paragraffau 44-45

²³⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig: Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Stonewall, yr Urdd, CYDAG, Mentrau Iaith, Merched y Wawr, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Mudiadau Dathlu’r Gymraeg, Cyngor Sir Ynys Môn, RHAG, UCAC, Rhwydiaith, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Sir Ceredigion, Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, Awdurdod Tân ac Achub De Cymru, Cyngor Sir y Flint, Comisiynydd Plant Cymru

²³⁵ Bwrdd yr Iaith Gymraeg, tystiolaeth ysgrifenedig, IG2(o)

6.5. Nododd Mentrau Iaith Cymru:

“Mae sicrhau rhyddid a hawliau unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd yn holl bwysig a chredwn mai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddylai allu deddfu yn y maes hwn. Mae gan siaradwyr Cymraeg hawl i'w trin yn gydradd a siaradwyr Saesneg. Hefyd mae angen rhoi terfyn i sefyllfaoedd lle mae Siaradwyr Cymraeg yn cael eu gorfodi i siarad Saesneg yn erbyn eu hewyllys gan gyflogwyr ayyb.”²³⁶

6.6. Nododd CYDAG: “Mae llawer iawn o bobl heb sylweddoli nad oes gennym hawliau ieithyddol go sylfaenol.” Credai Cyngor Sir Fôn y byddai hyn yn egluro statws yr iaith a byddai'n cael gwared ar unrhyw ragfarn ieithyddol. Nododd un ymatebydd ei fod wedi cael ei gyfyngu o ran defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Rhoddwyd rhai enghreifftiau yn y coflenni o dystiolaeth gan unigolion a gyflwynwyd gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg.”²³⁷

6.7. Gofynnodd CLILC am drafodaeth fanylach gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â sut y gallai unrhyw gynnig polisi newydd effeithio ar lywodraeth leol.

6.8. Roedd gan gynrychiolwyr o'r sector preifat farn fwy deublyg; er bod nifer ohonynt yn cefnogi'r egwyddor, roeddent yn cwestiynu pam bod ei angen ac a fyddai'n gosod rhwymedigaethau ar fusnes (Nwy Prydain, y CBI, Sefydliad y Cyfarwyddwyr a BT). Credai'r CBI ei bod yn rhesymol i drafodaethau busnes sy'n cynnwys pobl ddi-Gymraeg gael eu cynnal yn Saesneg a bod hwn yn faes lle y dylid defnyddio synnwyr cyffredin. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, nododd Sefydliad y Cyfarwyddwyr:

“...any such legislation must be soundly based in addressing a real problem, and with safeguards designed to ensure that the nature and effectiveness of business and/or public administration is not compromised. The IoD has significant doubts about the proposition that legislation is currently necessary to take forward this issue of freedom to communicate, with the risks of legislative rigidity developing around an issue on which no evidence of a material problem has been advanced in the Assembly Government's Explanatory Memorandum. The oxygen of publicity can often be more flexible and effective than the rigidity of legislation.”²³⁸

6.9. Rhoddodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ei gefnogaeth amodol:

“As we understand, this matter would not require bodies to take positive steps to facilitate the use of the Welsh language between individuals, but rather to respect the freedom to use the language; this is a principle that WCVA supports.”²³⁹

²³⁶ Mentrau Iaith Cymraeg, tystiolaeth ysgrifenedig, IG4(o)

²³⁷ Cymdeithas yr Iaith Gymraeg: *Y Galw am Ddeddfwriaeth Newydd*, Mawrth 2009, tystiolaeth ychwanegol, IG10(a)

²³⁸ Sefydliad y Cyfarwyddwyr, tystiolaeth ysgrifenedig, IG25(o)

²³⁹ Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, IG18(o)

6.10. Gofynnodd Cyngor Cymuned Llantrisant Fawr²⁴⁰ a rhai unigolion a ymatebodd pam bod angen y Mater os yw'r rhyddid yn bodoli eisoes. Ni chytunodd Siambr Fasnach Gogledd Cymru y dylid ei gynnwys.²⁴¹

Tystiolaeth gan y Gweinidog

6.11. Nododd y Gweinidog:

“I do not think that any legislation should be an unnecessary burden on companies or be overly bureaucratic. So, in that sense, I have sympathy with the CBI and I agree with it in essence. However, because of the unreasonable behaviour of certain people in the past, this freedom to communicate with other people in Welsh and in English should be protected in law.”²⁴²

6.12. Diystyrododd hefyd bryderon y CBI y gallai hyn arwain at ymgyfreitha blinderus gan weithwyr.

6.13. Gofynnwyd i'r Gweinidog pam nad oedd y Mater yn cynnwys y rhyddid i ddefnyddio'r Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg. Atebodd drwy ddweud:

“Matter 20.2 is not intended to confer competence to legislate in relation to the protection of other languages because this legislation is primarily to do with the rights of Welsh speakers. We are confident that the Welsh Assembly Government's proposals under the competence, as set out in proposed matter 20.2, to protect the freedom to communicate in Welsh would comply with the convention rights.”²⁴³

6.14. Fodd bynnag, nododd hefyd fod Mater 20.1 yn caniatáu i'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin ar sail cydraddoldeb a nododd y gallai'r Cynulliad ddeddfu i sicrhau rhyddid y rheini sydd am gyfathrebu â'i gilydd yn Saesneg.²⁴⁴

6.15. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y byddai'r Gorchymyn arfaethedig yn caniatáu i'r Cynulliad ddeddfu drwy Fesur mewn perthynas â'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru.²⁴⁵ Pan ofynnwyd iddo ynghylch cyfyngiadau daearyddol gweithredu Mater 20.2, eglurodd cynghorwr cyfreithiol y Gweinidog, drwy ddweud:

“The Government of Wales Act 2006 requires the provisions of future Assembly Measures to be in relation to Wales, therefore you would have to assess whether any future provision was in relation to Wales. As you said, by and large, that will mean that it is within the territory of Wales, but that is not to say that it cannot sometimes apply elsewhere,

²⁴⁰ Cyngor Cymuned Llantrisant Fawr, tystiolaeth ysgrifenedig, IG21(o)

²⁴¹ Siambr Fasnach Gogledd Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, IG22(o)

²⁴² Cofnod y Trafodion, paragraff 230, 28 Ebrill 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

²⁴³ Ibid, paragraff 232

²⁴⁴ Ibid, paragraff 234

²⁴⁵ GPO-10-EM, paragraff 47

but it would very much depend on the nature of the individual provision that you will consider in due course.”²⁴⁶

6.16. Pan ofynnwyd a fyddai hyn yn cynnwys gwasanaethau carchar y tu allan i Gymru, dywedodd y Gweinidog y gallai hwnnw fod yn bwnc i’w drafod yn y dyfodol, ond nid mewn perthynas â’r Gorchymyn arfaethedig ei hun.²⁴⁷

“Rhyddid” neu “hawl” i ddefnyddio’r Gymraeg

6.17. Mae sawl sefydliad²⁴⁸ yn cwestiynu neu’n dadlau y dylai Mater 20.2 gael ei ddrافتio fel bod gan bobl yr “hawl” i ddefnyddio’r Gymraeg yn hytrach na “rhyddid” i’w defnyddio, ac mae rhai yn dadlau o blaid hynny. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, nododd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg:

“Credwn y dylai’r rhyddid yma gael ei ailddiffinio fel mater o hawl er mwyn rhoi terfyn ar unrhyw orthrwm yn erbyn dinasyddion sydd am ddefnyddio’r Gymraeg yng Nghymru. Mae’r rhyddid eisoes gyda ni – yr hawl sy’n bwysig.”²⁴⁹

6.18. Nododd RHAG (Rhieni dros Addysg Gymraeg):

“Dylai’r cyfeiriad hwn at ‘ryddid’ gael ei ail-ddiffinio fel ‘hawl’ i siarad Cymraeg gan roi terfyn ar unrhyw anneligrwydd a rhoi diwedd ar unrhyw dramgwyddo ar ddymuniad dinasyddion sydd am ddefnyddio’r Gymraeg yng Nghymru. Yr hyn sy’n greiddiol ydi’r ffaith y bydd dewis sylfaenol a chydadd ar gael i bobl Cymru i ddefnyddio iaith o’u dewis a hynny heb orfod meddwl dwywaith. Yn sylfaenol pa bwrpas sydd yna i hawliau onid ydynt yn gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau dinasyddion cyffredin Cymru.”²⁵⁰

6.19. Mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg hefyd am fynd gam ymhellach na rhoi rhyddid neu hawliau i unigolion ddefnyddio’r iaith gyda’i gilydd ac mae’n dymuno gweld deddfwriaeth a fyddai’n sefydlu hawliau pobl i ddefnyddio’r Gymraeg ym mhob agwedd ar eu bywydau. Mae’n cyfeirio at brofiad pobl Catalonia, lle mae’r hawliau wedi cael eu sefydlu:

“Mae gennym y rhyddid i siarad Cymraeg - yr ydym yn ei ddefnyddio yn awr - ond nid oes gennym yr hawl mewn rhai sefyllfaoedd i allu dweud wrth y cyrff hyn fod yr hawl gennym, a bod yn rhaid wedyn iddynt ddewis sut i ymateb i hynny o fewn y disgwyliadau y byddem yn eu trafod. Mewn gwledydd eraill, mae’r hawl i ddefnyddio iaith a’r hawl i ddisgwyl lefel o wasanaethau yn yr iaith honno yn bodoli - mae Catalonia wedi symud ymlaen i ddweud bod yr hawl i ddisgwyl bod rhywun yn eich deall yn bodoli. Felly, dyna yw ein man cychwyn.”²⁵¹

²⁴⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 232, 24 Chwefror 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

²⁴⁷ Ibid, paragraff 230

²⁴⁸ Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Urdd Gobaith Cymru, Mentrau Iaith, Mudiadau Dathlu’r Gymraeg, RHAG, UCAC, Cyngor Sir y Flint, Comisiynydd Plant Cymru

²⁴⁹ Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, tystiolaeth ysgrifenedig, IG9(o)

²⁵⁰ RHAG (Rhieni dros Addysg Gymraeg), tystiolaeth ysgrifenedig, IG37(o)

²⁵¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 103, 17 Mawrth 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

6.20. Cadarnhawyd hyn gan gynrychiolwyr o Lywodraeth Catalonia yn eu dystiolaeth i'r Pwyllgor, wrth iddynt egluro sut y mae eu fframwaith deddfwriaethol wedi esblygu dros amser o gael rhyddid i gael hawliau sydd wedi'i seilio ar ddeddfwriaeth.

6.21. Cyfeiriodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn fyr at hyn yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor:

“Mae'r bwrdd yn llwyr ddeall pa mor anodd yw creu deddfwriaeth ar sail hawliau. Deallwn hynny a thrafodwn hynny fel bwrdd yn rheolaidd. Mae hawl yn fwy absoliwt na rhyddid. Mae diffinio hawl yn gymharol hawdd mewn deddfwriaeth; mae gweithredu hawl ar sail hynny yn llawer anos. Ni chredaf y dylem osgoi'r drafodaeth hon wrth greu sefyllfa gyfansoddiadol newydd yng Nghymru. Mae cael Gorchymyn o'r fath yn caniatáu inni gael y drafodaeth honno wrth greu Mesurau.”²⁵²

6.22. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth ysgrifenedig hefyd gan rai o'r gwledydd eraill sydd wedi mynd i'r afael ag amlieithrwydd. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod amrywiaeth eang o ffyrdd o ymdrin â hyn, sy'n amrywio o sefyllfaoedd lle nad oes unrhyw gymalau ieithyddol yn bodoli, fel yn yr Iseldiroedd, i wledydd lle y caiff hawliau eu nodi ond eu bod wedi'u cyfyngu i drafodaethau â chyrff cyhoeddus penodol, fel yn y Ffindir a New Brunswick, a gwledydd fel Catalonia, lle y mae gan ddinasyddion yr hawl i siarad Sbaeneg a Chatalaneg, ond ei fod hefyd yn ddyletswydd arnynt i fedru'r ddwy iaith. Yn Atodiad 6, ceir tabl sy'n crynhoi sut y mae'r gwledydd yn ein sampl wedi mynd i'r afael â dwyieithrwydd.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

6.23. Eglurodd cynghorwr cyfreithiol y Gweinidog y gwahaniaeth rhwng rhyddid a hawl i ddefnyddio'r iaith fel a ganlyn:

“Matter 20.2 is not concerned with the right to expect someone to provide you with a service through the medium of Welsh—a claim right, so that you can go somewhere and ask for a particular service in Welsh. It deals with the freedom of persons to communicate with each other in the language of their choice and the protection of that freedom. Accordingly, the term ‘freedom’ has been used in matter 20.2 and is entirely appropriate to describe, at law, what we are talking about here. It is the protection of a pre-existing freedom. A right would have associated duties, but the freedom is already there and any proposed legislation under this competence can then set out how that freedom cannot be unlawfully interfered with.”²⁵³

²⁵² Cofnod y Trafodion, paragraff 112, 3 Mawrth 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

²⁵³ Cofnod y Trafodion, paragraff 225, 28 Ebrill 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

Cyfyngiadau ar y rhyddid i ddefnyddio'r iaith Gymraeg

6.24. Byddai Mater 20.2 hefyd yn caniatáu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddeddfu i gyfyngu ar y rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae sawl sefydliad wedi mynegi pryder ynghylch cynnwys y potensial i osod unrhyw gyfyngiad ar y defnydd o'r Gymraeg neu maent am ei weld yn cael ei ddileu o'r Gorchymyn arfaethedig.²⁵⁴

6.25. Nododd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ei dystiolaeth ysgrifenedig fod ganddo rai pryderon ynghylch cyfyngu ar ryddid personau sydd am ddefnyddio'r Gymraeg:

“Dylai'r Memorandwm gan Lywodraeth y Cynulliad fod yn fwy eglur ynglyn â beth a olygir: er enghraifft, a fyddai modd gwahardd carcharorion Cymreig rhag siarad Cymraeg gyda'u teuluoedd, neu rhag ysgrifennu atynt yn Gymraeg?”²⁵⁵

6.26. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, mynegodd UCAC²⁵⁶ a sefydliadau eraill eu pryder ynglŷn â'r ffaith bod angen ystyried unrhyw ddarpariaethau sy'n cyfyngu ar y rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg yn ofalus fel eu bod yn cydymffurfio â Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r gyfraith hawliau dynol ryngwladol sy'n rhwymo'r Deyrnas Unedig.

6.27. Nododd Trenau Arriva na fyddai am weld materion diogelwch yn cael eu peryglu oherwydd unrhyw ddyletswyddau neu rwymedigaethau a gyflwynir gan ddeddfwriaeth ddilynol mewn perthynas â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg.²⁵⁷

Tystiolaeth gan y Gweinidog

6.28. Nododd y Gweinidog y byddai iechyd a diogelwch, mewn rhai amgylchiadau, yn enghraifft o gyfyngiad posibl. Fodd bynnag, teimlai ei fod yn fater i'w drafod yn ystod y cyfnod Mesur (24 Chwefror).²⁵⁸

Ein barn ni

6.29. Cytunwn mewn egwyddor â chynnwys Mater 20.2 yn y Gorchymyn arfaethedig a fydd yn galluogi'r Cynulliad i amddiffyn rhyddid unigolion i ddefnyddio'r iaith Gymraeg gyda'i gilydd ac i sicrhau na osodir cyfyngiadau annerbyniol ar y defnydd o'r Gymraeg rhwng cydweithwyr.

6.30. Argymhellwn y dylid rhoi'r cymhwysedd i'r Cynulliad ddeddfu ar ryddid personau i ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg gyda'i gilydd ac y dylai Mater 20.2 gael ei ddiwygio:

²⁵⁴ Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Urdd, Mentrau Iaith, Merched y Wawr, Mudiadau Dathlu'r Gymraeg, UCAC, Rhwydiaith

²⁵⁵ Bwrdd yr Iaith Gymraeg, tystiolaeth ysgrifenedig, IG2(o)

²⁵⁶ UCAC, tystiolaeth ysgrifenedig, IG45(o)

²⁵⁷ Trenau Arriva, tystiolaeth ysgrifenedig, IG24(o)

²⁵⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 226, 24 Chwefror 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

Darpariaeth ar gyfer neu mewn cysylltiad â rhyddid personau sydd am ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg i wneud hynny gyda'i gilydd (gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau arno).

6.31. Ystyriwyd a ddylai fod yn "hawl" neu'n "rhyddid". Credwn fod y gair "rhyddid" yn derm addas yn y cyd-destun hwn, o gofio'r amcan a nodwyd sy'n sail i'r Mater hwn.

6.32 Cytunwn â'r Gweinidog y bydd unrhyw gyfyngiadau ar y rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg (neu'r Saesneg, yn unol â'n hargymhellion uchod) yn fater i'w drafod yn y cyfnod Mesur.

7. Diwygiadau i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Erthygl 4 o'r Gorchymyn arfaethedig)

7.1. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

“Mae erthygl 4 yn cynnig rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad ddeddfu drwy Fesur i ddiwygio adrannau 35(1) a 78 o Ddeddf [Llywodraeth Cymru] 2006 a pharagraff 8(3) o Atodlen 2 iddi er mwyn gallu deddfu ynglŷn â'i hun, Gweinidogion Cymru neu Gomisiwn y Cynulliad. Byddai hynny'n caniatáu i'r Cynulliad roi'r cyrff hynny ar yr un telerau â chyrff cyhoeddus eraill.”²⁵⁹

7.2. Mae Adran 78 o Ddeddf 2006 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i fabwysiadu strategaeth a chynllun iaith Gymraeg. Mae Adran 35(1) a pharagraff 8(3) o Atodlen 2 i Ddeddf 2006 yn gosod gofyniad ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Chomisiwn y Cynulliad i drin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb, lle y bo hynny'n addas yn yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol.

7.3. Y ddarpariaeth arall yn Neddf 2006 sy'n ymwneud â'r Gymraeg yw Adran 61(k) y Ddeddf (cefnogi diwylliant, ac ati) sy'n darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw beth sy'n briodol yn eu barn hwy i gefnogi'r Gymraeg. Nid oes pŵer yn bodoli i ddiwygio Adran 61 yn yr un modd.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

7.4. Pan ofynnwyd i'r Gweinidog a ddylid cynnwys adran 61(k) yn y rhestr o'r darpariaethau y gellir eu diwygio gan adran 4 y Gorchymyn arfaethedig, eglurodd cyngorwr cyfreithiol y Gweinidog:

“The sections already included in section 4 are 35 and 78, as is paragraph 8(iii) of Schedule 2 to the Government of Wales Act 2006. They concern duties and functions exercised by the institutions referred to—that is, the Assembly Commission, the National Assembly for Wales, and the Welsh Ministers—and how they conduct themselves in relation to the Welsh language. Section 61(k) is a discretionary power for the Ministers to exercise. That is the technical explanation for the difference between both. So, with regard to the way in which the institutions conduct themselves in relation to the language, competence is being sought to be able to amend those provisions. Competence is not being sought in relation to amending section 61(k).”²⁶⁰

Ein barn ni

7.5. Argymhellwn fod y Gweinidog yn cynnwys y pŵer i ddiwygio adran 61(k) o Ddeddf 2006 yn erthygl 4 y Gorchymyn arfaethedig hefyd er mwyn osgoi

²⁵⁹ GPO-10-EM, paragraff 49

²⁶⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 256, 28 Ebrill 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

unrhyw wrthdaro neu amheuaeth a allai godi rhwng y disgresiwn yn adran 61(k) ac unrhyw ddyletswyddau a roddir ar Weinidogion Cymru mewn Mesur dilynol.

8. Gweinidogion y Goron (Erthygl 5 o'r Gorchymyn arfaethedig)

8.1. Mae paragraff 53 y Memorandwm Esboniadol yn nodi:

“Mae angen yr Erthygl hon i roi i'r Cynulliad gymhwysedd i allu atal system amlhaenog rhag bodoli yn y dyfodol, a honno'n system lle byddai Gweinidogion y Goron yn darparu lefel o wasanaeth a fyddai'n wahanol i weddill y sector cyhoeddus. Byddai Erthygl 5 yn caniatáu i'r Cynulliad gael hyblygrwydd i allu darparu system gyson a rhwydd ar draws y sector cyhoeddus.”²⁶¹

8.2. Mae erthygl 5 yn darparu ar gyfer diwygio Deddf 2006 i ganiatáu i'r Cynulliad ddeddfu er mwyn rhoi dyletswyddau ar Weinidogion y Goron, mewn perthynas â'r Gymraeg, a hynny gyda chaniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol. Fodd bynnag, mae erthygl 5 yn darparu, hyd yn oed os yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn cymeradwyo Mesur Cynulliad sy'n gosod dyletswyddau ar Weinidogion y Goron, ni ellir dwyn achos yn eu herbyn am dramgwydd troseddol os nad ydynt yn cydymffurfio â'u dyletswyddau.

Tystiolaeth gan ymgylgoreion

8.3. Mae llawer o ymgylgoreion wedi holi pam y dylid trin Gweinidogion y Goron yn wahanol i awdurdodau cyhoeddus eraill, ac mae rhai yn dadlau y dylent fod yn agored i erlyniad troseddol yn yr un modd.²⁶²

8.4. Mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn credu bod y rhain yn rhy hael i Weinidogion y DU:

“Os ydyn nhw'n gwneud beth maen nhw i fod, does gyda nhw ddim byd i'w ofni. Ond mae hen ddigon o dystiolaeth gyda ni i ddangos bod rhai adrannau o lywodraeth Llundain yn ogystal ag ambell Weinidog yn Llywodraeth y Cynulliad wedi/yn dewis peidio â thrin yn ddwy iaith ar sail cydraddoldeb, ond does dim dull o orfodi'r ddyletswydd arnynt.”²⁶³

8.5. Teimlai Bwrdd yr Iaith Gymraeg mai'r mater pwysicaf oedd eu bod yn cael eu cynnwys o fewn cwmpas y Gorchymyn arfaethedig, gan nad ydynt wedi'u cynnwys o fewn cwmpas Deddf 1993. Yn wir, ar hyn o bryd, mae wyth adran wedi mabwysiadu Cynlluniau Iaith Gymraeg yn wirfoddol, tra bod saith adran wedi penderfynu peidio â derbyn gwahoddiad Bwrdd yr Iaith Gymraeg i ddarparu cynllun.²⁶⁴

“Dyna pam yr ydym mor falch o weld cyrff y Goron yn cael eu cynnwys yma. Mae'n bwysicach eu bod yn cael eu cynnwys na'n bod ni'n cosbi'r Gweinidogion ... Ni allwn weld rheswm amlwg pam ei bod yn ofynnol cael caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol, ond os yw hynny'n rhoi mwy o

²⁶¹ GPO-10-EM, paragraff 53

²⁶² Cymdeithas y Cyfreithwyr, tystiolaeth ysgrifenedig, IG51(o); Prifysgol Glyndŵr, tystiolaeth ysgrifenedig, IG52(o)

²⁶³ Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, tystiolaeth ysgrifenedig, IG9(o)

²⁶⁴ Bwrdd yr Iaith Gymraeg, tystiolaeth ychwanegol, IG1(a)

statws ac awdurdod i'r broses, byddem yn ei groesawu. Fodd bynnag, tynnu'r cyrff i mewn sy'n bwysig, sut bynnag mae hynny'n digwydd.”²⁶⁵

8.6. Gwnaeth Fwrdd yr Iaith Gymraeg y sylw a ganlyn hefyd:

“Efallai y dylwn ychwanegu bod rhai cyrff y Goron - adrannau'r Llywodraeth - sy'n gwrthod cynnig cynlluniau iaith. Mae'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn gwrthod yn llwyr i gytuno cynllun iaith gyda ni, er mai'r adran honno sy'n gyfrifol ar lefel Ewropeaidd am gynlluniau iaith gwledydd Prydain, sydd ychydig yn eironig.”²⁶⁶

Tystiolaeth gan y Gweinidog

8.7. Rhoddwyd rhestr i'r Pwyllgor o'r Gweinyddiaethau sydd â Chynlluniau iaith Gymraeg a'r rhai nad oes ganddynt gynlluniau o'r fath. Gofynnwyd i'r Gweinidog a fyddai'r sefyllfa yn newid pe byddai'r dyletswyddau yn dibynnu ar ganiatâd yr Ysgrifennydd Gwladol. Atebodd y Gweinidog fel a ganlyn:

“Certain ministries and Ministers of the Crown have Welsh-language schemes that have been developed with the Welsh Language Board over the years, and some of those schemes are very successful. Others have not been quite as forthcoming. Some are more important to the people of Wales, of course, in that they have a real presence on the ground, and they are the ones that we need to concentrate our efforts on. Hopefully, however, all ministries will be included eventually.”²⁶⁷

8.8. Eglurodd y Gweinidog, os bydd y darpariaethau hyn yn dilyn y confensiwn arferol, ni fydd y Goron yn destun sancsiynau troseddol a bydd angen caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol o flaen llaw²⁶⁸.

Ein barn ni

8.9. Cytunwn, mewn egwyddor, y dylai Gweinidogion y Goron fod yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau mewn perthynas â'r iaith Gymraeg.

8.10. Nodwn fod y gofyniad i ofyn am ganiatâd yr Ysgrifennydd Gwladol perthnasol cyn y gosodir unrhyw ddyletswyddau ar Weinidogion y Goron drwy Fesur Cynulliad yn egwyddor gyfansoddiadol gyffredinol, fel y nodir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, nad yw'n benodol i faes y Gymraeg.

8.11. Rydym yn derbyn y dylai unrhyw ddyletswyddau a osodir ar Weinidogion y Goron fod yn ddarostyngedig i ganiatâd yr Ysgrifennydd Gwladol, yn unol â'r setliad cyfansoddiadol.

²⁶⁵ Cofnod y Trafodion, paragraffau 125 a 127, 3 Mawrth 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

²⁶⁶ Ibid, paragraff 119

²⁶⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 249, 28 Ebrill 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

²⁶⁸ Llythyr gan y Gweinidog dros Dreftadaeth, 3 Mawrth 2009 (gweler Atodiad 5)

9. Ymatebion gan aelodau'r cyhoedd

9.1. Yn ogystal â'r ymgynghoriad cyffredinol ar y cynigion deddfwriaethol, cafodd grwpiau ac unigolion eu gwahodd hefyd i ddweud eu dweud drwy ymgyrch bosteri²⁶⁹ a oedd yn annog pobl i anfon eu sylwadau ar dri chwestiwn penodol, sef a ddylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru allu deddfu mewn perthynas ag 1. hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg; 2. pa wasanaethau ddylai'r cyhoedd allu eu cael yn ddwyieithog; a 3. rhyddid personau i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd.

9.2. Cafwyd 283 o ymatebion i'r ymgynghoriad, ac o'r rheini, cafwyd 53 o negeseuon unigol wedi'u llofnodi, 12 ymateb anhysbys, 210 o ymatebion unigol yn cyflwyno ymateb wedi'i gydgyssylltu drwy wefan Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, dwy neges gyda dau lofnod ar bob neges, ac un neges gyda phedwar lofnod arno.

9.3. Roedd 240 o'r ymatebion i'r ddau gwestiwn cyntaf yn gadarnhaol, ac roedd 239 o'r ymatebion i'r cwestiwn olaf yn gadarnhaol, tra roedd 16 o'r ymatebion i'r tri chwestiwn yn negyddol. Felly, yn gyffredinol, ymatebwyd yn gadarnhaol i drosglwyddo cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad.

9.4. Er ei bod yn bosibl cael ymateb cadarnhaol neu negyddol i'r tri chwestiwn gan y mwyafrif o'r ymatebwyr, roedd rhai'n tueddu naill ai i beidio ag ateb y cwestiynau yn uniongyrchol, neu i ddefnyddio'r ymgynghoriad fel cyfle i amlygu materion ehangach. Er enghraifft, awgrymwyd na ddylai'r Cynulliad gael cymhwysedd yn y maes hwn oherwydd bod ganddo ddigon o bwerau eisoes, tra roedd eraill o'r farn nad oedd y mater yn berthnasol i'r rhan fwyaf o bobl, neu fod materion eraill sy'n mynnu sylw yn hytrach na deddfu ar y Gymraeg.

9.5. Manteisiodd yr ymatebwyr hefyd ar y cyfle i egluro'r rhesymau dros eu sylwadau, ac i nodi rhagor o bryderon a materion mewn perthynas â'u profiadau a'u hagwedd at ddeddfwriaeth ar y Gymraeg. Caiff y themâu mwyaf cyffredin a amlygwyd yn y cyfraniadau eu hystyried isod.

Cyfreithiau mewn perthynas â'r Gymraeg sydd o fewn cymhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

9.6. Credwyd ei bod yn fwy perthnasol i'r Cynulliad (ac yn llai perthnasol i Senedd y DU) gael pwerau mewn perthynas â'r Gymraeg, ond, ar y llaw arall, roedd rhai o'r farn nad oedd angen rhagor o ddeddfu.

Cwmpas y ddeddfwriaeth

9.7. Clywsom rai yn dadlau y dylid cynnwys rhagor o wasanaethau o fewn cwmpas y ddeddfwriaeth i alluogi Llywodraeth Cymru i ddrafftio Mesurau iaith cynhwysfawr ac, i'r gwrthwyneb, y dylid nodi beth yw'r gwasanaethau hynny neu y dylid eu cyfyngu.

²⁶⁹ Gwler Atodiad 3

9.8. Cafwyd galwad i gael gwared ar y trothwy o £200,000, a'r angen i osod disgwyliadau ar y sector cyhoeddus i sicrhau cysondeb, eglurder a symrlwydd ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth.

9.9. Cafwyd galwadau i ymestyn y rhestr o gyrff a enwir yn y Gorchymyn arfaethedig i normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg i gynnwys siopau a chwmnïau preifat, cyfleusterau hamdden, siopau, cyfleusterau adloniant, bwytai a thafarndai, banciau a gwasanaethau ariannol, a phob math o drafnidiaeth gyhoeddus.

9.10. Gellir priodoli'r dadleuon o blaid cyfyngu ar y gwasanaethau mewn sawl achos i bryderon ynghylch costau, neu i'r ffaith y byddai adnoddau yn cael eu neilltuo ar gyfer darpariaeth y barnwyd bod dim ond ychydig o alw amdani, os o gwbl.

9.11. Roedd pryder hefyd y gallai deddfu yn y maes hwn gyflwyno cyfleoedd i bobl gael gwaith ar sail eu gallu i siarad Cymraeg yn hytrach na'u gallu i wneud y swydd, ac/neu y gallai arwain at wahaniaethu yn erbyn unigolion di-Gymraeg.

9.12. Ym marn ymatebwyr eraill, gall deddfwriaeth iaith fod yn ymrannol, gydag un ymatebydd yn credu bod y ddeddfwriaeth yn ymddangos yn elyniaethus, yn ddrud ac yn ddianghenraid, ac unigolyn arall yn poeni y gallai'r cynigion cyfredol arwain at eithafiaeth ieithyddol.

Y rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg

9.13. Mewn perthynas â rhyddid personau i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd, gofynnodd yr ymatebwyr pam bod angen deddfu yn y maes hwn oherwydd fe'i ystyrir fel hawl dynol sylfaenol, neu fod y rhyddid hwn eisoes yn bodoli. Dywedodd nifer o'r ymatebwyr eu bod wedi cael eu cyfyngu o ran defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, neu eu bod yn cael gwasanaeth cyfyngedig gan nad yw pobl yn glynu'n ddigonol at y ddeddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud â'r Gymraeg na'r Cynlluniau Iaith Gymraeg, gan awgrymu, lle y mae'r rhyddid yn bodoli, na chânt eu gweithredu ac na lynir atynt yn ddigonol bob tro. Er bod un o'r ymatebwyr yn credu bod gan siaradwyr Saesneg y rhyddid hwn, awgrymodd rhywun arall os gweithredir deddfwriaeth yn y maes hwn mewn perthynas â siaradwyr Cymraeg, yna byddai'n angenrheidiol rhoi rhyddid tebyg i siaradwyr Saesneg.

9.14. Roedd rhai o'r ymatebwyr hefyd yn credu y dylid sefydlu'r hawl i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â'r rhyddid i siarad y Gymraeg yn y gweithle.

Materion eraill

9.15. Nododd rhai o'r ymatebwyr nad yw'r Gorchymyn arfaethedig yn cynnwys darpariaeth i sefydlu'r hawl i unigolyn gael rheithgor Cymraeg a gofynnwyd sut y gellid sicrhau'r hawl hwn.

9.16. Mynegwyd pryder ynghylch y ffaith bod y ddeddfwriaeth fel y'i drafftiwyd yn rhy gyfyngedig a'i bod yn hyrwyddo'r syniad bod hyrwyddo iaith yn faes ar wahân i bolisi cyhoeddus yn hytrach nag yn rhywbeth sy'n cael ei integreiddio ym mhob agwedd. Mynegwyd rhai pryderon hefyd ynghylch y ffaith nad yw'r ddeddfwriaeth yn cyfeirio'n benodol at addysg.

9.17. Cyfeiriwyd at yr angen i deilwra polisi, a/neu ddeddfwriaeth, i anghenion a gofynion yr ardal leol. Fodd bynnag, er yr ystyriwyd bod y defnydd amrywiol o Gymraeg ledled Cymru gyfan yn gwanhau'r ddadl o blaid cael ymagwedd Cymru gyfan i'r ddeddfwriaeth, gwnaed y gwrth-ddadl bod hwn yn rheswm dros ddeddfu ledled Cymru gyfan.

9.18. Nododd un ymatebydd fod angen mwy o ymchwil i sut y mae pobl yn cadw'r sgiliau a enillir drwy addysg cyfrwng Cymraeg, sy'n gysylltiedig â'r mater ehangach o sicrhau bod adnoddau digonol ar gael er mwyn bodloni'r dyheadau hirdymor sy'n sail i'r ddeddfwriaeth.

9.19. Gofynnwyd i'r Pwyllgor hefyd gefnogi'r angen i sefydlu statws swyddogol i'r Gymraeg, hawliau statudol i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywydau pobl, a sefydlu Comisiynydd iaith Gymraeg gyda'r pwerau angenrheidiol.

Ein barn ni

9.20. Hoffem ddiolch i'r holl unigolion a gyfrannodd at waith ein gwaith drwy gyflwyno eu sylwadau i ni. Bu'r sylwadau hyn yn gymorth i ni yn ein gwaith o graffu ar y Gorchymyn arfaethedig ac yn ystod ein trafodaethau mewn cyfarfodydd Pwyllgor wrth holi'r Gweinidog a thystion eraill. Ymdriniwyd â nifer o'r materion a godwyd yn adrannau perthnasol yr adroddiad.

9.21. Mae'r sylwadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn gyffredinol naill ai ar un pen y sbectrwm o gefnogaeth i'r Gymraeg, neu'r pen arall. Mae'r ffaith hon a lefel y drafodaeth gyhoeddus ar y Gorchymyn arfaethedig a'r hyn a allai ddilyn mewn Mesurau dilynol yn dangos bod angen i'r Gweinidog ymgysylltu â'r cyhoedd i egluro sut y mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu gweithredu'r ddeddfwriaeth yn y maes hwn er mwyn ategu'r polisi.

10. Sylwadau i gloi

10.1. I gloi, er mai ein cylch gwaith yw craffu ar y Gorchymyn arfaethedig a'r broses o drosglwyddo cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad, credwn ei fod yn angenrheidiol ymateb i'r dystiolaeth helaeth a gawsom a nodi ein disgwyliadau o ran sut y bydd y Gweinidog yn cyflwyno unrhyw gynigion dilynol ar y Mesur.

10.2. Yn ddarostyngedig i'n hargymhellion, dylai'r Gorchymyn arfaethedig drosglwyddo'r cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad fel y gall fodloni'r amcan cymdeithasol a fyddai'n caniatáu i bobl Cymru fyw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Credwn mai'r ffordd orau o wneud hyn yw drwy ganolbwyntio ar gydweithredu a sicrhau consensws.

10.3. Mae Llywodraeth Catalonia wedi dangos i ni beth y gellir ei gyflawni drwy fod yn benderfynol ac yn bragmatig o ran sicrhau bod deddfwriaeth iaith yn gweithio. Cyflwynodd hefyd sawl ffordd o gael cefnogaeth er mwyn sicrhau consensws a sicrhau ymrwymiad pawb sy'n ymwneud â'r broses.

10.4. Cytunwn â'r Gweinidog mai dim ond un dull o gyflawni'r amcan a rannwn yw deddfwriaeth. Felly, rydym yn pryderu ynghylch y ffaith fod cynllun grantiau bach Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a oedd gynt ar gael i fusnesau bach, wedi dod i ben, fel y nodwyd yn nhystiolaeth y Ffederasiwn Busnesau Bach. Credwn y bydd yn bwysig parhau i roi cymorth ariannol a mathau eraill o gymorth i sefydliadau i'w helpu i wneud y newidiadau angenrheidiol.

10.5. Credwn fod deddfwriaeth gryfach yn y maes hwn yn gam cadarnhaol, yn hytrach nag yn gam cosbol, a luniwyd i greu newid mawr mewn agweddau at ddarparu gwasanaethau dwyieithog a disgwyliadau'r dinesydd o ran cael y gwasanaethau hynny. Ni ddylid ystyried deddfwriaeth ar y Gymraeg fel mater lleiafrifol; dylid ei ystyried fel rhan o'r polisïau ar newid cymdeithasol yr hoffem eu gweld yng Nghymru.

GWNEIR GORCHMYNION CYMHWYSEDD DEDDFWRIAETHOL YN SAESNEG YN UNIG. CYFIEITHIAD I'R GYMRAEG ER GWYBODAETH YW HWN AC NID OES IDDO RYM CYFREITHIOL.

LCOS ARE MADE IN ENGLISH ONLY. THIS IS A TRANSLATION INTO WELSH FOR INFORMATION AND IT HAS NO LEGAL EFFECT.

Gorchymyn Arfaethedig ar gyfer craffu cyn deddfu.

OFFERYNNAU STATUDOL DRAFFT

2009 Rhif

Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL

DATGANOLI, CYMRU

**Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd
Deddfwriaethol) (Yr Iaith Gymraeg) 2009**

Gwnaed - - - - - []

Yn dod i rym yn unol ag Erthygl 1

Yn Llys Palas Buckingham, y **** dydd o **** 2009

Yn bresennol,

Ei Hardderchocaf Fawrhydi'r Frenhines yn y Cyfrin Gyngor

Yn unol ag adran 95(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(a), gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a dau Dŷ'r Senedd a chymeradwywyd ef drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chan ddau Dŷ'r Senedd.

Gan hynny, mae'n bleser gan Ei Mawrhydi, yn unol ag adran 95(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn ôl cyngor a chyda chyngor Ei Chyfrin Gyngor, orchymyn fel a ganlyn:-

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Yr Iaith Gymraeg) 2009 a daw i rym drannoeth y diwrnod y'i gwneir.

Diwygiadau i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

- 2.—(1) Addaser adran 94 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn unol â'r erthygl hon.
(2) Nid yw paragraff (b) o is-adran (6) yn rhwystro diddymiad unrhyw ddarpariaeth yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993(b) rhag bod â'r un rhychwant ag sydd gan y ddarpariaeth a ddiddymir.
- 3.—(1) Diwygier Rhan 1 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006 yn unol â'r erthygl hon.

(a) 2006 p.32.
(b) 1993 p 38.

(2) Ym maes 20 (Yr Iaith Gymraeg), mewnosoder—

“Mater 20.1

Hybu neu hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg; a thrin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg ar sail cydraddoldeb.

Nid yw'r mater hwn yn cynnwys y defnydd o'r iaith Gymraeg mewn llysoedd.

Nid yw'r mater hwn yn cynnwys gosod dyletswyddau ar bersonau ac eithrio'r canlynol—

- (a) awdurdodau cyhoeddus;
- (b) personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd o dan gytundeb, neu'n unol â threfniadau, a wnaed gydag awdurdod cyhoeddus;
- (c) personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac a gafodd eu sefydlu drwy ddeddfiad neu offeryn uchelfreiniol;
- (d) personau y rhoddir iddynt swyddogaethau neu y gosodir arnynt swyddogaethau darparu gwasanaethau i'r cyhoedd drwy ddeddfiad;
- (e) personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd sy'n derbyn cyfanswm o £200,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol;
- (f) personau sy'n goruchwylio rheoleiddiad proffesiwn, diwydiant neu gylch cyffelyb arall o weithgaredd;
- (g) landlordiaid cymdeithasol o fewn ystyr maes 11;
- (h) personau sy'n darparu i'r cyhoedd y mathau canlynol o wasanaethau neu wasanaethau eraill sy'n gysylltiedig ag unrhyw un neu ag unrhyw rai o'r gwasanaethau hynny—
 - (i) gwasanaethau nwy, dŵr neu drydan (gan gynnwys cyflenwi, cynhyrchu, trosglwyddo neu ddosbarthu);
 - (ii) gwasanaethau carthffosiaeth (gan gynnwys gwaredu carthion);
 - (iii) gwasanaethau post a swyddfeydd post;
 - (iv) gwasanaethau telathrebu;
 - (v) addysg, hyfforddiant neu gyfarwyddyd gyrfaedd (gan gynnwys gwasanaethau i annog, i alluogi neu i gynorthwyo cymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant neu gyfarwyddyd gyrfaedd);
 - (vi) gwasanaethau rheilffyrdd;
 - (vii) gwasanaethau i ddatblygu neu i ddyfarnu cymwysterau addysgol neu alwedigaethol;
- (i) personau sy'n dewis bod yn ddarostyngedig i gael y dyletswyddau wedi'u gosod arnynt neu sy'n cytuno i hynny.

O ran gosod dyletswyddau mewn perthynas â pharagraff (b), dim ond dyletswyddau'n ymwneud â gwasanaethau i'r cyhoedd sy'n cael eu darparu o dan gytundeb, neu'n unol â threfniadau, a wnaed gydag awdurdod cyhoeddus, a gynhwysir yn y mater hwn.

O ran gosod dyletswyddau mewn perthynas â pharagraff (h), dim ond dyletswyddau'n ymwneud â'r gwasanaethau sydd wedi eu crybwyll a gynhwysir yn y mater hwn.

Mater 20.2

Darpariaeth am neu mewn cysylltiad â rhyddid personau sy'n dymuno defnyddio'r iaith Gymraeg i wneud hynny â'i gilydd (gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau ar y rhyddid hwnnw).

Dehongli'r maes hwn

Yn y maes hwn—

ystyr “arian cyhoeddus” yw—

(a) arian y perir ei fod ar gael yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy—

(i) Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

(ii) Gweinidogion Cymru;

(iii) Senedd y DU;

(iv) Gweinidogion y Goron; neu

(v) un neu ragor o sefydliadau'r Cymunedau Ewropeaidd;

(b) arian a ddarperir yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad;

ystyr “awdurdod cyhoeddus” yw pob awdurdod cyhoeddus sy'n dod o fewn ystyr “*public authority*” yn adran 6 Deddf Hawliau Dynol 1998;

mae “deddfiad” yn cynnwys unrhyw ddeddfiad yn y dyfodol;

ystyr “gwasanaethau post” yw'r gwasanaeth o gludo llythyrau, parseli, pacedi neu bethau eraill o un man i fan arall drwy'r post a'r gwasanaethau cysylltiedig o dderbyn, casglu, sortio a danfon y cyfryw bethau;

ystyr “gwasanaethau telathrebu” yw unrhyw wasanaeth sy'n cynnwys darparu mynediad at, neu gyfleusterau i wneud defnydd o, unrhyw system sy'n bod (p'un ai yn gyfan gwbl yntau'n rhannol yn y Deyrnas Unedig neu mewn man arall) at y diben o hwyluso trosglwyddo cyfathrebiadau drwy unrhyw fodd sy'n golygu defnyddio ynni electrig, magnetig neu electro-magnetig (gan gynnwys y cyfarpar a geir yn y system), ond nid yw'n cynnwys darlledu, radio na'r teledu.”

4.—(1) Addaser Rhan 2 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006 yn unol â'r erthygl hon.

(2) Yn lle paragraff 6(2) rhodder—

“Nid yw is-baragraff (1) yn gymwys i—

(a) adrannau 20, 22, 24, 35(1), 36(1) i (5) a (7) i (11), 53, 54, 78 a 156(2) i (5);

na

(b) paragraph 8(3) o Atodlen 2.”

5.—(1) Addaser Rhan 3 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006 yn unol â'r erthygl hon.

(2) Ailrifir y paragraff 7 presennol yn 7(1) a mewnosoder yr is-baragraff 7(2) newydd canlynol—

“(2) Nid yw Rhan 2 yn rhwystro darpariaeth mewn Mesur Cynulliad sy'n ymwneud â mater 20.1 neu 20.2 o Ran 1, rhag rhoi neu osod, neu roi pŵer drwy is-ddeddfwriaeth i roi neu i osod, unrhyw swyddogaeth ar un neu fwy o Weinidogion y Goron os yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn cydsynio i'r ddarpariaeth, ond ni chaniateir gorfodi swyddogaethau sydd wedi eu rhoi neu eu gosod felly yn erbyn Gweinidogion y Goron drwy gyfrwng tramgwyddau troseddol”

Enw

Clerc y Cyfrin Gyngor

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006"). Mae'r Gorchymyn hwn yn estyn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud cyfreithiau a elwir yn Fesurau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y cyfeirir atynt yn Deddf 2006 fel "Mesurau Cynulliad"). Mae'r cymhwysedd deddfwriaethol a roddir gan y Gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau cyffredinol ar arfer y cymhwysedd deddfwriaethol hwnnw, sy'n gymwys yn rhinwedd adran 94 o Ddeddf 2006 ac Atodlen 5 iddi (fel y'i diwygir gan y Gorchymyn hwn).

Mae erthygl 2 yn addasu effaith adran 94(6)(b) o Ddeddf 2006. Mae hyn yn sicrhau na rwystrir unrhyw ddi-ddymiad yn y dyfodol o ddarpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 rhag bod â'r un rhychwant ag sydd i'r darpariaethau a ddiddymir.

Mae erthygl 3 yn mewnosod materion 20.1 a 20.2 yn ogystal â darpariaethau dehongli ym maes 20 (Yr Iaith Gymraeg) o Ran 1 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006.

Mae mater 20.1 yn ymwneud â hybu neu hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg; a thrin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg ar sail cydraddoldeb, ond nid yw'n cynnwys defnydd o'r iaith Gymraeg mewn llysoedd.

Nid yw'r mater hwn yn cynnwys gosod dyletswyddau ar bersonau ac eithrio'r canlynol—

- (a) awdurdodau cyhoeddus;
- (b) personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd o dan gytundeb, neu'n unol â threfniadau, a wnaed gydag awdurdodau cyhoeddus;
- (c) personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac a gafodd eu sefydlu drwy ddeddfiad neu offeryn uchelfreiniol;
- (d) personau y rhoddir iddynt swyddogaethau neu y gosodir arnynt swyddogaethau darparu gwasanaethau i'r cyhoedd drwy ddeddfiad;
- (e) personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd sy'n derbyn cyfanswm of £200,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol;
- (f) personau sy'n goruchwyllo rheoleiddiad proffesiwn, diwydiant neu gylch cyffelyb arall o weithgaredd;
- (g) landlordiaid cymdeithasol;
- (h) personau sy'n darparu i'r cyhoedd y mathau canlynol o wasanaethau, neu wasanaethau sy'n gysylltiedig â hwynt—
 - (i) gwasanaethau nwy, dŵr neu drydan (sy'n cynnwys cyflenwi, cynhyrchu, trosglwyddo neu ddsbarthu);
 - (ii) gwasanaethau carthffosiaeth (sy'n cynnwys gwaredu carthion);
 - (iii) gwasanaethau post a swyddfeydd post;
 - (iv) gwasanaethau telathrebu;
 - (v) addysg, hyfforddiant neu gyfarwyddyd gyrfaeodd (gan gynnwys gwasanaethau sy'n annog, yn galluogi neu yn cynorthwyo cymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant neu gyfarwyddyd gyrfaeodd);
 - (vi) gwasanaethau rheilffyrdd;
 - (vii) gwasanaethau i ddatblygu neu i ddyfarnu cymwysterau addysgol neu alwedigaethol;
- (i) personau sy'n dewis bod yn ddarostyngedig i gael y dyletswyddau wedi'u gosod arnynt neu sy'n cytuno i hynny.

GWNEIR GORCHMYNION CYMHWYSEDD DEDDFWRIAETHOL YN SAESNEG YN UNIG. CYFIEITHIAD I'R GYMRAEG ER GWYBODAETH YW HWN AC NID OES IDDO RYM CYFREITHIOL.

LCOS ARE MADE IN ENGLISH ONLY. THIS IS A TRANSLATION INTO WELSH FOR INFORMATION AND IT HAS NO LEGAL EFFECT.

Mae dyletswyddau a osodir mewn perthynas â pharagraff (b) wedi'u cyfyngu i ddyletswyddau'n ymwneud â gwasanaethau i'r cyhoedd sy'n cael eu darparu o dan gytundeb, neu'n unol â threfniadau, a wnaed gydag awdurdod cyhoeddus.

Mae dyletswyddau a osodir mewn perthynas â pharagraff (h) wedi'u cyfyngu i ddyletswyddau'n ymwneud â'r gwasanaethau sydd wedi eu crybwyll (a gwasanaethau cysylltiedig â hwynt).

Mae mater 20.2 yn ymwneud â rhyddid personau sy'n dymuno defnyddio'r iaith Gymraeg i wneud hynny â'i gilydd, ac mae'n cynnwys unrhyw gyfyngiadau ar y rhyddid hwnnw.

Mae erthygl 4 yn mewnosod darpariaeth sy'n addasu paragraff 6(2) o Ran 2 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006 i ychwanegu adrannau 35(1), 78 a pharagraff 8(3) o Atodlen 2 yn y rhestr o adrannau o Ddeddf 2006 a all gael eu haddasu drwy Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu drwy is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Fesur.

Mae erthygl 5 yn mewnosod darpariaeth sy'n addasu paragraff 7 o Ran 3 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006. Ailrifir paragraff 7 yn baragraff 7(1) a mewnosodir is-baragraff 7(2) newydd. Mae'r is-baragraff 7(2) newydd yn darparu na fydd Rhan 2 yn rhwystro darpariaeth mewn Mesur Cynulliad sy'n ymwneud â mater 20.1 neu 20.2 rhag rhoi neu osod, neu roi pŵer drwy is-ddeddfwriaeth i roi neu i osod, unrhyw swyddogaeth ar un o Weinidogion y Goron os yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn cydsynio i'r ddarpariaeth honno, ond hefyd yn darparu na all swyddogaethau sydd wedi eu rhoi neu eu gosod yn y modd hwnnw gael eu gorfodi yn erbyn Gweinidogion y Goron drwy gyfrwng tramgwyddau troseddol.

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol llawn wedi'i lunio ar gyfer y Gorchymyn hwn, gan na ragwelir y bydd yn effeithio o gwbl ar y sector preifat na'r sector gwirfoddol.

MEMORANDWM GAN LYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL: DATGANOLI, CYMRU

Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Yr Iaith Gymraeg) 2009

Cynnig ar gyfer Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynglŷn â'r Gymraeg

Rhagarweiniad

1. Mae'r Memorandwm hwn wedi'i baratoi a'i osod gerbron yn unol â Rheol Sefydlog (RhS) 22.14. Mae'n gosod y cefndir i'r darpariaethau yn y cynnig amgaeedig gan y llywodraeth am Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol a fyddai'n rhoi cymhwysedd deddfwriaethol ychwanegol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Fe'i gosodir gerbron yn unol â RhS 22.13 ac mae'n esbonio cwmpas y pŵer y gwneir cais amdano.
2. Ceir cyd-destun cyfansoddiadol y cais hwn yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006") a pholisi Llywodraeth y DU. Dangosodd Papur Gwyn Llywodraeth y DU, "Trefn Lywodraethu Well i Gymru", a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2005 ymrwymiad Llywodraeth y DU i wella pŵerau deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel sefydliad a etholwyd yn ddemocrataidd gyda'i weithdrefnau craffu manwl ei hun.
3. Mae adran 95 o Ddeddf 2006 yn rhoi pŵer i'w Mawrhydi, drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor, i roi'r cymhwysedd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddeddfu drwy Fesur Cynulliad ar faterion penodedig. Caniateir i'r materion hyn gael eu hychwanegu at Feysydd o fewn Atodlen 5 i Ddeddf 2006. Caiff Mesurau Cynulliad wneud unrhyw ddarpariaeth y gellid ei gwneud drwy Ddeddf Seneddol (ac felly gallant addasu deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes a gwneud darpariaeth newydd), o ran materion, yn ddarostyngedig i'r terfynau y darperir ar eu cyfer yn Rhan 3 o Ddeddf 2006. Cyfeirir at

Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan Adran 95 o Ddeddf 2006 fel Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ("GCD") yn y memorandwm hwn.

4. Caniateir i faterion gael eu mewnosod yn y meysydd sydd wedi'u cynnwys yn Atodlen 5 i Ddeddf 2006, naill ai drwy Ddeddf Seneddol neu GCD, a gymeradwywyd gan y Cynulliad a dau Dŷ'r Senedd. Mae'r ail lwybr yn galluogi'r Cynulliad i gychwyn y broses ar gyfer rhoi cymhwysedd o'r fath, drwy GCD.
5. Byddai'r GCD arfaethedig yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol ychwanegol i'r Cynulliad, ym maes y Gymraeg (maes 20 o fewn Atodlen 5 i Ddeddf 2006). [Yn gysylltiedig wrth Atodiad A mae copi o Atodlen 5 sy'n dangos y cymhwysedd deddfwriaethol y mae'r Cynulliad wedi'i gaffael hyd yn hyn a thrwy ba fecanwaith y cafodd ei roi].
6. Bydd pwerau deddfwriaethol newydd ynghylch y 'materion' penodedig yn galluogi Llywodraeth y Cynulliad, Aelodau'r Cynulliad a Phwyllgorau'r Cynulliad i ddwyn cynigion gerbron ar gyfer deddfwriaeth, ar ffurf Mesurau. Bydd y Mesurau hyn yn destun craffu trylwyr a chymeradwyaeth gan y Cynulliad.

Y cefndir

7. Mae'r Gymraeg yn un o'r nodweddion sy'n hynodi treftadaeth ddiwylliannol y DU ac mae ei hymlediad neu ei dirywiad yn effeithio ar fywydau pob dydd siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Yn ôl cyfrifiad 2001 mae bron 600,000 o bobl bellach yn siarad ac yn defnyddio'r iaith. Mae hyn yn golygu bod cynnydd bach ar y ffigurau blaenorol ar ôl mwy na chanrif o ddirywiad. Er hynny, er bod yr iaith wedi bod drwy gyfnod tebyg i adfywiad dros y blynyddoedd diweddar, mae ei chynaliadwyedd fel iaith fyw yn ein cymunedau yn dal o dan fygythiad. Derbynnir yn gyffredinol fod y camau sy'n cael eu cymryd gan asiantaethau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol – ynghyd â thwf addysg drwy gyfrwng y Gymraeg – yn gallu chwarae rhan allweddol i sicrhau ei lles a'i bywioldeb. Diben yr GCD arfaethedig yw sicrhau y bydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y cymhwysedd deddfwriaethol angenrheidiol o ran y Gymraeg i'w gwneud yn bosibl adeiladu ar sylfaen y camau hyn yn y dyfodol.
8. Yng Nghynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cymru Ddwyeithog, *Iaith Pawb* 2003, dywedodd Llywodraeth y Cynulliad ei bod am i Gymru fod yn genedl wirioneddol ddwyeithog. Nid oedd hyn wedi'i ddiffinio i awgrymu y dylai pawb yng Nghymru allu siarad Cymraeg a Saesneg. Fe'i diffiniwyd fel gwlad lle gall pobl ddewis byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, a lle mae presenoldeb y ddwy iaith yn ffynhonnell balchder a chryfder sy'n weladwy a chlywadwy. Adlewyrchodd *Iaith Pawb* yr hyn a fu'n bolisi gan lywodraethau olynol - ar lefel Cymru ac ar lefel y DU - i gefnogi a hyrwyddo'r defnydd ar yr iaith ym

mhob agwedd ar fywyd yng Nghymru. Mae cwmpas yr GCD arfaethedig yn adlewyrchu'r dull hwn o weithredu er mwyn sicrhau y gall yr iaith barhau i fod yn rhan amlwg a byw o fywydau pob dydd pobl.

9. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod hefyd y gall aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru wynebu anghysondebau ac anawsterau o hyd wrth geisio defnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn llawer o feysydd mae'r mecanweithiau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau i'r cyhoedd wedi newid ers 1993. Nid yw'r fframwaith a osodwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn ei gwneud yn bosibl i'r newidiadau hyn gael eu cymryd i ystyriaeth mewn ffordd gyson. Byddai cymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â hybu a hwyluso'r defnydd ar y Gymraeg yng Nghymru yn galluogi'r Cynulliad i ddiweddarau'r fframwaith deddfwriaethol a darparu sail gyson ar gyfer gwella mynediad at wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Y fframwaith deddfwriaethol cyfredol

10. Mae llywodraethau olynol y DU wedi cydnabod bod gan deddfwriaeth ran i'w chwarae yn y broses o hybu a hwyluso'r defnydd ar y Gymraeg. Rhoes Deddf Llysoedd Cymru 1942 hawliau cyfyngedig i unrhyw barti neu dyst i ddefnyddio'r Gymraeg mewn llysoedd yng Nghymru lle byddai person fel arall o dan anfantais am mai'r Gymraeg oedd yr iaith naturiol iddo ei defnyddio i gyfathrebu. Rhoes Deddf yr Iaith Gymraeg 1967 hawl absoliwt i unrhyw barti, tyst neu berson arall i ddefnyddio'r Gymraeg yn y llysoedd (ar yr amod bod hysbysiad yn cael ei roi ymlaen llaw), a phŵer hefyd i Weinidogion ragnodi fersiynau Cymraeg neu ddwyieithog o ffurflenni statudol.
11. Y statudau mwyaf diweddar a sylweddol o ran yr iaith yw Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ("Deddf 1993") a Deddf 2006 (sy'n cynnwys adrannau sy'n ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg gan y Cynulliad, Comisiwn y Cynulliad a Llywodraeth Cynulliad Cymru).
12. Mae Deddf 1993 wedi'i seilio ar ddwy egwyddor - yr angen i hybu a hwyluso'r defnydd ar y Gymraeg a thrin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.
13. Sefydlodd Deddf 1993 Fwrdd yr Iaith Gymraeg (a ddaeth yn ddiweddarach yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad), y mae swyddogaeth hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg wedi'i rhoi iddo.
14. Mae Deddf 1993 hefyd yn rhestru categorïau penodol o gyrff yn gyrff cyhoeddus y gellir gosod gofyniad arnynt i lunio cynlluniau iaith Gymraeg. Mae'n rhoi i Weinidogion Cymru bŵer i ychwanegu 'personau' pellach at y rhestr drwy Orchymyn, pan fo'n ymddangos iddynt bod y personau hynny yn cyd-fynd â'r meini prawf yn Neddf 1993.

Llywodraeth sy'n canolbwyntio ar y dinesydd

15. Llwyddwyd i wneud llawer o dan nawdd Deddf 1993 ond mae digon o le ar ôl i wella'r fframwaith deddfwriaethol y mae asiantaethau cyhoeddus yn gweithio odano ac i egluro wrth siaradwyr Cymraeg ba lefel o wasanaeth y gallant ddisgwyl ei chael. Mae hyn yn cydymffurfio'n agos iawn ag ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i fodel gwella gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi'i ganolbwyntio ar y dinesydd. Yn sgil yr argymhellion yn Adolygiad Sir Jeremy Beecham o Gyflenwi Gwasanaethau Lleol (2006), mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n buddsoddi mewn rhaglen weithredu i gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus sy'n effeithlon, effeithiol ac wedi'u canolbwyntio ar y dinesydd. Mae cytundeb clymbleidiol *Cymru'n Un* yn gosod y Llywodraeth dan ymrwymiad i sefydlu strategaeth i wella gwasanaethau cyhoeddus yn barhaus drwy Raglen Gwella Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae ymateb i anghenion penodol dinasyddion Cymraeg eu hiaith yn rhan annatod o'r rhaglen hon.

Yr angen am newid ac ymrwymadau Cymru'n Un

16. Yn Neddf 1993 - ac yn benodol pŵer Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'w gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus lunio cynlluniau iaith Gymraeg - cydnabuwyd i bob pwrpas bod heriau penodol ynghlwm wrth gyflenwi'r lefel briodol o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg pan fo dim ond 20% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg ac mae'r gyfran honno'n amrywio o dros 80% i lai na 10% o un ardal awdurdod lleol i un arall. Mae dull cyson o weithredu felly'n golygu cymhwyso'n gyson yr egwyddor o ddarparu'n rhesymol ac yn ymarferol. Mae ymateb i'r heriau hyn yn gofyn bod sefydliadau yn defnyddio eu hadnoddau, gan gynnwys staff sy'n siarad Cymraeg a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, yn y ffordd fwyaf effeithiol sy'n bosibl. Er cyflwyno Deddf 1993 mae llawer wedi'i wneud i wella ansawdd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu i siaradwyr Cymraeg. Byddai'r GCD arfaethedig yn rhoi cymhwysedd i alluogi'r Cynulliad i ailarchwilio a diweddarau'r fframwaith deddfwriaethol a sefydlwyd gan Ddeddf 1993 i fynd i'r afael â diffygion penodol sydd wedi dod i'r amlwg yn y cyfamser.
17. Byddai'r cymhwysedd a geisir o dan yr GCD arfaethedig, er enghraifft, yn caniatáu i'r Cynulliad ddeddfu i sicrhau mwy o eglurder i ddinasyddion o ran y categorïau o gyrff y gellir ei gwneud yn ofynnol iddynt lunio cynllun iaith Gymraeg.
18. Mae'r angen am fwy o eglurder wedi codi'n rhannol oherwydd newidiadau i strwythur rhai gwasanaethau cyhoeddus allweddol ac yn sgil y ffaith bod mecanweithiau newydd ar gyfer cyflwyno gwasanaethau wedi dod i'r amlwg gyda'r canlyniad bod wyneb cyhoeddus rhai sectorau a gwasanaethau allweddol penodol yn syrthio y tu allan i gwmpas Deddf

1993. Mae gan Weinidogion Cymru bŵer i bennu rhai cyrff o'r tu mewn i'r sectorau hyn o dan Ddeddf 1993, ond nid pob un o'r cyrff hynny. Mae hyn yn creu'r posibilrwydd y bydd amodau anghyson yn y sectorau hyn a diffyg eglurder i'r defnyddiwr am y gwasanaethau y gall eu disgwyl.
19. Mae Deddf 1993 yn rhoi pwerau hefyd i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ymchwilio i honiadau bod cyrff cyhoeddus wedi mynd yn groes i'w priod gynlluniau iaith Gymraeg, a chyflwyno adroddiad am ei ymchwiliadau. Er hynny, nid oes darpariaethau y gellir eu gorfodi yn achos methiant i ddarparu gwybodaeth i gefnogi ymchwiliadau.
 20. Ymhellach, dim ond un mecanwaith ffurfiol ar gyfer ymchwilio i doriadau o gynlluniau iaith Gymraeg y mae Deddf 1993 yn ei ddarparu ac nid yw'n darparu ar gyfer unrhyw ddewisiadau graddedig. Efallai na fydd un mecanwaith ar gyfer ymchwilio i doriadau mewn perthynas ag ymrwymadau a wnaed mewn cynlluniau iaith Gymraeg yn briodol ym mhob achos, a hwyrach na fydd yn sicrhau'r canlyniadau sy'n iawn i bob defnyddiwr. Mae Gweinidogion Cymru yn credu y dylai trefniadau fod yn hawdd i'w deall ac yn syml i'w gweithredu ac y dylent ganiatáu dulliau priodol a chymesur i ymdrin â chwynion a mynd i'r afael â meysydd sy'n peri pryder.
 21. Mae'r cyfrifoldeb am bolisi ar gyfer llawer o'r gwasanaethau cyhoeddus sydd i'w cwmpasu gan yr GCD arfaethedig wedi'i ddatganoli i Weinidogion Cymru. Er hynny, mae'n un o'r egwyddorion allweddol sydd wrth wraidd y cynigion hyn y dylai dinasyddion feddu ar ddealltwriaeth glir o lefel y gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg y gallant ddisgwyl eu cael ni waeth beth fo natur y darparwydd cyhoeddus. Fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, felly, bwriedir y byddai adrannau'r llywodraeth sy'n gyfrifol am wasanaethau nad ydynt wedi'u datganoli yn gwneud cyfraniad hollbwysig. Mae asiantaethau megis Canolfannau Gwaith, Tollau Cartref a Thramor Ei Mawrhydi, a'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau wedi bod ar flaen y gad ym maes datblygu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg hyd yn hyn.
 22. Y tu hwnt i fynd i'r afael â'r gwendidau sydd wedi dod i'r amlwg yn y system a sefydlwyd gan Ddeddf 1993, yr oedd *Cymru'n Un*, rhaglen lywodraethu Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn cynnwys ymrwymiad i geisio cymhwysedd deddfwriaethol i'w galluogi i ddwyn ymlaen Fesurau Cynulliad i gadarnhau statws swyddogol i'r Gymraeg a'r Saesneg, hawliau ieithyddol ym maes darparu gwasanaethau a sefydlu swydd Comisiynydd Iaith.
 23. Ar hyn o bryd mae gan Weinidogion Cymru swyddogaethau mewn perthynas â'r Gymraeg, ond swyddogaethau cyfyngedig yw'r rhain. O dan Ddeddf 1993, mae swyddogaethau Gweinidogion Cymru'n cynnwys pŵer i benodi aelodau o Fwrdd yr Iaith Gymraeg, pŵer i ddyfarnu pan fo Bwrdd yr Iaith Gymraeg a 'chyrff cyhoeddus' yn methu â dod i gytundeb ar faterion sy'n ymwneud â chynlluniau iaith Gymraeg, a'r pŵer i ychwanegu at y rhestr o 'gyrff cyhoeddus' y gall fod yn ofynnol iddynt lunio cynlluniau iaith

Gymraeg. O dan adran 61(k) o Ddeddf 2006, caiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw beth y maent yn barnu'n briodol i gefnogi'r Gymraeg (er nad yw hyn yn ymestyn i gynnig neu wneud deddfwriaeth). Serch hynny, nid oes gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru unrhyw gymhwysedd deddfwriaethol i newid y fframwaith deddfwriaethol er mwyn ymateb i anghenion ac amgylchiadau sy'n newid, yn y modd a ragwelwyd yn y rhaglen lywodraethu, *Cymru'n Un*.

Cwmpas

24. Cynigir bod dau fater yn cael eu mewnosod ym Maes 20: Y Gymraeg yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i alluogi'r Cynulliad i ddeddfu ar y materion hyn drwy gyfrwng Mesur Cynulliad.
25. Byddai erthygl 3 o'r GCD arfaethedig yn mewnosod Mater 20.1 newydd ym Maes 20. Byddai'r mater hwn yn adleisio'r egwyddorion sydd wrth wraidd Deddf 1993 ac yn adeiladu ar yr egwyddorion hynny, sef hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg; a thrin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, marchnata, rhoi cymorth i sefydliadau, datblygu offer TGCh ac yn y blaen o fewn unrhyw sector penodol, gan adleisio ystod y swyddogaethau sy'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac adeiladu ar y swyddogaethau hynny.
26. Nid yw'r mater hwn yn cynnwys defnydd o'r iaith Gymraeg mewn llysoedd. Mae'r swyddogaethau perthnasol sy'n ymwneud â defnyddio'r iaith mewn llysoedd o dan Ddeddf 1993 yn cael eu harfer ar hyn o bryd gan yr Arglwydd Ganghellor, ac nid yw'r GCD arfaethedig yn ceisio cymhwysedd i newid y sefyllfa.
27. Mae mater 20.1 yn egluro, serch hynny, na fyddai gan y Cynulliad ganiatâd i osod dyletswyddau o dan y mater hwn ar bersonau heblaw'r rhai sy'n dod o fewn y categorïau a restrir ym mharagraffau (a) i (i). Byddai'r GCD arfaethedig yn rhoi cymhwysedd, er enghraifft, a fyddai'n caniatáu i'r Cynulliad osod dyletswyddau ar bersonau, sy'n dod o fewn y categorïau hyn, yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau penodol gael eu darparu'n ddwyieithog i'r cyhoedd yng Nghymru. Byddai darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn adran 94(5) o Ddeddf 2006 yn caniatáu i'r Cynulliad ddarparu rhwymedïau priodol am unrhyw doriad o ddyletswyddau o'r fath, ac nid yw'r GCD arfaethedig yn ceisio ehangu'r darpariaethau hynny mewn unrhyw ffordd.
28. Mae adran 6(1)(o) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn rhoi i Weinidogion Cymru ddisgresiwn i bennu'n gyrrff cyhoeddus y personau y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn bodloni meini prawf sydd wedi'u diffinio. Mae disgresiwn wedi'i ddarparu i Weinidogion Cymru ynglŷn â'r personau a allant ddod yn gymwys i fod yn rhai y byddai'n ofynnol iddynt lunio Cynllun Iaith Gymraeg. Ni fyddai'n bosibl rhoi i'r Cynulliad mewn GCD elfen debyg o ddisgresiwn i benderfynu ar y categorïau o bersonau y gellid

- gosod dyletswyddau arnynt drwy Fesur yn y dyfodol gan nad oes modd i'r Cynulliad gael caniatâd mewn GCD i benderfynu ffiniau ei gymhwysedd ei hun. Gan hynny, mae mater 20.1 yn sefydlu categorïau clir o bersonau y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cael deddfu i osod dyletswyddau mewn cysylltiad â hwy mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'r categorïau o bersonau sydd wedi'u rhestru o dan fater 20.1 wedi'u llunio'n gyfyng i adlewyrchu'r cyrff presennol sy'n dod o fewn cwmpas adran 6(1) o Ddeddf 1993, ynghyd â phersonau o sectorau penodol sy'n disgyn y tu allan i gwmpas Deddf 1993 ar hyn o bryd ond sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus allweddol. Mae'r categorïau, fel y maent wedi'u llunio, yn rhoi cyfle i'r Cynulliad ymdrin â newidiadau seilwaith ac i ddarparu amodau cyfartal mewn sectorau penodedig. Hebddynt byddai'r hyblygrwydd a ganiateir ar hyn o bryd o dan Ddeddf 1993 yn cael ei golli. Pwnc i Fesurau Cynulliad a gynigir yn y dyfodol ac is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Mesurau hynny fydd pennu'r cyrff neu'r personau y gosodir neu y gellir gosod dyletswyddau arnynt.
29. Mae paragraff (a) yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad ddeddfu drwy Fesur i osod dyletswyddau ar 'awdurdodau cyhoeddus'. Mae'r term 'awdurdodau cyhoeddus' wedi'i ddiffinio i gynnwys pob awdurdod cyhoeddus o fewn ystyr Deddf Hawliau Dynol 1998, a byddai'n cynnwys awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol etc. Mae diffiniad tebyg wedi'i ddefnyddio mewn nifer o statudau'r DU, gan gynnwys Deddf Gwrth-derfysgaeth, Troseddu a Diogelwch 2001, Deddf Newid Hinsawdd ac Ynni Cynaliadwy 2006 a Deddf Cardiau Adnabod 2006, ac mae'r un mecanwaith eisoes wedi'i ddefnyddio hefyd yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol a Meysydd Eraill) 2008.
30. Pan fo cyrff cyhoeddus yn allanoli gwaith cyflwyno gwasanaethau i'r cyhoedd, byddai'r Cynulliad yn gallu deddfu o dan baragraff (b) i osod dyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg ar gontractwyr, ond dim ond mewn perthynas â'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu o dan y trefniadau allanoli. Ni allai unrhyw Fesur yn y dyfodol osod dyletswyddau, felly, ynglŷn â'r Gymraeg mewn perthynas ag unrhyw rai o weithgareddau eraill contractiwr (oni fyddant yn dod o dan baragraffau (a) i (i) am resymau eraill).
31. Mae paragraff (b) wedi'i seilio ar y disgrisiwn a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol (disgrisiwn sydd bellach wedi'i drosglwyddo i Weinidogion Cymru) o dan baragraff 6(1)(o)(ii) o Ddeddf 1993 i bennu'n gyrrff cyhoeddus bersonau sy'n cyflawni gweithgareddau a wneir o dan gytundeb neu'n unol â threfniadau a wneir gyda chorff cyhoeddus neu weision neu asiantau'r Goron.
32. Byddai paragraff (c) yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad ddeddfu i osod dyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg ar gyrrff sydd wedi'u sefydlu

- drwy ddeddfiad (er enghraifft, y Gronfa Loteri Fawr, y Comisiwn Etholiadol ac S4C), neu drwy offeryn uchelfreiniol (er enghraifft, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Cyngor Chwaraeon Cymru a'r Cyngor Prydeinig).
33. Byddai paragraff (d) yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad ddeddfu i osod dyletswyddau ar gyrff y mae swyddogaethau darparu gwasanaethau i'r cyhoedd wedi'u rhoi iddynt neu wedi'u gosod arnynt drwy ddeddfiad. Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Llais Defnyddwyr a Buddsoddwyr mewn Pobl y DU.
34. Mae swyddogaethau ('*functions*') yn derm sy'n cael ei ddefnyddio'n helaeth yn Neddf 2006 i gwmpasu pwerau a dyletswyddau. Yr egwyddor y tu ôl i hyn yw mai'r unig bersonau a fyddai'n dod o fewn y cymhwysedd sy'n cael ei gynnig gan baragraff (d) yw'r rhai y mae'r Senedd eisoes wedi rhoi swyddogaethau darparu gwasanaethau i'r cyhoedd iddynt. Dim ond i ddeddfu mewn perthynas â chyrrff neu bersonau a chanddynt swyddogaethau sy'n ymwneud â Chymru y bydd y cymhwysedd yn ymestyn.
35. Byddai paragraff (e) yn rhoi i'r Cynulliad gymhwysedd i ddeddfu i osod gofynion mewn perthynas â'r Gymraeg ar bersonau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru ac sy'n cael arian cyhoeddus hyd at drothwy, neu uwchlaw trothwy, o £200,000 mewn blwyddyn ariannol, a hwnnw'n swm a ddarparwyd yn uniongyrchol gan y Cynulliad, Gweinidogion Cymru, Senedd y DU, Gweinidogion y Goron neu un neu ragor o sefydliadau'r Cymunedau Ewropeaidd, neu'n anuniongyrchol gan neu oddi wrth y cyrrff hyn (er enghraifft, drwy awdurdodau lleol neu Gyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad). Yr egwyddor sylfaenol ym mhob un o'r achosion hyn yw y dylai personau sy'n cael budd o gronfeydd cyhoeddus sylweddol gymhwyso i gyflawni cyfrifoldebau cyhoeddus. Mae cyrrff sy'n dod o fewn y cymhwysedd a gynigir gan baragraff (e) yn cynnwys y rhai sy'n genedlaethol eu natur, megis Canolfan Mileniwm Cymru, Opera Cenedlaethol Cymru a Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru.
36. Byddai paragraff (e) hefyd yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad ddeddfu i osod dyletswyddau ar bersonau mewn perthynas â'u gweithgareddau yng Nghymru os ydynt yn cael arian sy'n dod i gyfanswm o £200,000 neu fwy, mewn blwyddyn ariannol, a'r arian hwnnw wedi ei ddarparu yn rhinwedd deddfiad, er enghraifft, y BBC, sy'n cael arian drwy ffioedd trwydded o dan Ddeddf Gyfathrebu 2003.
37. Ni chaiff personau sy'n cael arian yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y Cynulliad Cenedlaethol, Gweinidogion Cymru, Senedd y DU, Gweinidogion y Goron neu unrhyw un o'r sefydliadau Ewropeaidd ar ffurf

- taliad am wasanaethau neu nwyddau a gyflenwyd ganddynt eu cynnwys o dan baragraff (e) am eu bod wedi cael y symiau arian hynny.
38. Mae paragraff (f) yn cynnig rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad ddeddfu i osod dyletswyddau ar gyrff sy'n ymwneud â rheoleiddio proffesiwn neu ddiwydiant, neu gylch arall o weithgaredd y mae ei natur yn debyg i broffesiwn neu ddiwydiant, o ran eu gweithgareddau yng Nghymru. Byddai 'cylch cyffelyb arall o weithgaredd' yn cynnwys, er enghraifft, gyrff sy'n rheoleiddio gallu aelod o'r cyhoedd i ennill bywoliaeth mewn sector penodol, disgyblaeth benodol neu faes gweithgaredd penodol. Bydd personau neu gyrff sy'n dod o fewn cymhwysedd y Cynulliad o dan baragraff (f) yn cynnwys gyrff megis y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth , y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac yn y blaen.
39. Byddai paragraff (g) yn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu i osod gofynion ynglŷn â'r Gymraeg ar landlordiaid cymdeithasol. Diffinnir 'landlordiaid cymdeithasol' ('*social landlords*') drwy gyfeirio at y diffiniad ym maes 11 y cynigir ei fewnosod yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru drwy fater 11.1 sydd wedi'i gynnwys yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai) 2009. Mae copi o'r diffiniad wedi'i atodi yn Atodiad B.
40. Byddai paragraff (h) yn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu i osod dyletswyddau ar bersonau sy'n darparu i'r cyhoedd yng Nghymru wasanaethau rhestredig penodol, yn ogystal â gwasanaethau cysylltiedig. Mae hyn yn cwmpasu'r gwasanaethau allweddol sy'n cael eu darparu i'r cyhoedd yn ogystal â gwasanaethau cysylltiedig. Mae seilwaith sectorau penodol a newidiadau yn y modd y mae gwasanaethau cyhoeddus wedi'u cyflenwi wedi golygu bod rhai rhannau o sectorau penodol, a'r rheini'n rhannau sy'n wynebu'r cyhoedd, wedi syrthio y tu allan i gwmpas Deddf 1993. Mae'r paragraff hwn wedi'i lunio i roi digon o hyblygrwydd i'r Cynulliad allu deddfu i osod dyletswyddau ar gyrff, hyd yn oed os bydd rhyngwyneb cyhoeddus gwasanaethau cyhoeddus allweddol yn newid dros amser.
41. Mae'r is-baragraffau ym mharagraff (h) yn rhestru'r gwasanaethau y cynigir eu bod yn dod o fewn cymhwysedd y Cynulliad. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys y cyfleustodau (i a ii), gwasanaethau post a swyddfeydd post (iii), gwasanaethau telathrebu (iv), addysg, hyfforddiant neu gyfarwyddyd gyrfaoedd (gan gynnwys gwasanaethau i annog, galluogi neu gynorthwyo pobl i gymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant neu gyfarwyddyd gyrfaoedd, megis UCAS, Cynghorau Sgiliau Sector a Gyrfa Cymru) (v), gwasanaethau rheilffyrdd (gan gynnwys cwmnïau cludo teithwyr rheilffyrdd, Network Rail a gwasanaethau ymholiadau a thocynnau rheilffyrdd) (vi), a byrddau arholi (vii).

42. Mae cafeat pwysig mewn perthynas â pharagraff (h) sy'n cynnig cyfyngu cymhwysedd y Cynulliad yn y cyd-destun hwn - dim ond deddfu i osod dyletswyddau ar ddarparwyr gwasanaethau mewn cysylltiad â'r gwasanaethau a grybwyllwyd y byddai'r Cynulliad yn cael ei wneud, ac wedyn ddim ond pan fo'r gwasanaethau hynny'n cael eu cyflenwi yng Nghymru, ac nid mewn cysylltiad â'u swyddogaethau neu eu gweithgareddau eraill (oni fyddant yn dod fel arall o fewn y cymhwysedd a roddwyd i'r Cynulliad gan baragraffau (a) i (g) ac (i)).
43. Yn olaf, byddai paragraff (i) o fater 20.1 yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad ddeddfu i osod dyletswyddau ar bersonau sy'n gwirfoddoli neu'n ymrwymo i gytundeb i'w gwneud eu hunain yn ddarostyngedig i ofynion o'r fath. Byddai hyn yn darparu bod cyrff yn medru parhau i ddewis ymuno â chynlluniau iaith Gymraeg neu fecanweithiau dilynol, yn yr un modd i raddau helaeth ag y mae cyrff yn dewis ymuno â Buddsoddwyr mewn Pobl a safonau eraill o'r fath.
44. Byddai'r ail fater y cynigir ei fewnosod ym Maes 20 drwy'r GCD (mater 20.2) yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad ddeddfu mewn perthynas â rhyddid personau sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg i wneud hynny â'i gilydd (gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau ar ryddid o'r fath, a allai gynnwys, er enghraifft, cyfyngiadau lechyd a Diogelwch os gellid eu cyfiawnhau). Mae'r amddiffyniad sy'n cael ei gynnig o dan y ddeddfwriaeth gyfredol yn gyfyngedig. Byddai'r mater hwn yn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu i ddiogelu rhyddid unigolion i siarad Cymraeg â'i gilydd.
45. Ni fyddai'r mater hwn yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff gymryd camau cadarnhaol i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg rhwng unigolion - dim ond i barchu'r rhyddid i ddefnyddio'r iaith.

Effaith darpariaethau eraill yn Neddf 2006

46. Mae angen i effaith yr GCD arfaethedig gael ei hystyried yng nghydestun darpariaethau cyfan Deddf 2006.

Terfynau daearyddol unrhyw Fesur Cynulliad

47. Byddai'r GCD arfaethedig yn caniatáu i'r Cynulliad ddeddfu drwy Fesur ynghylch y defnydd ar y Gymraeg yng Nghymru.
48. Byddai erthygl 2 o'r GCD arfaethedig yn sicrhau, pe bai'r Cynulliad o blaid diddymu unrhyw ddarpariaethau yn Neddf 1993, y byddai rhychwant unrhyw ddiddymiad o'r fath yr un fath â rhychwant y ddarpariaeth wreiddiol. Byddai hyn yn caniatáu i'r Cynulliad ddiddymu, drwy Fesur, unrhyw ddarpariaeth yn Neddf 1993 y mae ei rhychwant yn ymestyn y tu

hwnt i'r cymhwysedd a roddwyd i'r Cynulliad gan Ddeddf 2006 (h.y. pan fo Deddf 1993 yn rhychwantu'r Alban neu Ogledd Iwerddon). Mae'r erthygl hon wedi'i chyfyngu i ddiddymu darpariaethau ac ni fyddai'n caniatáu i unrhyw ddeddfwriaeth 'newydd' gael ei gwneud. Byddai'n ddarostyngedig, beth bynnag, i'r gofynion, sydd wedi'u nodi yn Neddf 2006, ynghylch ceisio cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol os byddai unrhyw ddiddymiad yn arwain at ddileu neu addasu swyddogaeth sydd gan un o Weinidogion y Goron.

Addasiadau i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

49. Mae erthygl 4 yn cynnig rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad ddeddfu drwy Fesur i ddiwygio adrannau 35(1) a 78 o Ddeddf 2006 a pharagraff 8(3) o Atodlen 2 iddi er mwyn gallu deddfu ynglŷn â'i hun, Gweinidogion Cymru neu Gomisiwn y Cynulliad. Byddai hynny'n caniatáu i'r Cynulliad roi'r cyrff hynny ar yr un telerau â chyrrff cyhoeddus eraill.
50. Mae angen y gallu i ddiwygio'r adrannau hynny er mwyn caniatáu i'r Cynulliad gael yr hyblygrwydd i osgoi cael system amilhaenog yn y dyfodol; y nod yw darparu system sydd mor rhwydd ac effeithiol â phosibl i'r defnyddiwr. Er enghraifft, mae adran 78 yn dweud bod yn rhaid i Weinidogion Cymru fabwysiadu cynllun iaith Gymraeg. Os byddai'r Cynulliad o blaid deddfu i symud i ffwrdd o gynlluniau iaith Gymraeg, yna heb gymhwysedd i ddiwygio adran 78, Gweinidogion Cymru fyddai'r unig bersonau ar ôl a fyddai'n dal i weithredu o dan yr 'hen' system.

Swyddogaethau Gweinidog y Goron

51. Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu ei gwneud yn ofynnol i gyrff y Goron, gan gynnwys Gweinidogion y Goron, gydymffurfio'n fras â'r un dyletswyddau â phob corff cyhoeddus arall, pan fo'r Ysgrifennydd Gwladol yn cydsynio â hynny. Bydd hyn yn gofyn am ddiwygiad cyfyngedig i Ddeddf 2006, o ran Maes 20: y Gymraeg yn unig. Byddai'r diwygiad a gynigir yn caniatáu i'r Cynulliad roi dyletswyddau neu bwerau newydd i Weinidogion y Goron neu eu gosod arnynt, ond dim ond gyda chydysyniad yr Ysgrifennydd Gwladol, ac nid yn y fath fodd ag i beri i Weinidogion y Goron fod yn agored i gael eu cosbi am dramgwyddau troseddol.
52. Ymrwymodd Gweinidogion y Llywodraeth, yn ystod hynnt Deddf 1993, i addewid y byddai cyrrff y Goron, gan gynnwys Gweinidogion y Goron, yn paratoi cynlluniau iaith Gymraeg. O ganlyniad, er mwyn caniatáu i'r Cynulliad wneud darpariaethau i gymhwyso swyddogaethau yn deg ac yn gyson i bob corff cyhoeddus, byddai Erthygl 5 o'r GCD arfaethedig yn addasu paragraff 7 Rhan 3 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006 er mwyn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad ddeddfu i roi dyletswyddau i Weinidogion y

Goron, neu osod dyletswyddau arnynt, mewn perthynas â'r Gymraeg, gyda chydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol.

53. Ar hyn o bryd, mae paragraff 7 Rhan 3 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006 yn caniatáu i ddarpariaeth mewn Mesur Cynulliad ddileu neu addasu swyddogaethau Gweinidog y Goron gyda chydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol, ond nid oes unrhyw ddarpariaeth o'r fath yn bodoli i ganiatáu i swyddogaethau gael eu rhoi neu eu gosod. Mae Erthygl 5 o'r GCD arfaethedig yn atgynhychu darpariaethau'r paragraff 7 cyfredol mewn is-baragraff 7(2) newydd, er mwyn caniatáu i ddarpariaeth mewn Mesur Cynulliad yn y dyfodol roi swyddogaethau ynghylch y Gymraeg i Weinidogion y Goron neu eu gosod arnynt, gyda chydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae angen yr Erthygl hon i roi i'r Cynulliad gymhwysedd i allu atal system amlhaenog rhag bodoli yn y dyfodol, a honno'n system lle byddai Gweinidogion y Goron yn darparu lefel o wasanaeth a fyddai'n wahanol i weddill y sector cyhoeddus. Byddai Erthygl 5 yn caniatáu i'r Cynulliad gael hyblygrwydd i allu darparu system gyson a rhydd ar draws y sector cyhoeddus.
54. Nid yw'r GCD arfaethedig ynddo'i hun yn ceisio addasu na dileu unrhyw swyddogaethau sydd gan Weinidogion y Goron. Yn rhinwedd Rhan 2 a Rhan 3 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006, ni chaiff y Cynulliad drwy Fesur newid swyddogaethau un o Weinidogion y Goron heb gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol. O ran unrhyw gynigion yn y dyfodol a all effeithio ar swyddogaethau Gweinidog y Goron, ymgynghorir ag Adrannau priodol Llywodraeth y DU, a cheisir dod i gytundeb am unrhyw gynigion yn y dyfodol i newid neu addasu'r swyddogaethau hynny.

Y Casgliad

55. Am y rhesymau a amlinellwyd uchod, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dymuno cynnig y dylid rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â'r Gymraeg, yn nhermau'r drafft atodedig o'r GCD arfaethedig.

Ionawr 2009

Atodiad A

Gweler y Memorandwm Esboniadol a'r Atodiad llawn ar wefan y Pwyllgor:
<http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-legislative-competence-orders/bus-legislation-lco-2009-no10.htm>

Llythyr yr Ymgynghoriad

Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

Legislation Committee No. 5



Cynulliad National
Cenedlaethol Assembly for
Cymru Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

12 Chwefror 2009

Annwyl Gydweithiwr

Ymgynghoriad cyhoeddus (dyddiad cau - 20 Mawrth 2009)

Gorchymyn Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Yr Iaith Gymraeg) 2009

Ysgrifennaf atoch i'ch gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig, *Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Yr Iaith Gymraeg) 2009* ('y Gorchymyn arfaethedig') erbyn dydd Gwener 20 Mawrth 2009.

Gosodwyd y Gorchymyn arfaethedig gerbron y Cynulliad ar 2 Chwefror 2009 gan Alun Ffred Jones AC, y Gweinidog dros Dreftadaeth, ac fe'i cyfeiriwyd at Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 i'w ystyried yn fanwl. Mae'r Pwyllgor yn bwriadu cyflwyno adroddiad yn nodi ei gasgliadau ar y Gorchymyn arfaethedig yn ystod hanner cyntaf tymor yr haf.

Bydd gwaith y Pwyllgor yn canolbwyntio ar ystyried a ddylai fod gan y Cynulliad y pŵer, mewn egwyddor, i ddeddfu drwy Fesur yn y maes a nodir yn y Gorchymyn arfaethedig:

- hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg, yn cynnwys gosod dyletswyddau ar gategoriâu penodol o bersonau i ddarparu gwasanaethau penodol yn ddwyieithog i'r cyhoedd yng Nghymru; a
- rhyddid personau i gyfathrebu â'i gilydd yn Gymraeg.

Yn ei gyfarfod cyntaf ar 10 Chwefror 2009, cytunodd y Pwyllgor ar gwmpas ei waith craffu ar y Gorchymyn arfaethedig, gan ystyried yn benodol:

- (i) egwyddorion cyffredinol y Gorchymyn arfaethedig ac a ddylid rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad yn y maes a nodir ym Materion 20.1 a 20.2; a

(ii) a yw telerau'r Gorchymyn arfaethedig wedi'u diffinio'n rhy eang neu'n rhy gul.

Yn ôl arfer pwyllgorau deddfwriaeth wrth ystyried cynigion ar gyfer Gorchymynion Cymhwysedd Deddfwriaethol, bydd y Pwyllgor yn osgoi adolygu polisiau sydd eisoes yn bodoli yn y maes hwn neu gymryd rhan mewn trafodaethau manwl ar y cynigion penodol ar gyfer Mesurau y gellir eu cyflwyno o ganlyniad i roi cymhwysedd deddfwriaethol, er enghraifft, safbwyntiau o ran sut y dylid gweithredu Mesurau. Mater i'r Cynulliad graffu arno'n ddiweddarach yw hwn.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y Gorchymyn arfaethedig, y Memorandwm Esboniadol, manylion y Pwyllgor a chanllaw i'r broses ddeddfu ar dudalennau deddfwriaeth gwefan y Cynulliad (Busnes / Deddfwriaeth / Gorchymynion Cymhwysedd Deddfwriaethol / Rhif 10 - yr Iaith Gymraeg):
<http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-legislative-competence-orders/bus-legislation-lco-2009-no10.htm>

Gwahoddir unrhyw un sydd â diddordeb yn y Gorchymyn arfaethedig i gyflwyno tystiolaeth arno, a hynny er mwyn helpu i lywio gwaith y Pwyllgor. Wrth baratoi eich cyflwyniad, byddai'n ddefnyddiol pe gallech fynd i'r afael â'r cwestiynau a nodwyd gan y Pwyllgor - gweler Atodiad 1. Ceir manylion o ran sut i ymateb yn Atodiad 2.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymgynghoriad neu waith y Pwyllgor, cysylltwch ag Anna Daniel, y Clerc (ffôn 029 2089 8144), neu Olga Lewis, y Dirprwy Glerc (ffôn 029 2089 8154).

Mark Isherwood AC
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ymgynghoriad ar Orchymyn Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Yr Iaith Gymraeg) 2009

Mae'r Pwyllgor wedi lansio ymgynghoriad cyffredinol sy'n canolbwyntio ar dri chwestiwn allweddol yn ymwneud â'r Gorchymyn arfaethedig. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gofyn am sylwadau ar gwestiynau mwy manwl mewn perthynas â chwmpas y Gorchymyn arfaethedig. Ymatebwch yn y ffordd sydd fwyaf priodol i lefel eich diddordeb a'ch maes diddordeb o ran y Gorchymyn arfaethedig.

Ymgynghoriad cyffredinol:

Nodwch eich barn o ran a ddylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru allu deddfu mewn perthynas â'r iaith Gymraeg.

1. A ddylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru allu deddfu mewn perthynas â hyrwyddo a defnyddio'r iaith Gymraeg? [gweler hefyd gwestiynau 4, 5 ac 11 isod]
2. A ddylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru allu deddfu mewn perthynas â phawasaethau ddylai'r cyhoedd allu eu cael yn ddwyieithog? [Er mwyn gweld trafodaeth fanylach ar yr agwedd hon, gweler cwestiynau 6-9 ac 11 isod]
3. A ddylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru allu deddfu mewn perthynas â rhyddid pobl i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd? [gweler hefyd gwestiwn 10 isod]

Ymgynghoriad manwl:

4. Beth yw eich barn am yr egwyddor cyffredinol y dylid rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad yn y maes a nodir ym Materion 20.1 a 20.2? hy

- Mater 20.1: Hybu neu hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg; a thrin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg ar sail cydraddoldeb;
- Mater 20.2: Darpariaeth am neu mewn cysylltiad â rhyddid personau sy'n dymuno defnyddio'r iaith Gymraeg i wneud hynny â'i gilydd (gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau ar y rhyddid hwnnw).

5. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y byddai Mater 20.1 yn adleisio'r egwyddorion sydd wrth wraidd Deddf 1993 ac yn adeiladu ar yr egwyddorion hynny a hefyd yn caniatáu i'r Cynulliad deddfu ar ystod y swyddogaethau sy'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac adeiladu ar y

swyddogaethau hynny. A ydych yn cytuno y bydd yn caniatáu i'r Cynulliad wneud hyn? Os na, sut y dylid ei ddiwygio?

6. Beth yw eich barn ar gwmpas y Gorchymyn arfaethedig o ran y categorïau o bersonau y byddai'n caniatáu i'r Cynulliad osod dyletswyddau arnynt i ddarparu gwasanaethau penodol yn ddwyieithog i'r cyhoedd, hy a yw wedi'i lunio'n rhy gul neu'n rhy eang (Mater 20.1 (a) - (i))? Nodwch yn glir yr isadran/isadrannau y mae eich sylwadau yn ymwneud â hi/â hwy, hy (a) - (i) ac unrhyw is-isadrannau o dan (h).

7. A yw'r diffiniad a ddefnyddir ar gyfer "awdurdodau cyhoeddus" ar gyfer y Mater hwn yn briodol ("pob awdurdod cyhoeddus sy'n dod o fewn ystyr "public authority" yn adran 6 Deddf Hawliau Dynol 1998")? Os na, pa ddiffiniad y dylid ei ddefnyddio a pham?

8. Byddai Mater 20.1 yn caniatáu i ddyletswyddau gael eu gosod ar "wasanaethau telathrebu" a "gwasanaethau post a swyddfeydd post" (Mater 20.1 isadran (h)(iii) a (h)(iv)). A yw'r diffiniadau a ddefnyddir ar gyfer "gwasanaethau post", a "gwasanaethau telathrebu" o dan yr adran "Dehongli'r maes hwn" yn y Gorchymyn arfaethedig yn angenrheidiol ac yn briodol? Os na, sut y dylid mynd ati i'w hailddrafftio a pham y dylid gwneud hyn?

9. Mewn perthynas â Mater 20.1, isadran (e) - "personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd sy'n derbyn cyfanswm o £200,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol", sef "arian y perir ei fod ar gael yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol":

(i) A yw'n angenrheidiol nodi'r diffiniad o "arian cyhoeddus" yn y Gorchymyn arfaethedig? Os felly, a yw'n briodol (fel y'i nodir o dan "Dehongli'r maes hwn")?

(ii) Byddai dyletswyddau ond yn cael eu gosod ar bobl sy'n derbyn mwy na £200,000. Ai £200,000 yw'r trothwy cywir i'r Cynulliad gael pwerau deddfu?

10. A yw cwmpas Mater 20.2 yn briodol ("darpariaeth am neu mewn cysylltiad â rhyddid personau sy'n dymuno defnyddio'r iaith Gymraeg i wneud hynny â'i gilydd (gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau ar y rhyddid hwnnw)")? A fydd yn caniatáu i'r Cynulliad ddeddfu yn y dyfodol er mwyn gweithredu'r cynnig fel y mae wedi'i amlinellu yn y Memorandwm Esboniadol?

11. Beth yw eich barn ynghylch Erthyglau 4 a 5 y Gorchymyn arfaethedig sy'n ymdrin â chymhwyso'r Gorchymyn arfaethedig i gyrff y Goron?

12. A oes unrhyw faterion eraill a fyddai'n dylanwadu ar effeithiolrwydd unrhyw Fesurau yn y dyfodol gan nad yw'r Gorchymyn arfaethedig yn ddigon eang? Os

felly, a allwch awgrymu sut y byddai'n rhaid ehangu'r Gorchymyn arfaethedig er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn?

Sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Os hoffech ymateb i'r ymgynghoriad, cofiwch y pwyntiau a ganlyn:

- Dylai eich ymateb fod mor gryno â phosibl. Nodwch y teitl isod ar eich ymateb;
- Nodwch a ydych yn ymateb ar ran sefydliad neu fel unigolyn;
- Fel arfer, bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn i'r cyhoedd graffu arnynt, er enghraifft drwy wefan y Cynulliad. Fel arfer, byddwn yn cyhoeddi enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr awdur ynghyd â'r ymateb. Os nad ydych am i ni gyhoeddi eich ymateb neu eich enw a'ch cyfeiriad (neu ran o'r cyfeiriad) mae'n bwysig eich bod yn nodi hyn yn glir yn ysgrifenedig ar ddiwedd eich cyflwyniad.

Er mwyn defnyddio llai o bapur ar gyfer yr ymgynghoriad, cyflwynwch eich ymateb yn electronig lle bynnag y bo'n bosibl, a hynny drwy anfon e-bost i: swyddfadeddfwriaeth@cymru.gsi.gov.uk

Fel arall, gallwch bostio eich ymateb (ar ddisg neu ar ffurf copi caled) i:
Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5
Y Swyddfa Ddeddfwriaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Defnyddiwch y canlynol fel teitl eich e-bost neu'ch cyflwyniad:
"Ymgynghoriad PD5 (LCO- Yr Iaith Gymraeg)".

Dylid sicrhau ein bod yn derbyn eich cyflwyniadau erbyn dydd Gwener 20 Mawrth 2009. Efallai na fydd yn bosibl ystyried ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg a Saesneg. Os oes diddordeb gennych mewn cael gwybodaeth am unrhyw ymgynghoriad ar y maes hwn yn y dyfodol, nodwch hyn yn eich ymateb.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch ag Anna Daniel, y Clerc (ffôn: 029 2089 8144), neu Olga Lewis, y Dirprwy Glerc (ffôn: 029 2089 8154).

Dweud eich dweud

A ddylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru allu gwneud cyfreithiau ar y canlynol yn eich barn chi:

1. hyrwyddo a defnyddio'r iaith Gymraeg?
2. pa wasanaethau ddylai'r cyhoedd allu eu cael yn ddwyieithog?
3. rhyddid pobl i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd?

swyddfadeddfwriaeth@cymru.gsi.gov.uk

Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad yw 20 Mawrth 2009.

Am ragor o wybodaeth ewch i www.cynulliadcymru.org

Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig

Ymatebion gan Sefydliadau

IG1(o)	Byddin yr Iachawdwriaeth
IG2(o)	Bwrdd yr Iaith Gymraeg
IG3(o)	Stonewall Cymru
IG4(o)	Mentrau Iaith Gymraeg
IG5(o)	Cymdeithas Ysgolion Dros Addysg Gymraeg (CYDAG)
IG6(o)	Y Ffederasiwn Busnesau Bach
IG7(o)	Siambwr Fasnach Gorllewin Cymru
IG8(o)	Urdd Gobaith Cymru
IG9(o)	Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
IG10(o)	Cyddfederasiwn Diwydiant Prydain
IG11(o)	Mudiadau Dathlu'r Gymraeg
IG12(o)	Siambwr Fasnach De Cymru
IG13(o)	Cyngor Cymunedol Llanedi
IG14(o)	Fforwm Gwledig Canolbarth Sir Fynwy
IG15(o)	Merched y Wawr
IG16(o)	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
IG17(o)	Dinas a Sir Abertawe
IG18(o)	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
IG19(o)	Cyngor Tref Llansawel
IG20(o)	Cyngor Cymunedol Bagillt
IG21(o)	Cyngor Cymunedol Llantrisant Fawr
IG22(o)	Siambwr Fasnach Gogledd Cymru
IG23(o)	Gwasanaeth Ymholiadau Trenau Cenedlaethol
IG24(o)	Trenau Arriva Cymru
IG25(o)	Sefydliad y Cyfarwyddwyr
IG26(o)	Di-enw
IG27(o)	Menter Iaith Ceredigion
IG28(o)	Grŵp y Post Brenhino
IG29(o)	Eglwys Bresbyteraidd Cymru
IG30(o)	Gofal Canser y Fron Cymru
IG31(o)	Menter Iaith Sir Benfro
IG32(o)	Cyngor Sir Ynys Môn
IG33(o)	TUC Cymru
IG34(o)	Esgobion yr Eglwys yng Nghymru
IG35(o)	Y Sefydliad Siartredig Marchnata
IG36(o)	Mentrau Iaith Cymru
IG37(o)	Rhieni Dros Addysg Gymraeg
IG38(o)	Cymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant
IG39(o)	Cyngor Tref Abergele
IG40(o)	Cyngor Sir Gâr
IG41(o)	Nwy Prydain
IG42(o)	Cartrefi Cymunedol Cymru
IG43(o)	Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Powys
IG44(o)	Llais Defnyddwyr Cymru

IG45(o)	Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
IG46(o)	Rhwydiath - rhwydwaith swyddogion iaith Cymru
IG47(o)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
IG48(o)	Mobile Broadband Group
IG49(o)	Cyngor Sir Ceredigion
IG50(o)	Virgin Media
IG51(o)	Cymdeithas y Cyfreithwyr
IG52(o)	Prifysgol Glyndŵr Wrecsam
IG53(o)	Cymdeithas Telathrebu Cystadleuol y DU
IG54(o)	Cyngor Llywodraethol Gwasanaeth Tribiwnlys Prisio Cymru
IG55(o)	BT Cymru
IG56(o)	Cyngor Sir Powys
IG57(o)	E.ON UK ccc
IG58(o)	Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru
IG59(o)	Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu
IG60(o)	Is-bwyllgor Cydraddoldeb Awdurdod Tân ac Achub De Cymru
IG61(o)	Cyngor Sir y Fflint
IG62(o)	Ymddiriedolwr Cenedlaethol y BBC i Gymru
IG63(o)	Cyngor Sir Ddinbych
IG64(o)	Scottish Power
IG65(o)	Cyngor Cymunedol Llanelwyr
IG66(o)	RNIB Cymru
IG67(o)	S4C
IG68(o)	Npower Cyf
IG69(o)	Cyflwynwyd y llythyr gan ganghennau Merched y Wawr - 67 o ganghennau
IG70(o)	Comisiynydd Plant Cymru

Ceir ymatebion i'r ymgynghoriad yn:

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-legislative-competence-orders/bus-legislation-lco-2009-no10/nafw_lc5-wl_consultation/nafw_lc5_wllco_responses_from_organisations.htm

Ymatebion gan Unigolion

IG1(i)	Llewelyn Rhys
IG2(i)	Di-enw
IG3(i)	Mrs L Williams
IG4(i)	Dave Humphreys
IG5(i)	Morwen Rowlands
IG6(i)	Huw Dixon
IG7(i)	Cllr W Gwyn Hopkins
IG8(i)	Regina Evans
IG9(i)	Pete Keohane
IG10(i)	Peter Dutton
IG11(i)	Hywel Evans
IG12(i)	Malcolm Taylor
IG13(i)	Mr B Griffiths
IG14(i)	J A Jones
IG15(i)	Medwyn Roberts
IG16(i)	H. Hughes-Roberts
IG17(i)	R.D Jones and Mererid Jones
IG18(i)	Brian W Baldwin
IG19(i)	Spencer Harris
IG20(i)	Michael Edwards
IG21(i)	Siôn Jones
IG22(i)	Di-enw
IG23(i)	Di-enw
IG24(i)	J. M. Lowe
IG25(i)	A. V Matthews MBE
IG26(i)	Dr David Dalby
IG27(i)	Diane Fontenoy
IG28(i)	Di-enw
*IG29(i)	Neges yn galw am enhangu cwmpas y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol – arwyddwyd gan 210 o bobl
IG30(i)	Dr Bruce Griffiths
IG31(i)	Eirian Hughes
IG32(i)	Maggie Sims
IG33(i)	Di-enw
IG34(i)	Miss M Jones, Gwynedd
IG35(i)	P Jones, Llanelli
IG36(i)	Eric George
IG37(i)	Mr M Jackson
IG38(i)	Di-enw
IG39(i)	M. L. Simmons, Chepstow
IG40(i)	Mr and Mrs A Humsden, Montgomery, Powys
IG41(i)	Di-enw
IG42(i)	Huw Jones, Porthaethwy
IG43(i)	Melissa Toombs
IG44(i)	Ffred Ffrancis, Sir Gaerfyrddin

IG45(i)	Lionel G Roberts Bennetto
IG46(i)	Eveline Clarke, Bill Clarke, Edward Lofts and Carolann Lofts
IG47(i)	Di-enw, Caerdydd
IG48(i)	Richard Foster
IG49(i)	Glynne A Tidmarsh, Pembrokeshire
IG50(i)	A. Waring
IG51(i)	Dafydd Chilton
IG52(i)	Peter Johns
IG53(i)	Di-enw
IG54(i)	Emrys Roberts, Flintshire
IG55(i)	L. Parc, Gwynedd
IG56(i)	Liz Perry
IG57(i)	Di-enw
IG58(i)	Geraint Bevan, Carmarthen
IG59(i)	Richard Hennessey, Wrexham
IG60(i)	Dilys R. Davies
IG61(i)	Gordon W. Triggs
IG62(i)	Iwan Williams
IG63(i)	Di-enw
IG64(i)	Aled Lewis Evans
IG65(i)	David Geldart
IG67(i)	Roy Edwards
IG68(i)	Anne Jones, Dyffryn Ardudwy
IG69(i)	Robert Lloyd
IG70(i)	Di-enw

Ceir ymatebion i'r ymgynghoriad yn:

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-legislative-competence-orders/bus-legislation-lco-2009-no10/nafw_lc5-wl_consultation/nafw_lc5_wllco_individual-reponses.htm

*IG29(i) Cyflwynwyd y neges hon gan yr isod:

Hedd Gwynfor, Pontyberem
Alexander Vaughan-Thomas,
Uxbridge
Lleucu Meinir, Caerdydd
Beryl H Griffiths, Gwynedd
Ieuan Pritchard
Robin Huw Roberts, Ynys Môn
Caryl Parry Jones, Y Bontfaen,
Mererid Jones, Bala
Mr B Griffiths, Miss M Griffiths
(Both On One Email),
Dinbych/Denbigh
John Williams, Gwynedd
Robert Joseph Jones,
Schenectady, Usa

Phil Steele, Ynys Môn
Owain Schiavone, Ceredigion
Anthony Zack Thomas Williams,
Caerdydd
J Roberts, Bangor
Gwenno Dafydd, Ceredigion
Tegau Andrews, Gwynedd
Rhisiart Ap Gwilym, Rhisiart Ap
Gwilym
Eryl Humphries, Eryl Humphreys
Rhys Clyburn, Sheffield
Lyndon Jones, Blaenau Gwent
Arwel Roberts, Gwynedd
Manon Fflur Williams, Rhuthun
Nia Higginbotham, Llandudno

Iwan Gwyn Williams, Rhuthun
Delwyn Tibbott, Caerdydd
Darren John Lewis, Penmain
Bedwyr Davies, Bedwyr Davies
Selwyn Lloyd, Gwynedd
Sian Harris, Caerdydd
Daniel Gwydion Williams,
Pontardawe
Thomas Geraint Marks, Sir
Gaerfyrddin
Tamsin Elizabeth Cathan Davies,
Powys
Rhys Ap Gwilym, Caerdydd
Lowri Jones, Gwynedd
Esyllt Jones, Gwynedd
Rhodri Glyn, Conwy
Catrin Stevens, Abertawe
Gareth Thomas, Gwynedd
Osian Rhys Thomas, Aberystwyth
Gareth Haulfryn Williams,
Gwynedd
Hefin Jones, Caerdydd
Siân Cwper, Gwynedd
Hywel Iorwerth, Caerdydd
Geraint Northam, Gwynedd
Mr Rhys Ap Rhobert, Sir
Gaerfyrddin
Tomos Michael Rogers, Bro
Morgannwg
Gareth Jamie Bevan, Merthyr
Tudful
Sian Howys, Aberystwyth
Glenys Morgan, Ceredigion
Aeddan Ap Garth, Conwy
Mali Llywelyn Lewis, Beo
Morgannwg
Marged Haycock, Aberystwyth
Anna Felicity Roberts, Ceredigion
Owain Llyr Davies, Ceredigion
Ellir Jones, Llanelli
Lewis Robert, Bangor
Sam Sheridan
Michael Payne, Merthyr Tudful
Lowri Angharad Jones, Ynys Mon
Rhian Morgan Ellis
Valerie Wakefield, Ynys Môn
Tegwyn Jones, Ceredigion
Samuel Lloyd Williams, Sir Fynwy
Chris Lewis, Caerdydd
Rhodri Evans, Abertawe

Simon Rees Williams, Sion Rees
Williams
Rhys Ap Trefor, Caerdydd
Dewi Owen Jones, Gwynedd
Timothy Huw Davies, Gwlad Belg
John Pritchard, Wreccsam
Pol Wong, Sir Dinbych
Dr Ian Garth Higginbotham, Conwy
Robin Glyn, Caernarfon
Sion Llewlyn Jones, Gwynedd
Lowri Ifan, Gwynedd
Andrew Evans, Swansea
Dafydd Hywel Evans, Sir Ddinbych
Mirian Llwyd Owen, Caernarfon
William Gwyn Hopkins, Llanelli
Phyl Griffiths, Merthyr Tudful
Dewi Wyn Evans, Penarth
Gwilym Morus, Caernarfon
Rhodri Graham Daniel, Avon
Huw Jones, Ynys Mon
Ioan Teifi, Pencader
Sioned Haf, Sir Gar
Gwawr Evans, Ynys Mon
Huw Morgan Jones, Caerdydd
Alwen Ann Jones, Ceredigion
Roger Lewis Howell, Merthyr
Tudful
Manon Wyn, Gwynedd
Evie Wyn Jones, Gwynedd
Rhys David Jones, Merthyr Tydfil
Eryl Bryn Davies, Caernarfon
Winifred Davies, Ceredigion
Carys James, Ceredigion
Miren Begoña Olaizola, Gwlad Y
Basg
Osian Ap Garthm, Conwy
Pryderi Ap Rhisiart, Gwynedd
C Griffiths, Maesteg
Gethin Lewis, San-Cler
Arwel Wyn Jones, Rhymney
Aled Llion Jones, Llanymddyfri
William H Howells, Aberystwyth
Eifion Hughes, Merthyr Tydfil
Robert Hughes, Treharris
Steffan Rogers, Llanelli
Delyth Morgan-Coghlan, New
Zealand
Steffan Ap Owain, Gwynedd
Gareth Llwyd, Gwynedd
William Paul Maddocks, Caerdydd

Huw Bowen, Abertawe
Cerith Rhys Jones, Sir Gar
Daff Davies, Merthyr Tudful
Randal Isaac, Sir Gaerfyrddin
E. Wyn James, Caerdydd
Alcwyn Deiniol Evans, Bro
Morgannwg
Huw Parry-Evans, Caerdydd
Mared Fflur Ifan, Caerfyrddin
Fflur Gwenllian Roberts, Gwynedd
Anne Loughran, Caerfyrddin
Nest Tudur Evans, Sir Conwy
Morgan Rhys Hopkins, Caerdydd
Elisabeth June Huws, Caerdydd
Eleri David, De Morgannwg
Simon Evans, Caerdydd
Owen Gwilym Jones, Gwynedd
Janet Jones, Gwynedd
Mr Howard Huws, Gwynedd
Ifan Prys Edwards, Aberystwyth
Hazel Charles Evans, Rhydaman
R. Gareth Jones, Pontypridd
Heini Gruffudd, Abertawe
Colin Jones, Sit Y Fflint
Richard Coupe, Ynys Mon
Gerald Coles, Pencader
Sion Britton, Gwynedd
Stephen Edward Lake, Caerdydd
Ffred Ffransis, Pencader
Hefina Roberts, Gwynedd
Malcolm Davies, Ceredigion
Leighton P Cody, Caerdydd
Alison Carden, Gwynedd
Christopher Bailey, Powys
Menna Machreth, Bangor
C. Ciaran
Seran Dolma, Gwynedd
Ifor Glyn Efans, Eryri
Catherine Jones, Llanelli
Rhian Wyn Jones, Gwynedd
Heledd Awen Jones, Sir
Gaerfyrddin
Lowri Angharad Jones, Rhondda
Cynon Taf
Ffion Mair Jones, Rhondda Cynon
Taf
Caryl Davies, Ceredigion
Gwenllian Jones, Sir Gar
Rhian Mair Andrews, Belfast
Geraint Owen Morse, Llundain

Dewi Wyn Owen, Ceredigion
Angharad Griffiths, Caernarfon
Carwen Williams, Ceredigion
Llinos Manon Williams, Gwynedd
Phil Evans, Ceredigion
Elliw Alwen, Conwy
Jen Llywelyn, Ceredigion
Patrick Béchard, Llydaw
Elin Mair Morgan
Sioned Elias Regan Pierce,
Gwynedd
Mair Owen Price, Gwynedd
Sioned Elias Regan Pierce,
Gwynedd
Paulina Maria Bloor, Caerffili
Andrew David Ralph Settatee,
Caernarfon
Dr Rowland Iestyn Daniel,
Aberystwyth
Melanie Davies, Ceredigion
Lowri Johnston, Caerfyrddin
Joseff Phylip Rhys, Casnewydd
Linda Brown, Gwynedd
Gareth Huw Ifan, Maesteg
Angharad Tomos, Penygroes
Nerys Thomas, Bae Colwyn
Gwyndaf Ap Steffan, Caerdydd
Markus A. Wursthorn, Lörrach
Mary Steele, Powys
Gwenno Dafydd
Caren Brown, Gwynedd
Garmon Ap Garth, London
Megan Eluned Jones, Gwynedd
Geoffrey Jones, Sir Ddinbych
Rhys Thomas, Neath Port Talbot
Nia O' Marah, Bethesda
Sara Orwig, Caerdydd
Mair Stuart, Bedwas
Elis Davies, Gwynedd
Hywel Meilyr Griffiths, Ceredigion
Gwen Elis-Parri, Conwy
Einir Sion, Pontypridd
Sion Owain, Sir Ddinbych
Meredydd Owen, Rhct
Lois Angharad Wyn, Gwynedd
Dr D Davies, Caerfyrddin
Branwen Niclas; Gwynedd
Olwen Peris Griffiths, Conwy
Sian Lloyd Roberts
Nia Davies, Caerdydd

Siân Eleri Roberts, Gwynedd
 Omer Williams, Casnewydd
 Mair Angharad Jones, Caernarfon

Gruffydd Williams, Gwynedd
 Elin Wyn Jones, Caerdydd
 Andrew Williams, Caerdydd

Tystiolaeth ychwanegol

IG1(a)	Bwrdd yr Iaith Gymraeg
IG2(a)	Mentrau Iaith Cymru
IG3(a)	Cwmni Iaith (November 2007), Creu Cymru Gwbl Ddwyieithog: Cyfleoedd deddfu a gweithredu polisi (Cyflwynwyd gan Mentrau Iaith Cymru)
IG4(a)	Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
IG5(a)	Cymdeithas yr Iaith Gymraeg: Mesur yr Iaith Gymraeg 2007
IG6(a)	Mudiadau Dathlu'r Gymraeg
IG7(a)	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru: O'n gwirfodd – Canllawiau arfer da i ddatblygu'r Gymraeg yn y sector gwirfoddol
IG8(a)	Yr Athro Colin H Williams, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd
IG9(a)	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
IG10(a)	Cymdeithas yr Iaith Gymraeg Y Galw Am Ddeddfwriaeth Newydd, Mawrth 2009
IG11(a)	Mobile Broadband Group
IG12(a)	Scottish Power
IG13(a)	Cymdeithas y Cymdeithasau Adeiladu
IG14(a)	NatWest, Royal Bank of Scotland Group
IG15(a)	Lloyds Banking Group
IG16(a)	Cyd-ffederasiwn Cludwyr Teithwyr Cymru

Ceir ymatebion i'r ymgynghoriad yn:

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-legislative-competence-orders/bus-legislation-lco-2009-no10/nafw_lc5-wl_consultation/nafw_lc5_wllco_tystiolaeth_ysgrifenedig_ychwanegol.htm

Tystiolaeth o wledydd eraill

IG1(c)	Comisiynydd Ieithoedd Swyddogol New Brunswick
IG2(c)	An Coimisinéir Teanga (Comisiynydd yr Iaith Wyddeleg)
IG3(c)	Llywodraeth Catalonia
IG4(c)	Gwlad y Basg
IG5(c)	Cynulliad Swedaidd y Ffindir
IG6(c)	Talaith Fryslân - Atlas yr iaith Ffrisaid
IG7(c)	Mercator: astudiaeth o ddatganoliad pwerau a darpariaethau deddfwriaethol
IG8(c)	Québec: iaith y gwaith a ffrengigo busnes
IG9(c)	Québec: Cwestiynau ac atebion ynghylch polisi iaith Québec

Ceir ymatebion i'r ymgynghoriad yn:

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-legislative-competence-orders/bus-legislation-lco-2009-no10/nafw_lc5-wl_consultation/nafw_lc5_wllco_tystiolaeth_ysgrifenedig_ychwanegol-2.htm

Amserlen y Dystiolaeth Lafar

Dyddiad	Tystion
24 Chwefror 2009	Alun Ffred Jones AC, y Gweinidog dros Dreftadaeth
3 Mawrth 2009	Bwrdd yr Iaith Gymraeg Mentrau Iaith Cymru
10 Mawrth 2009	Ffederasiwn y Busnesau Bach Siambwr Fasnach Gorllewin Cymru Siambwr Fasnach De Cymru Siambwr Fasnach Gogledd Cymru Cydffederasiwn Diwydiant Prydain Cymru
17 Mawrth 2009	Cymdeithas yr Iaith Gymraeg Mudiadau Dathlu'r Gymraeg Gwasanaeth Ymholiadau Trenau Cenedlaethol
24 Mawrth 2009	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
31 Mawrth 2009	Telecom Prydain Mobile Broadband Group Scottish Power RWE npower
28 Ebrill 2009	Alun Ffred Jones AC, y Gweinidog dros Dreftadaeth
5 Mai 2009	Llywodraeth Catalonia (drwy gynhadledd fideo) Yr Athro Colin H Williams, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd

Ceir trawsgrifiadau'r dystiolaeth a roddwyd af lafar yn:

<http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-lc5-agendas.htm>

**Llythyrau Alun Ffred Jones AC, Y Gweinidog dros Dreftadaeth i Mark Isherwood AC,
Cadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 3 Mawrth 2009**

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref LFAJ001709

Mark Isherwood AC
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

03 Mawrth 2009


Annwyl Mark

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Chwefror 2009, ac am y cyfle i ateb y cwestiynau gan Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig ar y Gymraeg sydd heb eu hateb.

Mae'r atebion i'r cwestiynau heb eu hateb yn Atodiad A. Yn Atodiad B, mae nodyn ar y dehongliad o 'wasanaethau i'r cyhoedd'.

Rwy'n edrych ymlaen at ymddangos gerbron y Pwyllgor eto.

Yn gywir



Alun Ffred Jones AC/AM
Y Gweinidog dros Dreftadaeth/Minister for Heritage

Atodiad A Cwestiynau gan Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 sydd heb eu hateb

1. Beth a ddisgwylir gan gyrff y Goron o dan y Gorchymyn arfaethedig na ellir ei gyflawni o dan y ddeddfwriaeth gyfredol?

O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gall unrhyw Fesur Cynulliad addasu swyddogaethau cyfredol Gweinidog y Goron, neu'u dileu, ar yr amod bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn cydsynio â hynny; ond ni all – yn ôl Atodlen 5 ar hyn o bryd – drosglwyddo na gosod swyddogaethau newydd ar un o Weinidogion y Goron.

Mae Erthygl 5 y gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig yn darparu ar gyfer gwelliant cyfyngedig i baragraff Rhan 3 Atodlen 5 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, ond dim ond mewn perthynas â Maes 20: y Gymraeg.

Fel y mae paragraff 51 memorandwm esboniadol y Gorchymyn arfaethedig yn ei esbonio, byddai hyn yn galluogi Llywodraeth y Cynulliad i ddeddfu i'w "gwneud yn ofynnol i gyrff y Goron, gan gynnwys Gweinidogion y Goron, gydymffurfio â'r un dyletswyddau yn fras â phob corff cyhoeddus arall, ar yr amod bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn cydsynio â hynny".

Mater i Fesur Cynulliad fyddai natur unrhyw ddyletswyddau y gallai'r Cynulliad Cenedlaethol eu trosglwyddo neu'u gosod, yn amodol ar gymeradwyo'r Gorchymyn arfaethedig.

Byddai'r ddarpariaeth hon yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i ddeddfu i ffurfioli dull gweithredu cyfredol Gweinidogion y Goron. Wrth i Fesur yr Iaith Gymraeg fynd drwy Dŷ'r Arglwyddi ym 1993, aeth Llywodraeth y dydd ati i sicrhau y byddai adrannau'r llywodraeth a chyrrff y Goron yn ymddwyn yn ymarferol fel pe bai'r Mesur yn rhoi rhwymedigaethau ffurfiol arnynt hwy.

2. Pam y cynigir y bydd Gweinidogion y Goron yn cael eu heithrio rhag gorfodaeth droseddol?

Mae ein dull gweithredu yn dilyn confensiwn yn y materion hyn, lle mae disgwyl y bydd y Goron yn ymddwyn mewn ffordd lle nad yw'n torri'r gyfraith ond ni fydd y Goron yn destun sancsiynau cyfreithiol.

3. Pa Ysgrifennydd Gwladol sy'n gorfod cydsynio er mwyn gosod swyddogaethau (Ysgrifennydd Gwladol Cymru, neu Ysgrifennydd Gwladol pob Gweinyddiaeth)?

Mae'r cyfeiriad at "yr Ysgrifennydd Gwladol" yn dilyn y confensiwn drafftio arferol yn y materion hyn. Yn yr un ffordd ag y mae cyfeiriadau yn y statud at "Weinidogion Cymru" yn golygu, yn ôl y gyfraith, y gall unrhyw un o Weinidogion Cymru weithredu, mae cyfeiriadau yn y statud at "yr Ysgrifennydd Gwladol" yn golygu y gall unrhyw Ysgrifennydd Gwladol weithredu yn ôl y gyfraith. Mater i Gabinet y DU ym mhob achos yw penderfynu pwy yw'r Ysgrifennydd Gwladol priodol.

4. Pam bod angen i'r Ysgrifennydd Gwladol gydsynio i osod swyddogaeth ar Weinidogion y Goron?

Mae'r gofyn i gael cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol ymlaen llaw i ddarpariaethau mewn Mesur sy'n effeithio ar swyddogaethau Gweinidogion Llywodraeth y DU yn gyson ag arferion arferol. Er enghraifft, mae Nodyn 9 yng Nghanllawiau Datganoli Llywodraeth y DU yn ei gwneud yn ofynnol i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru ar gyfer darpariaethau mewn Mesur Seneddol a fyddai'n effeithio ar eu swyddogaethau.

5. O ystyried y trafodaethau sydd wedi cael eu cynnal rhwng swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru a Whitehall, ym marn y Gweinidog, pa mor debygol yw hi y bydd yr holl Ysgrifenyddion Gwladol yn cydsynio â swyddogaethau o'r fath?

Ni allaf ateb ar ran Cabinet y DU, ond gallaf nodi ein bod wedi cael trafodaethau cadarnhaol ag adrannau Whitehall cyn cyhoeddi'r Gorchymyn arfaethedig i graffu arno cyn y broses ddeddfu.

6. Byddai'n ddefnyddiol hefyd pe gallech esbonio p'un a fyddai arian y loteri yn cael ei gyfrif yn "arian cyhoeddus" yn ôl diffiniad y Gorchymyn arfaethedig.

Ni fydd y diffiniad o 'arian cyhoeddus' yn cynnwys arian y loteri lle mae un o gyrff dosbarthu statudol y loteri yn rhoi'r arian hwnnw i gorff arall. Felly, ni fydd gyrff sy'n derbyn arian y loteri gan un o gyrff dosbarthu statudol y loteri yn dod o dan y Gorchymyn oni bai, am resymau eraill, eu bod yn dod o dan y meini prawf a nodir ym mharagraffau (a) i (i) ym mater arfaethedig 20.1.

Bydd diffiniad 'arian cyhoeddus' yn y Gorchymyn arfaethedig yn cynnwys dim ond arian y loteri mewn amgylchiadau lle, er enghraifft, mae'r arian ar gael i gyrff dosbarthu statudol y loteri gan y byddai hyn yn cyfrif fel "arian a ddarperir yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad".

1. Mae mater arfaethedig 20.1 Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol yr Iaith Gymraeg yn nodi'r categorïau o bersonau y gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy Fesur, roi dyletswyddau arnynt parthed y Gymraeg.
2. Mae pob un o baragraffau (b) i (e) a (h) ym mater arfaethedig 20.1 yn cynnwys prawf dau gam a gaiff ei ddefnyddio i bennu p'un a yw personau yn dod o dan gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ai peidio.
3. Cam cyntaf pob prawf yw pennu p'un a yw person yn "darparu gwasanaethau i'r cyhoedd". Ail gam pob prawf yw pennu p'un a oes gan y person nodweddion penodol.
4. Mae'r prawf dau gam yn adlewyrchu'r gofynion i baratoi Cynllun Iaith Gymraeg yn adrannau 5 a 6 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Mae adran 6 Deddf 1993 yn dangos y nodweddion a fydd yn arwain i bersonau gael eu cynnwys o dan y Ddeddf honno, ar yr amod bod Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gofyn eu bod yn paratoi Cynllun Iaith Gymraeg. Mae adran 5 Deddf 1993 yn darparu y gellir rhoi dyletswydd ar berson i baratoi cynllun iaith Gymraeg dim ond mewn amgylchiadau penodol sy'n cynnwys lle mae'r person yn darparu "gwasanaethau i'r cyhoedd".
5. Nid yw'r Gorchymyn arfaethedig yn cynnwys unrhyw ddiffiniad o "wasanaethau i'r cyhoedd" yn y darpariaethau dehongli i'w cynnwys ym Maes 20. Mae hyn oherwydd bod y term eisoes wedi'i gynnwys heb ddiffiniad yn y darpariaethau statudol ynghylch y Gymraeg.
6. Er enghraifft, mae'r term yn ymddangos dair gwaith yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993 (adrannau 3 (Swyddogaethau'r Bwrdd), 5 (Dyletswydd ar gyrf cyhoeddus sydd wedi'u hysbysu i baratoi cynlluniau) a 21 (Personau yn gweithredu ar ran y Goron)) a ddwywaith yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 (adran 78 (y Gymraeg) ac Atodlen 2 (Comisiwn y Cynulliad)).
7. Yn y ddwy Ddeddf, roedd Senedd y DU yn fodlon creu deddfwriaeth gyda'r term hwn heb yr angen am unrhyw ddiffiniadau.
8. Bydd y Gorchymyn arfaethedig yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006, a thrwy wneud hynny, yn ychwanegu cyfeiriad ychwanegol yn y Ddeddf honno at ddarparu "gwasanaethau i'r cyhoedd". Gallai cynnwys diffiniad o'r term ym Maes 20 – y Gymraeg awgrymu felly mai'r bwriad oedd i'r ystyr fod yn wahanol i'r ystyr yn adran 78 ac Atodlen 2 y Ddeddf honno. Gan mai'r bwriad yn amlwg yw bod ystyr yr ymadrodd yn adran 78 yn adlewyrchu ystyr y term yn Neddf yr Iaith Gymraeg, byddai creu'r posibilrwydd o ddehongliad o'r fath yn tanseilio strategaeth y Gorchymyn o adeiladu ar ddull Deddf 1993.
9. Yn yr un mlynedd ar bymtheg ers i Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ddod i rym, nid oes unrhyw un o'r personau y gofynnwyd iddynt baratoi Cynllun Iaith Gymraeg wedi herio dehongliad y term "gwasanaethau i'r cyhoedd" yn y Llys. Er bod hyn yn golygu nad oes cyfraith achosion ar y dehongliad o'r term, mae'n dangos bod y term wedi gweithio yn ymarferol ac wedi cael ei gymhwyso heb anhawster.

**Llythrau Alun Ffred Jones AC, Y Gweinidog dros Dreftadaeth i Mark Isherwood AC,
Cadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 7 Mai 2009**

Mark Isherwood AC
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

7 Mai 2009

Annwyl Mark,

Diolch am gyfle i roi tystiolaeth gerbron Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 ar 28 Ebrill 2009. Roeddech am gael rhagor o wybodaeth ynghylch dau bwnc. Yn gyntaf, roeddech am wybod a oedd modd ai peidio i baragraff (b) o fater arfaethedig 20.1 gynnwys cytundebau heblaw, er enghraifft, am gytundebau allanol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau neu nwyddau rhwng cyrff cyhoeddus a chwmnïau yn y sector preifat, ee trwyddedau darlledu gan Ofcom, nad ydynt yn drefniadau contractau cyflenwi allanol. Mae'r ail yn ymwneud â phartneriaethau.

Trefniadau trwyddedu

Mae paragraff (b) o fater 20.1 o'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig ar gyfer yr iaith Gymraeg yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad osod dyletswyddau o ran yr iaith Gymraeg ar bersonau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd o dan gytundeb, neu yn unol â threfniadau ag awdurdod cyhoeddus.

O ganlyniad i'r paragraff hwn bydd y cymhwysedd yn cynnwys personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd er enghraifft, o dan drefniadau â'r contractwyr allanol, ac mae'r cymhwysedd i ddeddfu o dan y paragraff hwn wedi'i gyfyngu i'r gwasanaethau a ddarperir o dan y trefniadau dan sylw.

Mae paragraff (b) yn cynnwys yr amgylchiadau lle mae corff cyhoeddus yn comisiynu gwasanaethau i'w darparu i'r cyhoedd gan berson arall am fod yr awdurdod cyhoeddus am i'r gwasanaeth gael ei ddarparu.

Er mai awdurdod cyhoeddus yw OfCOM at ddibenion y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol, ac eithrio pan fydd yn gweithredu trwy ei weithgareddau trwyddedu i ymyrryd, er enghraifft, lle bo dyletswydd statudol benodol i gyflawni nod ym maes polisi cyhoeddus na all marchnadoedd eu sicrhau, mae'n annhebygol y bydd ei drefniadau trwyddedu'n cynnwys trefniadau neu gytundebau at ddibenion paragraff (b) o fater arfaethedig 20.1 o'r fersiwn ddrafft o'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ar gyfer yr iaith Gymraeg.

Partneriaethau

O dan y cymhwysedd arfaethedig i'w drosglwyddo o dan y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ar gyfer yr iaith Gymraeg, yn y dyfodol bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn

cael deddfu trwy Fesur er mwyn gosod dyletswyddau o ran y Gymraeg ar unigolion neu gyrrff sy'n cyfateb i'r meini prawf ym mharagraffau (a) i (i) o fater arfaethedig 20.1, sef personau sydd naill ai'n cyflawni swyddogaethau o natur gyhoeddus, sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd neu sy'n ymgymryd â swyddogaethau penodol yn y cyd-destunau a nodir ym mharagraffau (b) i (h) neu sydd wedi dewis i gael y dyletswyddau wedi'u gosod arnynt neu sy'n cytuno i hynny.


Lle mae "partneriaeth" neu drefniant ar gyfer gweithio ar y cyd ar gyfer cyflawni swyddogaeth o natur gyhoeddus neu ar gyfer darparu gwasanaethau i'r cyhoedd, yn hytrach na swyddogaethau i'w cyflawni neu wasanaethau a ddarperir gan aelod o'r "bartneriaeth" ar ôl ymgynghori â'r aelodau eraill, gall y Cynulliad osod dyletswyddau ar y "bartneriaeth" o ran yr iaith Gymraeg os "person" yw'r bartneriaeth yng ngolwg y gyfraith a'i bod hefyd yn bodloni'r meini prawf perthnasol yn unrhyw un o'r paragraffau a nodir ym mater 20.1 ee bod y bartneriaeth yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd o dan gytundeb a wnaed ag awdurdod cyhoeddus.

Mae'r diffiniad cyfreithiol perthnasol o "berson" wedi'i nodi yn adran 5 o atodlen 1 i Ddeddf Dehongli 1978. Yn yr Atodlen o'r Ddeddf honno, mae'r diffiniad o "berson" yn cynnwys "a body of persons corporate or uncorporate". Mae'n bosibl y gall trefniadau gweithio ar y cyd a threfniadau partneriaeth fod yn rhan o'r diffiniad hwn yn dibynnu ar sut y'u ffurfir.

Mae nifer o enghreifftiau o "bartneriaethau", trefniadau ar gyfer gweithio ar y cyd neu gydweithio rhwng personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd mewn perthynas â Chymru, neu sydd â diddordeb penodol yn hynny o beth. Cyn i'r Cynulliad allu deddfu trwy Fesur i osod dyletswyddau mewn perthynas â'r iaith Gymraeg ar grwpiau o'r fath o'u hystyried fel grwpiau, byddai angen iddo fod yn fodlon mai person yng ngolwg y gyfraith oedd y grŵp a'i fod naill ai yn awdurdod cyhoeddus yn ei rinwedd ei hun at ddibenion Deddf Hawliau Dynol 1998, neu ei fod yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn unrhyw un o'r amgylchiadau a nodir ym mharagraffau (b) i (h) o'r fersiwn ddrafft o'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ar gyfer yr iaith Gymraeg.

Hyd yn oed pe na bai modd iddo osod dyletswyddau ar grŵp o'r fath, gallai'r Cynulliad deddfu trwy Fesur i osod dyletswyddau o ran yr iaith Gymraeg ar aelodau unigol o grŵp neu bartneriaeth o'r fath sy'n cael eu cwmpasu gan ei gymhwysedd deddfwriaethol. Gellid ei gwneud yn ofynnol i aelodau unigol o'r fath sicrhau bod unrhyw weithgareddau a wneir ganddynt, neu y byddent yn rhan ohonynt, mewn perthynas â gwaith y bartneriaeth, yn gydymffurfio â dyletswyddau a osodwyd gan y Cynulliad trwy Fesur.

Hyderaf y bydd yr wybodaeth hon o gymorth i chi.



Alun Ffred Jones AC/AM

Y Gweinidog dros Dreftadaeth / Minister for Heritage

Summary of legislative frameworks for lesser used languages in other regions and countries

Country/Region	Language Status	Language Rights or Freedom	Private Sector Duties
Republic of Ireland	The Irish language as the national language is the first official language, while the English language is recognised as a second official language, although provision may be made by law for the exclusive use of either of the languages for official purposes.	The right to speak Irish is enshrined in the Constitution of Ireland, though provisions of the 2003 <i>Official Languages Act</i> in particular refer to a person's right to conduct his or her business before the Houses of the Oireachtas, before Oireachtas committees, sub-committees and joint committees through Irish; and the right to use Irish in any court or in any business with any court.	Certain bodies, organisations or groups may be identified as public bodies if prescribed by the Minister, though there have been no such organisations prescribed in this manner by the Minister to date.
Netherlands (Fryslân)	Within the Netherlands' constitution, there is no special clause on any language, though the General Administrative Law Act meant that the central government formally recognised the bilingual status of the province of Fryslân.	See language status.	Not stated in evidence
Finland	According to the Constitution of Finland, the national languages of Finland are Finnish and Swedish.	According to the Constitution of Finland, an individual has the right to use his or her own language, Finnish or Swedish, before authorities. The public authorities shall provide for the cultural and societal needs of the Finnish-speaking and Swedish-speaking populations of the country on an equal basis.	The legislation does not cover any services provided by private companies nor voluntary organisations, unless they are providing public services via procurement.

Quebec (Canada)	The 1977 Charter of the French Language determines that French is the official language of Quebec.	According to le Secrétariat à la politique linguistique, the Charter of the French language is fully in line with the provisions of the Canadian constitution and the Québec and Canadian charters of rights and freedoms, as they are applied today.	The Charter of the French language gave legal status in making French the normal and everyday language of work, commerce and business.
New Brunswick (Canada)	New Brunswick is Canada's only official bilingual province (English and French). The languages of aboriginal groups are not recognised as official languages of the province.	The Official Languages Act (OLA) has no bearing on the language a person speaks in private or in public. The OLA gives the right to a citizen to communicate and to receive services from specified institutions in their official language of choice.	The OLA is mainly about allowing citizens to communicate and to receive governmental services in their official language of choice and has no bearing on the private or voluntary sector, though third parties offering services on behalf of the province must provide services in French and English.
Catalonia (Spain)	Catalan is the official language of Catalonia, together with Castilian, the official language of the Spanish State.	All persons have the right to use the two official languages and citizens of Catalonia have the right and the duty to know them.	Each individual, in his or her capacity as user or consumer of goods, products and services, has the right to be attended orally or in writing in the official language of his or her choice.
Basque Autonomous Community (Spain)	The Basque language is the official language of BAC, together with Castilian, the official language of the Spanish State.	Whilst Spanish is the official language of Spain and all Spaniards have the duty to know it and the right to use it, there is no corresponding duty to know Basque.	Not clear from evidence.